

# Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Mawrth 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/SeneddCyllid](http://www.senedd.cymru/SeneddCyllid)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**  
**Senedd Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddCyllid@senedd.cymru](mailto:SeneddCyllid@senedd.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Mawrth 2025



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddCyllid](http://www.senedd.cymru/SeneddCyllid)

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:  
Peredur Owen Griffiths AS**  
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**  
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS \***  
Llafur Cymru



**Sam Rowlands AS \*\***  
Ceidwadwyr Cymreig

\* Gwnaeth Rhianon Passmore AS ddatgan buddiant perthnasol yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 y Bil gan fod ei rhieni wedi gosod eiddo gyda West Wales Cottages yn y gorffennol.

\*\* Gwnaeth Sam Rowlands AS ddatgan buddiant perthnasol yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 y Bil fel aelod o'r Clwb Carafannau a Chartrefi Modur.

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



**Peter Fox AS \*\*\***  
Ceidwadwyr Cymreig

\*\*\* Gwnaeth Peter Fox AS ddatgan buddiant perthnasol yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 y Bil fel perchennog carafan.

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



**Mick Antoniw AS**  
Llafur Cymru

## Cynnwys

<b>Argymhellion a chasgliad.....</b>	<b>7</b>
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>10</b>
Y Bil.....	10
Cylch Gorchwyl.....	10
Ein dull ni.....	11
Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd.....	12
<b>2. Cefndir a chyd-destun .....</b>	<b>13</b>
Amcanion polisi.....	13
Y cefndir.....	13
Ardoll ymwelwyr.....	13
Cynllun cofrestru statudol.....	14
Cyd-destun Economaidd.....	16
Cynllun peilot.....	19
Ymgynghoriad.....	20
Ardoll ymwelwyr.....	20
Cynllun cofrestru statudol.....	20
Cymhwysedd deddfwriaethol.....	21
<b>3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth .....</b>	<b>22</b>
Egwyddorion cyffredinol y Bil.....	22
Yr angen am ddeddfwriaeth.....	25
Ardollau ymwelwyr mewn gwledydd eraill.....	28
Dulliau eraill.....	30
Ymwelwyr dydd.....	30
Canlyniadau anfwriadol.....	32

---

Effaith gyffredinol ar y diwydiant twristiaeth .....	32
Cystadleurwydd busnesau.....	34
Symud o ymwelwyr dros nos i ymwelwyr dydd .....	35
Lleoliadau anawdurdodedig.....	36
Asesiad effaith economaidd .....	36
Is-ddeddfwriaeth .....	40
Adolygiad ôl-weithredu .....	41
Barn y Pwyllgor.....	42
<b>4. Diffiniad o lety ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr .....</b>	<b>44</b>
Barn y Pwyllgor.....	46
<b>5. Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr .....</b>	<b>48</b>
Dyletswydd mewn perthynas â chofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr .....	48
Gorfodi .....	54
Cosbau yn ymwneud â chofrestru (gwelliannau dangosol Llywodraeth Cymru yng Nghyfnod 2) .....	57
Dull arfaethedig Llywodraeth Cymru o rannu data.....	59
Barn y Pwyllgor.....	59
Cosbau sy'n ymwneud â chofrestru.....	61
<b>6. Ardoll ymwelwyr: cymhwyso a gweithredu'r ardoll a chyfraddau'r ardoll .....</b>	<b>62</b>
Pŵer y prif gyngor i gyflwyno ardoll ymwelwyr yn ei ardal.....	62
Cymhwyso a gweithredu'r ardoll.....	62
Rheol 31 diwrnod .....	63
Baich gweinyddol ychwanegol.....	64
Cyfraddau'r ardoll .....	65
Cyfraddau'r ardoll.....	65

---

Ychwanegu premiwm at gyfradd yr ardoll.....	68
Cais am ad-dalu swm sy'n gyfwerth â'r ardoll.....	71
Esemptiadau .....	73
Plant a phobl ifanc .....	73
Teithiau a sefydliadau addysgol.....	74
Statws elusennol.....	75
Lleiniau .....	76
Barn y Pwyllgor.....	76
Y rheol 31 diwrnod .....	76
Baich gweinyddol ychwanegol.....	77
Cyfraddau'r ardoll.....	77
Cymhwyso premiwm.....	78
Esemptiadau .....	78
<b>7. Ardoll ymwelwyr: rhoi cyfrif am yr ardoll a'i thalu.....</b>	<b>80</b>
Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu ac yn rheoli'r ardoll .....	83
Barn y Pwyllgor.....	85
<b>8. Ardoll ymwelwyr: defnydd prif gynghorau o enillion yr ardoll</b>	<b>86</b>
.....	86
Gwario'r ardoll .....	87
Ychwanegedd refeniw'r ardoll .....	89
Ymgysylltu â'r sector twristiaeth.....	90
Barn y Pwyllgor.....	93
<b>9. Materion eraill .....</b>	<b>95</b>
Ardoll ymwelwyr: cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll.....	95
Darpariaeth amrywiol sy'n ymwneud â'r ardoll .....	96
Darpariaethau amrywiol a chyffredinol.....	98
Canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru .....	98

---

Pŵer i estyn y Ddeddf i ddocfeydd ac angorfeydd.....	99
Barn y Pwyllgor.....	100
<b>10. Goblygiadau ariannol.....</b>	<b>101</b>
Llywodraeth Cymru.....	102
Darparwyr llety ymwelwyr .....	103
Ymwelwyr .....	105
Awdurdodau lleol.....	106
Awdurdod Cyllid Cymru .....	109
Barn y Pwyllgor.....	111
<b>Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar .....</b>	<b>114</b>
<b>Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....</b>	<b>117</b>
Gwybodaeth ychwanegol.....	122

---



## Argymhellion a chasgliad

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd, gan ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). Nid yw Sam Rowlands AS yn cefnogi'r argymhelliad hwn.....Tudalen 43

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i ymrwymo i gynnal a chyhoeddi adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf gyfan heb fod yn hwyrach na phedair blynedd ar ôl i Ran 2 o'r Ddeddf ddod i rym.....Tudalen 43

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y canllawiau ar gyfer Darparwyr Llety Ymwelwyr a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru neu Awdurdod Cyllid Cymru:

- wedi'u targedu'n briodol at ddefnyddwyr proffesiynol a'r rhai nad ydynt yn broffesiynol; ac
- yn egluro cymhwysedd y gofynion cofrestru a'r cynigion ardoll i'r amgylchiadau unigol a hysbyswyd i'r Pwyllgor gan gyfranwyr at ein gwaith craffu ar y Bil. .... Tudalen 46

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell, cyn y ddadl Cyfnod 1, y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o fanylion i'r Senedd ar ei bwriadau polisi ar gyfer y Bil trwyddedu statudol sydd ar ddod, ynghyd ag arwydd o'r amserlenni ar gyfer gweithredu pe bai'r Senedd yn pasio Bil o'r fath.....Tudalen 60

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i ymrwymo i gyhoeddi adroddiadau cyfnodol yn dadansoddi data a gasglwyd o'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Dylai adroddiad o'r fath gynnwys dadansoddiad o dueddiadau yn y nifer a'r mathau o ddarparwyr a llety ar draws awdurdodau lleol flwyddyn ar ôl blwyddyn.  
..... Tudalen 60

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru a rhanddeiliaid perthnasol, yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r Senedd ar ddatblygu dull Awdurdod Cyllid Cymru o gydymffurfio a gorfodi o dan y Bil, gan gynnwys unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi yn gymesur â natur a maint y darparwr llety ymwelwyr. .... Tudalen 60

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet, cyn y ddadl Cyfnod 1 ac yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ynghylch a yw'n parhau o'r farn mai 31 diwrnod yw'r cyfnod uchaf priodol y dylai aros mewn llety ymwelwyr yng Nghymru fod yn ddarostyngedig i'r ardoll.....Tudalen 77

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cymryd camau rhagweithiol i ddarparu cymorth priodol i ddarparwyr llety ymwelwyr llai unwaith y daw'r Bil i rym.....Tudalen 77

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl Cyfnod 1, roi rhagor o fanylion am ei chynigion i gryfhau darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â chyflwyno premiwm.....Tudalen 78

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ystyried dulliau amgen o godi premiymau yng nghyd-destun yr ardoll ymwelwyr fel rhan o unrhyw asesiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf yn y dyfodol.....Tudalen 78

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn dadl Cyfnod 1, roi crynodeb i'r Senedd o unrhyw ddadansoddiad a gynhaliwyd ynghylch yr esemptiad posibl o'r ardoll mewn perthynas â'r canlynol:

- pobl ifanc o dan 16 oed,
- teithiau addysgol, a
- chyrrff sydd â statws elusenol. .... Tudalen 79

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl Cyfnod 1, adolygu ei hymagwedd at y terfyn amser o 30 diwrnod ar gyfer ffeilio ffurflenni, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ynghylch a yw'n parhau i fod o'r farn bod yr amserlen arfaethedig yn briodol.....Tudalen 85

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau sy'n dymuno cyflwyno'r ardoll sefydlu Fforwm Ymwelwyr yn unol â'r dull a fabwysiadwyd yn Neddf Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban) 2024, ac:

- y dylai aelodaeth y fforwm gynnwys busnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth, sefydliadau twristiaeth yn ardal y prif gyngor a chyrrff lleol perthnasol eraill; a

- bod rhaid i brif gynghorau roi sylw i unrhyw argymhellion a wneir gan y Fforwm Ymwelwyr wrth benderfynu ar y defnydd o enillion yr ardoll.  
..... Tudalen 94

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer gwaith pellach mewn perthynas ag adran 40 a dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am drafodaethau dilynol.....Tudalen 100

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar gostau parhaus ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r ardoll ymwelwyr a bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2..... Tudalen 112

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn gweithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i asesu:

- yr amrywiadau mewn perthynas â'r costau gweinyddol y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn eu hysgwyddo wrth weithredu'r Bil, ac
- a oes gan Awdurdod Cyllid Cymru ddigon o gapasiti i ymdrin â'i gyfrifoldebau ychwanegol o dan y Bil,
- ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda manylion y canfyddiadau hynny.  
..... Tudalen 113

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn esbonio'r model cyllido tymor canolig i dymor hir y bydd yn ei ddefnyddio i dalu'r costau gweinyddol ychwanegol sy'n disgyn ar Awdurdod Cyllid Cymru o ganlyniad i'r Bil a bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddiweddarau gyda'r manylion hyn ar ôl Cyfnod 2..... Tudalen 113

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn..... Tudalen 111

# 1. Cyflwyniad

## Y Bil

1. Ar 25 Tachwedd 2024, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS ('Ysgrifennydd y Cabinet'), Fil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) Llywodraeth Cymru ('y Bil') i'r Senedd.<sup>1</sup> Ar yr un diwrnod, gosododd Femorandwm Esboniadol ('y Memorandwm') sy'n ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol<sup>2</sup>, a gwnaeth ddatganiad ysgrifenedig<sup>3</sup>.
2. Ar 26 Tachwedd 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet Ddatganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth<sup>4</sup> a gwnaeth ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn<sup>5</sup>. Rhannodd hefyd ddarpariaethau cofrestru ychwanegol dangosol y mae'n bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2.<sup>6</sup>
3. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Cyllid ('y Pwyllgor') ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 21 Mawrth 2025.<sup>7</sup>

## Cylch Gorchwyl

4. Ar 27 Tachwedd 2024, cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull craffu, gan gynnwys y cylch gorchwyl.

### **Blwch 1 Cylch Gorchwyl**

Egwyddorion cyffredinol Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi a nodir yn y Bil, sef;

- sicrhau y bydd costau i ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol sydd o fudd i ymwelwyr yn cael eu rhannu'n fwy cyfartal rhwng trigolion ac ymwelwyr;

---

<sup>1</sup> Mae gwybodaeth am y Bil a'i daith drwy'r Senedd ar gael ar [dudalen we y Bil](#).

<sup>2</sup> [Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\): Memorandwm Esboniadol](#), 25 Tachwedd 2024

<sup>3</sup> [Datganiad ysgrifenedig: Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\)](#), 25 Tachwedd 2024

<sup>4</sup> [Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\): Datganiad o fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#), 26 Tachwedd 2024

<sup>5</sup> [Datganiad llafar: Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\)](#), 26 Tachwedd 2024

<sup>6</sup> [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Gwelliannau Dangosol Cyfnod 2](#), 26 Tachwedd 2024

<sup>7</sup> [Y Pwyllgor Busnes: Amserlen ar gyfer ystyried Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\)](#), 25 Tachwedd 2024

- galluogi awdurdodau lleol i gynhyrchu refeniw ychwanegol y gellir ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith lleol sy'n gallu cefnogi twristiaeth;
- cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth gynaliadwy.

Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, ac a yw'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt.

A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil

Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol.

Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1: Pennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol).

Y cydbwysedd rhwng yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth.

Unrhyw fater yn ymwneud ag ansawdd y ddeddfwriaeth.

Y darpariaethau cofrestru a gorfodi ychwanegol dangosol mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2.

## Ein dull ni

**5.** Ar 29 Tachwedd 2024, gwnaeth y Pwyllgor alwad gyffredinol am dystiolaeth ysgrifenedig. Er mwyn sicrhau y gallai'r dystiolaeth lywio ein sesiynau tystiolaeth lafar, y dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 10 Ionawr 2025. Cafwyd 150 o ymatebion, yn ogystal â thystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan sawl sefydliad.<sup>8</sup>

**6.** Rhoddodd Llywodraeth Cymru friff technegol preifat i'r Pwyllgor ar 27 Tachwedd 2024. Cynhaliwyd 11 sesiwn tystiolaeth lafar gydag Ysgrifennydd y Cabinet a rhanddeiliaid allweddol rhwng 5 Rhagfyr 2024 a 12 Chwefror 2025.<sup>9</sup>

<sup>8</sup> Mae'r ymatebion ysgrifenedig a gawsom ar gael i'w darllen yn llawn ar [dudalen we y Bil](#).

<sup>9</sup> Mae manylion am y briff technegol a'r sesiynau tystiolaeth lafar, gan gynnwys dolenni i'r trawsgrifiadau a darllediadau Senedd.tv, ar gael ar [dudalen we y Bil](#) ac yn Atodiad 1.

## **Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd**

**7.** Yn unol â'i arfer arferol, craffodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil hefyd. Mae gwybodaeth am ei waith, a'i gasgliadau, i'w gweld ar dudalen we y Bil.<sup>10</sup>

---

<sup>10</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

---

## 2. Cefndir a chyd-destun

### Amcanion polisi

8. Mae gan y Bil ddau amcan bras:

- rhoi pŵer i awdurdodau lleol yng Nghymru godi ardoll ar ymwelwyr dros nos sy'n aros mewn llety ymwelwyr yn eu hardal ('yr ardoll ymwelwyr'); a
- sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n gweithredu yng Nghymru.

9. Amcanion polisi'r ardoll ymwelwyr yw:

- sicrhau y bydd costau i ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol sydd o fudd i ymwelwyr yn cael eu rhannu'n fwy cyfartal rhwng trigolion ac ymwelwyr.
- galluogi awdurdodau lleol i gynhyrchu refeniw ychwanegol y gellir ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith lleol sy'n gallu cefnogi twristiaeth.
- cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth gynaliadwy.

10. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y gofrestr "yn cefnogi'r gwaith o weinyddu'r ardoll" ac, ymhellach, y bydd yn helpu "i ddeall y sector yn well er mwyn helpu i lywio ymyriadau polisi yn y dyfodol."<sup>11</sup>

### Y cefndir

#### Ardoll ymwelwyr

---

11. Yn 2017, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd, Mark Drakeford AS, alwad gyhoeddus am syniadau ar gyfer trethi newydd posibl i Gymru.<sup>12</sup>

---

<sup>11</sup> Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, 25 Tachwedd 2024, paragraff 3.3.2

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru. Datganiad i'r Wasg: Cyfle i leisio'ch barn am ddatblygu trethi newydd posibl i Gymru, 4 Gorffennaf 2017

---

**12.** Ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Drethi Llywodraeth Cymru a Fforwm Trethi ar lefel swyddogion, cyhoeddwyd rhestr fer o bedair treth newydd bosibl i Gymru yn 2018, a oedd yn cynnwys ardoll ymwelwyr.<sup>13</sup>

**13.** Addawodd maniffesto Llafur Cymru 2021 i wneud y canlynol:

*“Consult on legislation permitting local authorities to raise a tourism levy, ring fenced to support improving the visitor experience in Wales and to help the local economy.”<sup>14</sup>*

**14.** Ymrwymodd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2021 i wneud y canlynol:

*“Cyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth.”<sup>15</sup>*

**15.** Roedd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, a fu ar waith rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mai 2024, yn cynnwys yr ymrwymiad canlynol:

*“Cyflwyno ardollau twristiaeth lleol gan ddefnyddio deddfwriaeth diwygio cyllid llywodraeth leol.”<sup>16</sup>*

**16.** Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i ddarparu pwerau disgresiwn i awdurdodau lleol gymhwyso ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd yn 2022.<sup>17</sup>

**17.** Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, ei bwriad i fwrw ymlaen â chynigion deddfwriaethol.<sup>18</sup>

## **Cynllun cofrestru statudol**

---

**18.** Ymrwymodd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru hefyd i “fwrw ymlaen â chymau i... drwyddedu llety gwyliau”<sup>19</sup> ac roedd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i “gynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau”.<sup>20</sup>

---

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, [Datblygu trethi Cymreig newydd](#), 28 Mehefin 2018

<sup>14</sup> [Moving Wales Forward, Maniffesto Llafur Cymru 2021](#)

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Lywodraethu: diweddariad](#), 7 Rhagfyr 2021

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, [Y Cytundeb Cydweithio: 2021](#), Rhagfyr 2021

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru, [Ymgynghoriad: Ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol](#)

<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar gynigion am ardoll ymwelwyr ddewisol i Gymru](#), 30 Mawrth 2023

<sup>19</sup> Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Lywodraethu: diweddariad](#), 7 Rhagfyr 2021

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru, [Y Cytundeb Cydweithio: 2021](#), Rhagfyr 2021



**19.** Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2022, gan gynnwys cynigion i sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru.<sup>21</sup>

**20.** Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd, gynlluniau i symud ymlaen gyda chynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer pob llety ymwelwyr yng Nghymru.<sup>22</sup>

**21.** Yn ei ddatganiad ysgrifenedig ar gyflwyno'r Bil, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*“Drwy ymgynghori, ymgysylltu parhaus a'r gwaith darganfod a arweiniwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru, rydym wedi cael adborth cyson bod angen cael math o gofrestru ar waith i gefnogi'r ardoll. Mae hyn wedi llywio ein penderfyniad i gynnwys cofrestr genedlaethol o bawb sy'n darparu llety ymwelwyr yng Nghymru yn y Bil.”<sup>23</sup>*

**22.** Wrth siarad yn y Cyfarfod Llawn, ychwanegodd y bydd y gofrestr “yn rhoi sail i'r cynllun trwyddedu statudol y mae'r Llywodraeth hon yn parhau i fod yn ymrwymedig iddo”.<sup>24</sup>

**23.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ddiweddarach y bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno ail Fil yn ddiweddarach:

*“... the next Bill will be the licensing Bill, and the licensing Bill will require accommodation providers to acquire a licence to operate, and the current intention is to start with an approach where it will be those basic safety-type issues, where you have a legitimate expectation that if you go to some self-contained accommodation it will have those safety licences and requirements in place. So, yes, there will be another Bill, currently expected to be introduced in the autumn, that will deal with that.”<sup>25</sup>*

---

<sup>21</sup> Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru

<sup>22</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg: Datgelu cynlluniau ar gyfer cofrestru statudol a chynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru, 9 Ionawr 2024

<sup>23</sup> Datganiad ysgrifenedig: Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), 25 Tachwedd 2024

<sup>24</sup> Datganiad llafar: Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), 26 Tachwedd 2024

<sup>25</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 112

## **Blwch 2 Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil**

Os caiff ei basio, bydd y Bil:

- Yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru gael eu cofrestru ar gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.
- Yn rhoi pŵer disgrisiwn i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr ('yr ardoll').
- Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori cyn cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll
- Yn gwneud darparwyr llety ymwelwyr yn atebol i dalu'r ardoll i Awdurdod Cyllid Cymru.
- Yn darparu sail ar gyfer cyfrifo'r ardoll a'i chasglu.
- Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio'r elw net at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn eu hardaloedd ac adrodd ar sut y defnyddir yr elw.
- Yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ymestyn yr ardoll i ddocfeydd ac angorfeydd drwy reoliadau.

**24.** Mae natur ddewisol yr ardoll yn golygu mai mater i bob awdurdod lleol unigol yng Nghymru fydd penderfynu a ddylid ei chyflwyno yn eu priod ardaloedd ai peidio.

## **Cyd-destun Economaidd**

**25.** Yn ôl proffil Llywodraeth Cymru o'r economi ymwelwyr yng Nghymru<sup>26</sup>:

- Roedd y sector twristiaeth yn cyfrif am 5.1 y cant o Werth Ychwanegol Gros (GVA) yng Nghymru yn 2022 (£3.8 biliwn).
- Roedd y sector twristiaeth yn cyfrif am 11.8 y cant o gyflogaeth (159,000) yng Nghymru yn 2022, cynnydd o 151,000 yn 2020 (11.3 y cant o gyflogaeth yng Nghymru) ac yn ystod y cyfnod hwn, nid oedd lefelau cyflogaeth cyffredinol yng Nghymru wedi newid. Roedd 77 y cant o'r swyddi twristiaeth (123,000) mewn lletygarwch. Yr is-sector â'r gyfran fwyaf o gyflogaeth yn 2022 oedd Gweithgareddau'r Gwasanaeth Bwyd a

---

<sup>26</sup> Llywodraeth Cymru, Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2024

Diod gyda 6.8 y cant (91,000) o gyflogaeth yng Nghymru ac wedyn Llety i Ymwelwyr â 1.9 y cant (26,000). Roedd 55 y cant o swyddi gweithwyr yn y diwydiant twristiaeth yn 2022 yn rhan-amser, o'i gymharu â dim ond 35 y cant o swyddi gweithwyr ym mhob diwydiant.

- Roedd mentrau twristiaeth (12,625) yn cynrychioli 11.8 y cant o fentrau cofrestredig yng Nghymru yn 2023. Roedd 80 y cant (10,065) o fentrau twristiaeth mewn lletygarwch, sy'n cyfrif am 9.4 y cant o fentrau cofrestredig yng Nghymru.

**26.** Mae'r Adroddiad Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru diweddaraf yn tynnu sylw at y ffaith bod gweithredwyr twristiaeth yn "brwydro â chostau uchel" ac yn nodi:

*"Mae gweithredwyr twristiaeth wedi gweld costau gweithredu'n codi ar draws nifer o feysydd busnes eleni ac felly mae wedi dod yn anoddach parhau'n broffidiol. Tymor prysuraf yr haf yw'r amser o'r flwyddyn mae gweithredwyr yn edrych ymlaen ato fwyaf fel arfer o ran gwneud i fyny am fisoedd llai hyfyw y flwyddyn. Fodd bynnag, mae lefelau ymwelwyr is na'r hyn roedd nifer o fusnesau'n gobeithio amdano wedi effeithio'r hyder o gael dau ben llinyn ynghyd eleni."*<sup>27</sup>

**27.** Mae'r adroddiad yn nodi bod 52 y cant o weithredwyr twristiaeth yn hyderus am redeg y busnes gydag elw eleni, gan ddweud yr arferai blynyddoedd cyn Covid "weld oddeutu 80 y cant o weithredwyr yn teimlo'n hyderus adeg yma o'r flwyddyn".<sup>28</sup>

**28.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

*"Nid oes gan y sector twristiaeth yng Nghymru un ffynhonnell ddata ar hyn o bryd i ddarparu asesiad cywir o faint o lety ymwelwyr sydd ar gael ledled y wlad, a'u math. Mae'r diffyg gwybodaeth hwn wedi rhwystro dadansoddiad cywir o'r effaith (cadarnhaol a negyddol) y mae twristiaeth yn ei chael ar gymunedau lleol. Mae hefyd yn ei gwneud yn anodd i*

---

<sup>27</sup> Llywodraeth Cymru, Adroddiad Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2024: [adroddiad.cam.yr.haf](https://adroddiad.cam.yr.haf), 8 Hydref 2024, tudalen 15

<sup>28</sup> Llywodraeth Cymru, Adroddiad Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2024: [adroddiad.cam.yr.haf](https://adroddiad.cam.yr.haf), 8 Hydref 2024, tudalen 16

---

*awdurdodau lleol asesu ac ystyried yn iawn pa ymyriadau a allai fod o fudd i'w cymunedau ac ymwelwyr.”<sup>29</sup>*

**29.** Fodd bynnag, mae ymchwil a wnaed gan Brifysgol Bangor ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cynnig dadansoddiad cymharol o drethi tebyg a weithredwyd mewn gwledydd eraill yn rhyngwladol.<sup>30</sup>

**30.** Caiff argaeledd data ei archwilio ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**31.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o benderfyniadau polisi sy'n effeithio ar yr economi ymwelwyr, gan gynnwys:

- O fis Ebrill 2023, cynyddodd y cyfnod lleiaf o amser y mae'n rhaid gosod eiddo hunanddarpar er mwyn bod yn atebol i dalu ardrethi annomestig (yn hytrach na'r dreth gyngor) o 70 diwrnod (10 wythnos) i 182 diwrnod (26 wythnos) o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis. Rhaid i'r eiddo fod ar gael i'w osod am o leiaf 252 diwrnod (36 wythnos) mewn cyfnod o 12 mis hefyd.<sup>31</sup>
- Y gostyngiad mewn rhyddhad ardrethi annomestig ar gyfer safleoedd manwerthu, hamdden a lletygarwch (sy'n cynnwys gwestai, tai llety, cartrefi gwyliau, a meysydd a safleoedd carafanau). Yn 2023-24, cafodd eiddo cymwys ostyngiad o 75 y cant ar eu bil ardrethi annomestig.<sup>32</sup> Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, lleihawyd y gostyngiad i 40 y cant.<sup>33</sup>
- Ers mis Ebrill 2023, mae awdurdodau lleol wedi bod â phwerau cynyddol i gyflwyno premiymau'r dreth gyngor dewisol uwch ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor o hyd at 300 y cant.<sup>34</sup> O fis Ebrill 2025, mae 21 o awdurdodau lleol wedi nodi y byddant yn codi premiwm ar ail gartrefi a/neu eiddo gwag hirdymor. Ar hyn o bryd, mae dau o'r

---

<sup>29</sup> [Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\): Memorandwm Esboniadol](#), 25 Tachwedd 2024, paragraff 3.2.14

<sup>30</sup> [Dadansoddiad Cymharol o'r Systemau Trethiant sydd yn Effeithio ar yr Economi Ymwelwyr mewn Gwledydd Dethol](#), Prifysgol Bangor, Tachwedd 2022

<sup>31</sup> [Llywodraeth Cymru \(Busnes Cymru\), Ardrethi Annomestig ar gyfer Eiddo Hunanddarpar yng Nghymru](#)

<sup>32</sup> [Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2023-24](#), 12 Rhagfyr 2022

<sup>33</sup> [Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2024-25](#), 13 Rhagfyr 2023

<sup>34</sup> [Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar breimiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi](#), 9 Mawrth 2023

---

awdurdodau lleol hynny - Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Benfro - yn cymhwyso premiwm o fwy na 100 y cant ar ail gartrefi.<sup>35</sup>

- Mae cyfraddau uwch o Dreth Trafodiadau Tir ar waith ar gyfer prynu ail gartrefi a phan fydd cwmni'n prynu eiddo preswyl.<sup>36</sup>
- Ym mis Hydref 2022, cyflwynwyd tri dosbarth defnydd newydd i roi'r gallu i awdurdodau cynllunio lleol fynnu bod angen caniatâd cynllunio cyn newid defnydd prif eiddo preswyl i ail gartref, llety gwyliau tymor byr neu eiddo defnydd cymysg penodol (Cyfarwyddyd Erthygl 4).<sup>37</sup> Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod cyntaf i ddefnyddio'r pŵer newydd.<sup>38</sup>
- Ers mis Ebrill 2024, mae'n ofynnol i bob busnes a gweithle yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn yr un modd ag aelwydydd.<sup>39</sup>

## Cynllun peilot

---

**32.** Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynnal cynllun peilot yn Nwyfor, Gwynedd i dreialu cyflwyno mesurau newydd amrywiol i reoli nifer yr ail gartrefi a llety gosod tymor byr, ac i asesu eu cymhwysiad a'u heffaith ar fforddiadwyedd tai yn yr ardal leol.<sup>40</sup>

**33.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ym mis Mawrth 2022, dywedodd Llywodraeth Cymru:

*"Cwblhawyd ymgynghoriad caeedig byr ar ddichonoldeb a ffurf bosibl cynllun trwyddedu neu gofrestru statudol ar gyfer llety gwyliau, gan gynnwys llety gwyliau tymor byr, a fydd yn llywio'r camau nesaf. Rydym wedi ymrwmo i sefydlu cynllun cofrestru*

---

<sup>35</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar gamau gweithredu i fynd i'r afael ag Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd, 16 Hydref 2024

<sup>36</sup> Llywodraeth Cymru, Canllawiau: Cyfraddau uwch y Dreth Trafodiadau Tir: rhagarweiniad, 26 Tachwedd 2024

<sup>37</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gosod tymor byr, 30 Medi 2022

<sup>38</sup> Cyngor Gwynedd, Datganiad i'r wasg: Cyngor Gwynedd i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, 16 Gorffennaf 2024

<sup>39</sup> Llywodraeth Cymru, Newidiadau i ailgylchu yn y gweithle: canllawiau ar gyfer gweithleoedd, 16 Ebrill 2024

<sup>40</sup> Llywodraeth Cymru, Canllawiau: Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor, 13 Ebrill 2023

*gwirfoddol yn Nwyfor, er mwyn dysgu gwersi a llywio'r broses o weithredu cynllun statudol.*<sup>41</sup>

**34.** Fodd bynnag, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet na aeth y cynllun yn ei flaen, a bod y gwaith ar y Bil hwn wedi cymryd ei le. Ychwanegodd:

*"... the decision was made some time ago that it was better to concentrate resources on this scheme and that there would have been little time for learning from a voluntary register in any case."*<sup>42</sup>

## Ymgynghoriad

### Ardoll ymwelwyr

---

**35.** Ym mis Medi 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i ddarparu pwerau dewisol i awdurdodau lleol gymhwyso ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd. Roedd hyn yn cynnwys ceisio adborth ar yr opsiynau dylunio posibl ar gyfer ardoll ymwelwyr i gefnogi'r broses benderfynu.<sup>43</sup>

**36.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodedb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Mawrth 2023.<sup>44</sup>

**37.** Dywed y Memorandwm Esboniadol fod yr ymgynghoriad "yn helaeth ei natur" ac felly "ni theimlwyd bod ymgynghoriad pellach ar fil drafft yn gymesur".<sup>45</sup>

### Cynllun cofrestru statudol

---

**38.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi na fu ymgynghoriad ar wahân yn benodol ar gronfa ddata neu gofrestr, ond y "cynhaliwyd ymgynghoriadau ar gynllun statudol ehangach ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr".<sup>46</sup>

**39.** Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru Strategic Research and Insights (SRI) o Gaerdydd i gynnal ymarfer cwmpasu mewn perthynas â sefydlu cynllun

---

<sup>41</sup> Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth: Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig - Ymchwiliad i Dwristiaeth, Lletygarwch a Manwerthu

<sup>42</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2024, paragraff 22

<sup>43</sup> Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol, 20 Medi 2022

<sup>44</sup> Llywodraeth Cymru, Ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol: Crynodeb o'r ymatebion

<sup>45</sup> Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, 25 Tachwedd 2024, paragraff 4.5.3

<sup>46</sup> Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, 25 Tachwedd 2024, paragraff 4.1.5

cofrestru neu drwyddedu statudol ar gyfer pob llety ymwelwyr.<sup>47</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod yr adroddiad dilynol wedi nodi "y byddai polisi sy'n ymwneud â llety twristiaid yn elwa ar gael cofrestr o weithredwyr ac awgrymodd hefyd y byddai angen rhyw fath o gronfa ddata mewn rhai achosion fel ardoll dwristiaeth."<sup>48</sup>

## Cymhwysedd deddfwriaethol

**40.** Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

*"Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ("y Bil") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017."<sup>49</sup>*

**41.** Cyhoeddodd y Llywydd ddatganiad ar 25 Tachwedd 2024, yn nodi y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn ei barn hi.<sup>50</sup>

---

<sup>47</sup> Strategic research & insight, Report: Consultation on Statutory Registration, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2021

<sup>48</sup> Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, 25 Tachwedd 2024, paragraff 4.1.5

<sup>49</sup> Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, 25 Tachwedd 2024, paragraff 2

<sup>50</sup> Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol, 25 Tachwedd 2024

---

### 3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

#### Egwyddorion cyffredinol y Bil

**42.** Yn unol â Rheol Sefydlog 26.10, rôl y Pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad i'r Senedd er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch a ddylai'r Bil fynd ymlaen i gyfnodau nesaf y broses ddeddfwriaethol.

**43.** Cafodd y Pwyllgor safbwyntiau cymysg ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a grynhoir isod:

#### ***Blwch 3 Enghreifftiau o safbwyntiau ar egwyddorion cyffredinol y Bil<sup>51</sup>***

“The CTA do not believe that this is a fair and equitable method of raising revenue for the stated aims as 90% of the visitors to Wales are day trippers who will contribute nothing and they bring less income than those who stay in overnight accommodation. Visitor numbers are down and the Welsh economy is sluggish. Wrong tax at the wrong time which will harm businesses and the Welsh economy.” (Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr, VAB32)

“This tourism levy will be another nail in the coffin of the Welsh Tourism Industry.” (Sygun View, VAB69)

“Whilst Visitor Levies work in many European city destinations, there is a risk that this will be seen to our largely domestic visitors as Wales being unwelcoming to visitors.” (Rheolwr Digwyddiadau, VAB75)

“Agree with the general principles but it is important that the money raised is used to finance additional activities and not to replace existing funding for tourism related activity.” (Unigolyn, VAB85)

“I believe that it is important that tourism should contribute to the local economy but it is important that any legislation does not have the unintended consequence of harming the low cost, non-profit sector of tourist accommodation within Wales.” (Mike Gutteridge, VAB100)

---

<sup>51</sup> Mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar [dudalen we yr ymgynghoriad](#).



“Deallwn yr angen i godi’r ardoll ac yn croesawu’r refeniw ychwanegol a ddaw i fuddsoddi yn ôl i wasanaethau lleol a’r seilwaith i gefnogi twristiaeth a diwylliant.” (Urdd Gobaith Cymru, VAB103)

“While the Bill’s objectives have the potential to ensure costs for local services are shared more equally between those using them, we have significant concerns about its broad application. The current scope fails to distinguish between commercial tourism operations and small, non-profit, volunteer-run facilities that provide low cost accommodation as part of non-formal youth development and outdoor education programs.” (ScoutsCymru, VAB118)

“Eryri National Park Authority (NPA) are very supportive of the general principle of the proposed Visitor Levy. The “National Park” designation will attract a significant amount of the 5 million annual visitors to this part of north-west Wales. The NPA recognises the huge contribution this industry makes to the local economy (£1.35bn value to the local economy of Gwynedd alone in 2019) and wish to promote and support the industry and help make it as sustainable as possible so that its impacts on local communities are positive.” (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, VAB140)

“On the whole, I agree with and am supportive of the visitor levy. In some ways it is overdue given the challenges at peak times.” (Expeditions Wales, VAB147)

**44.** Awgrymodd Cadwch Gymru’n Daclus fod egwyddorion cyffredinol y Bil yn cefnogi’r amcanion polisi yn sylweddol a bod angen deddfwriaeth i gyflawni’r amcanion hyn. Ychwanegodd:

*“A visitor levy is an appropriate method of additional revenue generation due to familiarity across the world with the concept...”<sup>52</sup>*

**45.** Cytunodd Expedia Group:

*“... the Bill appears to broadly fulfil the stated objectives and we commend the Welsh Government on its engagement with the industry during the process of consultation and drafting.”<sup>53</sup>*

**46.** Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (‘CLILC’) ei bod o blaid cyflwyno ardoll i raddau helaeth:

---

<sup>52</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB73 – Cadwch Gymru'n Daclus](#)

<sup>53</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB117 – Expedia Group](#)

*"... particularly because, within what is proposed, there is allowance for local discretion. We believe it has got the ability to deliver a substantial impact on sustainable tourism in terms of supporting that."<sup>54</sup>*

**47.** Ychwanegodd:

*"... we would argue that there is an opportunity here to potentially enhance the visitor experience and make destinations in Wales more attractive."<sup>55</sup>*

**48.** Nododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei fod yn cefnogi'r Bil a'i amcanion:

*"The Authority is supportive of the principles of the Bill as outlined above. Growing tourism for the good of Wales and using the economic benefits of tourism to improve life for all, is consistent with the Authority's commitment to Regenerative Tourism."<sup>56</sup>*

**49.** Roedd Clwb Mynydda De Cymru hefyd yn gefnogol i raddau helaeth:

*"As a club involved in mountain activities, especially in a honeypot area, we recognise the challenges from the comparatively recent explosion of interest in outdoor activities, and broadly support the principle of revenue from tourism being reinvested into infrastructure to support tourism, on the proviso that any taxation of tourism is ring-fenced for this purpose."<sup>57</sup>*

**50.** Dywedodd Airbnb ei fod yn credu bod yr egwyddorion cyffredinol yn gywir i raddau helaeth ar gyfer bil sydd â'r prif nod o gyflwyno ardoll ymwelwyr, ond nododd bryder sylweddol y gallai cyflwyno ardoll gael effaith negyddol ar fywiogrwydd a chystadleurwydd twristiaeth yng Nghymru.<sup>58</sup>

**51.** Cododd llawer o dystion bryderon penodol am effeithiau posibl y Bil ar ddarparwyr llety a'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn ehangach. Rydym yn archwilio'r rhain yn fanylach yn yr adroddiad hwn.

---

<sup>54</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 159](#)

<sup>55</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 159](#)

<sup>56</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB95 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

<sup>57</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB91 - Clwb Mynydda De Cymru](#)

<sup>58</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB101 - Airbnb](#)

## Yr angen am deddfwriaeth

**52.** Roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys ystyried a oes angen deddfwriaeth i gyflawni amcanion polisi'r Bil.

**53.** Cwestiynodd nifer o dystion amseriad cyflwyno'r ardoll ymwelwyr. Awgrymodd ymatebion nad oedd yr economi dwristiaeth wedi adfer ar ôl y pandemig a chostau ynni uchel. Nododd Bluestone:

*"... businesses and therefore the economy have still not recovered from the pandemic and all the fall-out from that, including the taking on of additional debt. If the introduction of a levy is deemed unavoidable by Welsh Government, then it should at least wait until businesses and the economy have fully recovered."*<sup>59</sup>

**54.** Dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru ('WTA') fod darpariaeth twristiaeth Cymru yn fwy bregus nag y bu ers blynyddoedd lawer a bod amseru'r cynnig hwn yn ychwanegu at y pwysau yn hytrach na bod yn rhan fach o'i leddfu.<sup>60</sup>

**55.** Tynnodd Ffederasiwn y Busnesau Bach ('FSB') sylw hefyd at yr heriau sy'n wynebu'r sector twristiaeth yng Nghymru ers y pandemig, gan ddweud:

*"Wales is also the only UK nation to not recover visitor spending levels from 2019, according to the tourism barometer..."*<sup>61</sup>

**56.** Nododd Twristiaeth Canolbarth Cymru fod y Bil wedi'i gyflwyno heb strategaeth dwristiaeth wedi'i diweddarau:

*"The tourism strategy has expired now, I believe. So, without that, I don't know what we're trying to achieve with it. We could really do with an updated strategy and then bring in legislation that then is going to complement that, going forward. Are we looking for an increase in visitors, or are we looking for a decrease in visitors at the moment? With the levy at the moment—the information that's come out—we're looking at potentially a decrease between 2 per cent and 10 per cent on visitors. Is that the strategy for Wales?"*<sup>62</sup>

---

<sup>59</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [Bluestone](#)

<sup>60</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [VAB105 - Cynghrair Twristiaeth Cymru](#)

<sup>61</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 507](#)

<sup>62</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 162](#)

**57.** Tynnodd tystiolaeth sylw at effaith gronnol yr ardoll a pholisïau ehangach y llywodraeth ar y sector twristiaeth.

**58.** Dywedodd Twristiaeth Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor:

*“The tourism tax is not an isolated policy but comes atop a wave of decisions perceived as anti-tourism rhetoric. These include the “182 days rule” for self-catering properties, insufficient public facilities, and the widely criticised 20mph speed limits. Together, these measures contribute to a challenging business environment that undermines the sector’s stability. Rising operational costs, reduced disposable income among visitors, and high energy prices compound these pressures.”<sup>63</sup>*

**59.** Dywedodd Airbnb:

*“It should also be noted that there have been a number of recent tax changes in Wales with regards to short-term lets, which will have the likely impact of inflating accommodation costs for visitors.”<sup>64</sup>*

**60.** Ychwanegodd:

*“This includes: a change in the criteria for short-term let properties to qualify for business rates; the ability for local councils to charge premiums on second homes by up to 300% from April 2023; and the forthcoming abolition of Furnished Holiday Lets Relief.”<sup>65</sup>*

**61.** Soniodd tystion hefyd am y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr sydd i fod i gael ei weithredu o fis Ebrill 2025, gyda Ffederasiwn y Busnesau Bach yn dweud:

*“It should also be noted that these businesses with seasonal employment and more part time staff than other sectors, will likely be disproportionately hit by the increased Employers’ National Insurance Contributions from April 2025.”<sup>66</sup>*

---

<sup>63</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [VAB55 - Twristiaeth Gogledd Cymru](#)

<sup>64</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [VAB101 - Airbnb](#)

<sup>65</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [VAB101 - Airbnb](#)

<sup>66</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [VAB139 - Ffederasiwn y Busnesau Bach \(FSB Cymru\)](#)

---

- 62.** Nododd Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU ('PASC UK') fod newidiadau polisi megis y rheol meddiannaeth 182 noson, gweithredu Cyfarwyddydau Erthygl 4, diddymu cyfundrefn dreth Llety Gwyliau â Dodrefn ('FHL'), rheoliadau tân llymach, cyfraniadau YG uwch cyflogwyr, isafswm cyflog uwch a gostyngiad mewn rhyddhad ardrethi busnes wedi lleihau hyfywedd busnesau rhent tymor byr yn fawr, gyda'r ardoll yn faich arall eto y byddant yn ei wynebu.<sup>67</sup>
- 63.** Tynnodd Dark Sky Escapes sylw at eu pryder bod polisiau fel yr ardoll arfaethedig a'r rheol 182 diwrnod yn peri risg i Gymru gael ei gweld fel lle digroeso sydd ar gau ar gyfer busnes.<sup>68</sup>
- 64.** Nododd y Gymdeithas Gwely a Brecwast y byddai Llywodraeth Cymru'n cymryd risg fawr iawn drwy osod treth ychwanegol ar y sector twristiaeth hanfodol yn erbyn y cefndir hwn.<sup>69</sup>
- 65.** Roedd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartref Prydain ('BH&HPA') yn cytuno, gan ddweud:

*"... the Committee should be aware that this legislation will not act in isolation and that the collective legislative agenda against established licensed tourism accommodation providers may result in further job losses for Welsh communities."<sup>70</sup>*

- 66.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod angen y ddeddfwriaeth i weithredu ymrwymadau a wnaed ym maniffesto ei blaid yn yr etholiad diwethaf, a oedd wedi'u cynnwys yn y rhaglen lywodraethu a oedd yn rhan o'r cytundeb cydweithio.<sup>71</sup> O ran amseru, ychwanegodd:

*"... we are more than halfway through the journey of this idea. In fact, you could say that the genesis of the idea goes back as far as 2009, because it's there in the Gerry Holtham report that was commissioned during the One Wales Government. Now, at that point, we didn't have the power to do it. Now, following the 2017 Act that provided a mechanism to draw down powers to introduce new taxes in Wales—not that we are using those powers, by the way, for this Bill, but, given those new powers—we*

---

<sup>67</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB102 - Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU](#)

<sup>68</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB137 - Dark Sky Escapes](#)

<sup>69</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB74 - Cymdeithas Gwely a Brecwast \(y DU\)](#)

<sup>70</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB119 - Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartref Prydain](#)

<sup>71</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 11](#)

---

*held a conversation with people in Wales as to how those powers might be used, and one of the ideas that was proposed back then in 2017 was the idea of a tourism levy. For any local authority area that chooses to use the provisions in the Bill, the earliest they could be used is 2027. So, this is not an idea that has been sprung on anybody, nor could it be accused of being rushed through the process—it will be a full decade between the genesis of the idea and its practical application—and now is the point at which we have the legislative opportunity to turn those commitments into practical action on the ground.”<sup>72</sup>*

**67.** Wrth ymateb i bryderon a godwyd am effaith gronol trethi eraill a pholisïau eraill y llywodraeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*“Well, I suppose we’re familiar with the argument about comparing apples and pears, but that list, I think, is probably the full fruit salad, really, because they’re all completely different issues and they do not collide across the whole of the sector. Some of those things will have an impact on some parts of the sector, and some of them will not at all.”<sup>73</sup>*

## **Ardollau ymwelwyr mewn gwledydd eraill**

**68.** Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban ei Bil Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban) ym mis Mai 2023, a fyddai’n caniatáu i awdurdodau lleol gymhwyso ardoll i’w chodi ar arosiadau dros nos mewn rhai mathau o lety megis gwestai, llety gwely a brechwast neu fythynnod gwyliau. Daeth y Bil i rym fel Deddf Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban) ar 5 Gorffennaf 2024.<sup>74</sup> Mae’r Ddeddf yn cyfrifo’r ardoll fel canran o gost y llety, gyda’r gyfradd yn cael ei gosod gan y prif gyngor sy’n cyflwyno’r ardoll.

**69.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod sgysiau’n parhau gyda thîm yr Alban sy’n gweithio ar Ddeddf Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban) 2024 er mwyn dysgu o’u profiad.<sup>75</sup> Cytunodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru ei bod wedi bod yn drafodaeth rannu ddefnyddiol iawn, ond nododd:

*“We are different from Scotland, and the tourism markets are different and the local authority needs are different, and that is,*

---

<sup>72</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 12

<sup>73</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 12

<sup>74</sup> Senedd yr Alban, Visitor Levy (Scotland) Bill

<sup>75</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 24

*I think, partly, how you can see that there's a very different approach, in some ways."*<sup>76</sup>

**70.** Nododd Dr Rhys ap Gwilym a Dr Linda Osti o Brifysgol Bangor, ar sail eu cyfrif nhw:

*"Cymru fydd y bedwaredd wlad ar hugain yn Ewrop, a'r hanner canfed yn fyd-eang, lle mae'n ofynnol i dwristiaid wneud rhyw fath o gyfraniad at goffrau cyhoeddus drwy ryw fath o drethiant wedi'i thargedu'n benodol at weithgareddau twristiaeth."*<sup>77</sup>

**71.** Aethant ymlaen i ychwanegu:

*"... mae tystiolaeth gref bod trethi tebyg a gyflwynwyd mewn cyrchfannau amrywiol ledled y byd wedi cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi datblygiad cynaliadwy twristiaeth yn y cyrchfannau hynny."*<sup>78</sup>

**72.** Fodd bynnag, roedd tystion yn ofalus i beidio â chymharu'r ardoll ymwelwyr arfaethedig yng Nghymru ag ardollau ymwelwyr sydd wedi'u rhoi ar waith mewn gwledydd eraill.

**73.** Nododd y Gymdeithas Gwely a Brechwast mai un gwahaniaeth yw bod gan y gwledydd eraill hynny dreth ar werth llawer is nag sydd gennym yma.<sup>79</sup>

**74.** Dywedodd Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru wrth y Pwyllgor:

*"We're not Barcelona, we're not Venice, we're not an international destination. Our visitors come, 60 per cent, nearly, from Wales; the rest, mostly, from the UK. We have very few, proportionally, international visitors."*<sup>80</sup>

**75.** Esboniodd PLANED ei bod yn anodd cymharu rhannau o Gymru â llefydd eraill yn y DU:

*"Whilst the argument that a levy already exists in other parts of the UK etc, is a valid one, what is not valid is the comparison. It is easier to travel to places like Manchester and Edinburgh for*

---

<sup>76</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 26

<sup>77</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB145 - Dr Rhys ap Gwilym a Dr Linda Osti, Ysgol Busnes Bangor, Prifysgol Bangor

<sup>78</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB145 - Dr Rhys ap Gwilym a Dr Linda Osti, Ysgol Busnes Bangor, Prifysgol Bangor

<sup>79</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 562

<sup>80</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 43

*breaks as the infrastructure makes it easier, more accessible, and timely to do so. Current travel to West Wales is not supported by the same levels and availability of infrastructure, and therefore, those who do so currently, make more effort in terms of costs, time, and planning to make the journey in comparison.”<sup>81</sup>*

## Dulliau eraill

### Ymwelwyr dydd

---

**76.** Roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cefnogi cyflwyno'r ardoll mewn egwyddor, ond nododd:

*“88% of the four million visitors we receive annually are day visitors. The proposed levy delivery would mean only 12% of our visitors contributing to local services and the infrastructure to support tourism.”<sup>82</sup>*

**77.** Dywedodd Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru mai'r ffordd o hybu'r economi ymwelwyr yng Nghymru yw annog ymwelwyr dydd i ddod yn ymwelwyr dros nos, a thrwy hynny annog mwy o wariant mewn busnesau llety, lletygarwch, atyniadau ac adloniant lleol.<sup>83</sup>

**78.** Roedd Dunoon Hotels Ltd yn cytuno:

*“We should seek to convert day trippers to overnight visitors since the contribution that day trippers make to the destination is much lower than overnight visitors.”<sup>84</sup>*

**79.** Cafodd hyn ei gefnogi gan Ffederasiwn y Busnesau Bach a nododd ei fod yn hysbys iawn bod ymwelwyr dros nos yn gwario llawer mwy yn lleol nag ymwelwyr dydd.<sup>85</sup>

**80.** Fodd bynnag, nododd Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru y byddai'r ardoll yn debygol o gyflawni'r gwrthwyneb, gan ddweud:

---

<sup>81</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB37 - PLANED](#)

<sup>82</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB81 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog](#)

<sup>83</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB149 - Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru \(WBPA\)](#)

<sup>84</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB87 - Dunoon Hotels Ltd](#)

<sup>85</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB139 - Ffederasiwn y Busnesau Bach \(FSB Cymru\)](#)



*"It is precisely this ambition that this policy would hamper through the imposition of a tax, creating a barrier to growth rather than promoting it."<sup>86</sup>*

**81.** Gwnaeth tystion eraill sylwadau ar degwch yr ardoll, gan fod llawer mwy o ymwelwyr dydd na'r rhai sy'n aros dros nos. Dywedodd PASC UK:

*"There are approximately 70 million day trips to Wales annually, of which only 8 million involve overnight stays. As a result, the entire levy is to be paid by the 11% of visitors who stay overnight, creating a grossly unfair situation."<sup>87</sup>*

**82.** Nododd North Wales Holiday Cottages mai ymwelwyr dydd fydd fwyaf tebygol o elwa ar unrhyw seilwaith gwell sy'n deillio o fuddsoddiad gan awdurdodau lleol, er na fyddant wedi cyfrannu.<sup>88</sup>

**83.** Awgrymodd Twristiaeth Canolbarth Cymru gynllun ardoll gwirfoddol ar gyfer ymwelwyr dydd, a allai gael ei hysbysebu'n dda. Dywedodd:

*"That fits very well with our culture in mid Wales—you know, do good things. So, that messaging is flipped on its head: not, 'We're taxing you coming into Wales', how about, 'You're in here, you want to support the local community'? That messaging could be very different and, potentially, you could have a voluntary scheme, you could put one single system in place that the WRA could collect, and then it could go into the visitor attractions."<sup>89</sup>*

**84.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad i godi tâl am aros dros nos, yn hytrach na chodi tâl ar ymwelwyr dydd, yn ymarferol a phragmatig. Esboniodd:

*"If you are charging people who are staying overnight, you know who they are, you know where they are and it's possible to add that small amount to their bill. If you were in Saundersfoot, how would you know whether somebody was a visitor, if they were just there for the day, or whether they lived in Saundersfoot and were on the beach?"<sup>90</sup>*

---

<sup>86</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB149 - Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru \(WBPA\)](#)

<sup>87</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB102 - Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU](#)

<sup>88</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB83 - North Wales Holiday Cottages Ltd](#)

<sup>89</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 228

<sup>90</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 20

**85.** Aeth ymlaen i esbonio:

*"I'm sympathetic to the argument that if there were a practical way of capturing day visitors, then there's quite a strong case for doing that. And we have looked around the world to see where there are successful examples, and there aren't many of them. Where they do exist, they tend to be places that have very hard borders, where it's very easy to see whether people are coming for the day or not. Cruise liners are often the example given of how a day-visitor levy can be made to work.*

*We're not in that position in Wales. We have a very open and very porous border. It's much harder for us to identify day visitors."*<sup>91</sup>

## **Canlyniadau anfwriadol**

**86.** Awgrymodd tystion nifer o ganlyniadau anfwriadol a allai godi o'r Bil, gan gynnwys effaith niweidiol ar y diwydiant twristiaeth yn ehangach, anfantais gystadleuol i ddarparwyr llety a symudiad posibl o arosiadau dros nos i ymwelwyr dydd.

### **Effaith gyffredinol ar y diwydiant twristiaeth**

---

**87.** Awgrymodd rhai tystion y gallai gweithredu'r ardoll niweidio'r diwydiant twristiaeth, ac yna'r economi ehangach, yng Nghymru.

**88.** Dywedodd Cynghrair y Trethdalwyr wrthym:

*"The largest unintended consequence would be a reduction in tourists visiting Wales, which would remove the ability to raise any revenue from this group."*<sup>92</sup>

**89.** Nododd Gwesty'r Castell ei bryderon y gallai'r ardoll atal darpar dwristiaid:

*"The vast majority of Wales tourism comes from the rest of the UK - there will be incredibly negative headlines across the UK and this sends out an unwelcoming message that will deter tourists."*<sup>93</sup>

---

<sup>91</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 16-17

<sup>92</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB80 – Cynghrair y Trethdalwyr

<sup>93</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB90 – Gwesty'r Castell

---

**90.** Nododd Dunoon Hotels Ltd:

*“Rather than promoting sustainable tourism this tax is likely to jeopardise the very existence of tourism in Wales as private Welsh businesses will find that they have to effectively absorb the tax since the additional costs to the visitor will make Wales uncompetitive in the discretionary tourism market.”<sup>94</sup>*

**91.** Nododd Cyngor Castell-nedd Port Talbot

*“There is a risk that the levy could cause additional costs in areas with low bed stock and where the introduction of the levy may not be financially viable, and would therefore result in adverse impacts of tourism in these communities/ locations as no funding will be available to deliver the destination management measures required.”<sup>95</sup>*

**92.** Rhybuddiodd tystion hefyd am effaith bosibl yr ardoll ar gadwyni cyflenwi lleol, pe bai'n atal ymwelwyr. Nododd West Wales Holiday Cottages:

*“Small operators, obviously, of local accommodation use the local plumbers, they use all of the local tradesmen, local cafes and everything. That would damage the local economy.”<sup>96</sup>*

**93.** Rhoddodd Bluestone enghraifft benodol o effaith ar y gadwyn gyflenwi o safbwynt y cwmni:

*“Without naming him, I have a butcher in Narberth that I spend £0.5 million a year with. We have 600 suppliers in Pembrokeshire alone. It's fair to say that they cost me more than if I was buying nationally. ... I can't pay people less, but I could probably buy cheaper food supplies and some other things. We spend £5.5 million in Pembrokeshire, Carmarthenshire and Ceredigion, but we spend £8.5 million in Wales, and I spend £17 million a year on payroll, but we will be having to look at and remove some of the local supply chain, which will impact businesses in Pembrokeshire very detrimentally.”<sup>97</sup>*

---

<sup>94</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB87 – Dunoon Hotels Ltd

<sup>95</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB86 – Cyngor Castell-nedd Port Talbot

<sup>96</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 356

<sup>97</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 666

**94.** Nododd PLANED effaith arbennig ar gymunedau gwledig:

*"... if we see a drop in visitor numbers, which is the risk that many people allude to, then that ripple effect is going to impact on households within our communities. And where you look at rural communities, particularly in areas where there is a considerable lack of infrastructure, there is going to be a detrimental effect unless we look at a way in which we can safeguard the jobs and the skills through a proper implementation of any levy, should that proceed."*<sup>98</sup>

### **Cystadleurwydd busnesau**

---

**95.** Awgrymodd BH&HPA y byddai'r ardoll yn rhoi darparwyr llety twristiaeth sy'n agos at ffin Lloegr dan anfantais sylweddol. Dywedodd:

*"The lack of a comprehensive geographic impact assessment within the Explanatory Memorandum indicates that the Bill fails to identify regional disparities for businesses close to the Welsh border."*<sup>99</sup>

**96.** Roedd Bluestone yn cytuno, gan ddweud y bydd hi'n anoddach cystadlu â busnesau yn Lloegr na fyddant yn codi ardoll. Nododd:

*"We tend to market to areas within a 4-hour drive time so are likely to lose a proportion of our Welsh and English customers living on the border when there are clear levy-free alternatives. Good examples being Center Parcs in Longleat as a competing resort, and Devon & Cornwall as a competing destination."*<sup>100</sup>

**97.** Nododd y Clwb Carafannau a Chartrefi Modur yr un pryderon, gan ddweud y byddai'r ardoll nid yn unig yn effeithio ar gystadleurwydd busnesau yng Nghymru gyda rhanbarthau'r DU ac yn rhyngwladol, ond hefyd o fewn Cymru ei hun os bydd rhai ardaloedd yn cymhwyso'r ardoll ac eraill ddim.<sup>101</sup>

**98.** Nododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei bryder penodol ynghylch effaith cyflwyno ardoll ddewisol. Esboniodd:

---

<sup>98</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 180

<sup>99</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB119 - Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain

<sup>100</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: Bluestone

<sup>101</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB128 - Clwb Carafannau a Chartrefi Modur

---

*“For example, if Local Authorities on the periphery of the National Park chose not to implement the levy this could attract additional visitors to stay in their region, but to travel into the National Park. The impacts of these visitors would be felt inside the Park, but there will be no income generated to deal with those impacts. As is already the case with council tax supplements on second homes, we could have a situation where some of the eight Local Authorities choose to charge the levy while others do not, resulting in neighbouring businesses within the Park boundaries, but in different Authorities being asked to charge different rates. This would lead to inequity between businesses within the Park. This situation would be unsatisfactory and would not meet the principle of fairness which the Welsh Government has set out.”<sup>102</sup>*

### **Symud o ymwelwyr dros nos i ymwelwyr dydd**

---

**99.** Soniodd amryw o dystion y gallai'r ardoll o bosibl newid ymddygiadau o aros dros nos tuag at wneud teithiau dydd yn lle hynny. Dywedodd Cyngor Dinas Casnewydd:

*“We could see an increase in day visitors and a decrease in overnight stays which would be detrimental to the overall tourism offer and impact investor confidence in new facilities and developments.”<sup>103</sup>*

**100.** Nododd Cymdeithas yr Hostelaau Ieuencid (YHA) fod tua 8.4 miliwn o arosiadau dros nos yng Nghymru bob blwyddyn, gyda gwariant cyfartalog o tua £240 y pen y noson. Nododd hefyd fod tua 60 miliwn o ymwelwyr dydd, gyda gwariant cyfartalog o £42 y dydd. Rhybuddiodd:

*“If the levy has the impact of decreasing the number of overnight guests and potentially increasing the number of day visits, it has very obviously the impact of decreasing the overall spend in the economy.”<sup>104</sup>*

---

<sup>102</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB81 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

<sup>103</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB98 - Cyngor Dinas Casnewydd

<sup>104</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 535

---

## **Lleoliadau anawdurdodedig**

---

**101.** Dywedodd BH&HPA ei bod yn debygol mai canlyniad anfwriadol y Bil fyddai cynnydd yn nifer y cartrefi modur sy'n parcio dros nos yn anghyfrifol mewn cyrchfannau twristiaeth poblogaidd yng Nghymru. Nododd:

*"Irresponsible overnight parking occurs most frequently along seafront parking and in lay-bays. Whilst it could be argued that proceeds from the levy could assist local authorities in tackling irresponsible overnight parking, this would not provide additional net gain for the tourism offering in that locality."*<sup>105</sup>

**102.** Adleisiwyd hyn gan y Clwb Carafannau a Chartrefi Modur a gyfeiriodd at wersylla dros nos yn anghyfrifol mewn ardaloedd anawdurdodedig, neu'r ffaith y gall gwerysilloedd heb eu rheoleiddio fod yn ganlyniad anfwriadol.<sup>106</sup>

**103.** Ychwanegodd y gallai gwerysylla dros nos yn anghyfrifol neu safleoedd gwerysylla heb eu rheoleiddio o bosibl gynyddu'r pwysau ar gyrchfannau twristiaeth poblogaidd megis parciau cenedlaethol, traethau a lleoliadau gwledig, prydferth eraill sydd eisoes yn boblogaidd ac arwain at fwy o ddifrod amgylcheddol, taflu sbwriel a straen ar gymunedau lleol, sef yr hyn y mae'r ardoll yn ceisio ei osgoi.<sup>107</sup>

**104.** Adleisiwyd hyn gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a nododd:

*"A further unintended consequence may be to increase numbers wild camping across all the National Parks in Wales, where low-income individuals, families and groups feel that they are unable to afford/do not want to pay the levy."*<sup>108</sup>

## **Asesiad effaith economaidd**

**105.** Roedd rhai tystion yn feirniadol o asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau economaidd y Bil.

**106.** Mae adroddiad gan yr Athro Calvin Jones, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn nodi effeithiau posibl ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar yr economi a

---

<sup>105</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB119 - Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain](#)

<sup>106</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB128 Clwb Carafannau a Chartrefi Modur](#)

<sup>107</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB128 - Clwb Carafannau a Chartrefi Modur](#)

<sup>108</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB81 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog](#)

---

nwyon tŷ gwydr.<sup>109</sup> Nododd yr adroddiad fod effaith economaidd bosibl yr ardoll ymwelwyr yn cael ei hamcangyfrif drwy dynnu ar lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth arall sy'n awgrymu amrywiaeth o ymatebion posibl gan ymwelwyr. Un o'r rhagdybiaethau yn y dadansoddiad yw bod yr ardoll ymwelwyr yn cael ei chymhwyso'n gyfartal ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

**107.** Mae adroddiad yr Athro Jones yn dangos bod colledion yn allbwn economaidd Cymru (yn nhermau 2023) sy'n gysylltiedig â gwariant teithio oherwydd ardoll ymwelwyr ar draws yr economi yn amrywio o tua £16.1m yn y senario mwyaf optimistaidd i £47.5m yn y senario pesimistaidd. Mae'r gostyngiad hwn yn y galw yn deillio'n bennaf o fusnesau sy'n gwasanaethu ymwelwyr yn uniongyrchol h.y. yn y sector lletygarwch a'r sector trafndiaeth yn bennaf ond mae hefyd yn cynnwys eu cadwyni cyflenwi a thrwy effeithiau ysgogedig ar incwm.<sup>110</sup>

**108.** Awgrymodd Cynghrair y Trethdalwyr:

*"The Welsh government's assessment does not adequately recognise the dynamic impacts of the bill on Welsh businesses and tourism to Wales in its entirety."<sup>111</sup>*

**109.** Roedd tystion eraill yn cydnabod yr anhawster wrth asesu'r effeithiau ariannol:

*"Assessing the financial costs and benefits of this Bill has been difficult, as the range of outcomes clearly demonstrates."<sup>112</sup>*

**110.** Nododd Cyngor Sir Powys fod rhai elfennau o'r asesiadau wedi'u seilio ar amcangyfrifon:

*"A wide range of impact assessment have been completed and published, and there is a huge volume of data that has been considered in the creation of this bill. However, numerous components are based on estimates and assumptions, so how accurate the assessments are is open to question."<sup>113</sup>*

**111.** Roedd Cymdeithas Asiantaethau Cymru yn ei chael hi'n anodd gwneud sylwadau ar ganlyniadau economaidd yr ardoll o ystyried bod rhaid i'r asesiad

---

<sup>109</sup> Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr, Calvin Jones, Ebrill 2024

<sup>110</sup> Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr, Calvin Jones, Ebrill 2024

<sup>111</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB80 – Cynghrair y Trethdalwyr

<sup>112</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB81 – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

<sup>113</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, VAB99 – Cyngor Sir Powys

effaith economaidd wneud rhagdybiaethau enfawr er mwyn dod i ryw fath o gasgliadau. Fodd bynnag, dywedodd:

*"These [economic impact assessment] conclusions seem to show no net gain and some job losses. That does not appear to be a good outcome for Welsh tourism overall, Local authorities may benefit from increased spending power, but local residents are in danger of losing their livelihoods."<sup>114</sup>*

**112.** Nododd Twristiaeth Canolbarth Cymru (MWT) Cymru y gallai'r ardoll arwain at golli 730 o swyddi yn y sector preifat, gan gostio £47.5 miliwn i'r economi bob blwyddyn. Dywedodd:

*"While it may create 360 public-sector jobs costing £13 million this shift from private to public roles imposes a long-term burden on taxpayers without generating net economic growth."<sup>115</sup>*

**113.** Gwnaeth PASC UK hefyd sylw ar y posibilrwydd o golli swyddi, gan ddweud:

*"There's a horrible statistic in the economic impact assessment. It gives three measures of whether it goes well, not very well, or badly. And if it goes badly, it will cost 730 private sector jobs: 730 private sector jobs is what the Welsh economic impact assessment says on that. I'll just leave you with that fact. That is unbelievable, when the actual gain that's being proposed on this is so small. The Welsh Government should be looking to create 730 jobs, not get rid of 730 jobs."<sup>116</sup>*

**114.** Nododd Twristiaeth Gogledd Cymru sut y mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru ei hun wedi rhybuddio am y potensial am golli swyddi a gostyngiad mewn refeniw. Dywedodd:

*"These findings are particularly troubling given the ongoing struggles of the tourism sector in the wake of the Covid-19 pandemic. The introduction of a tourism tax would likely amplify these difficulties, further delaying recovery and growth."<sup>117</sup>*

---

<sup>114</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB146 - Cymdeithas Asiantaethau Cymru](#)

<sup>115</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB135 - Twristiaeth Canolbarth Cymru / MWT Cymru](#)

<sup>116</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 492](#)

<sup>117</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [VAB55 - Twristiaeth Gogledd Cymru](#)

---



**115.** Gwnaeth Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru hefyd dynnu sylw at y gostyngiad yn yr allbwn, y Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) a swyddi, gan gwestiynu synnwyr economaidd yr ymarfer hwn.<sup>118</sup>

**116.** Awgrymodd yn ddiweddarach nad oedd digon o bwyslais wedi'i roi ar effaith debygol y gwariant is:

*"... if you take money off a family for the levy, they've got that much less to spend. So, to put it in simple terms, as one accommodation provider said to me, 'Well, if they're now going to be handing over £25 as a levy, they haven't got that to spend with me on the retail side of my business in the shop, buying extra ice creams.' All that will go. So, our level of visitor spend and collection will drop, and I think that that needs to be taken into account in the assessment of the data of the inputs and outputs that Professor Calvin Jones looked at."*<sup>119</sup>

**117.** Gwnaeth Cynghair Twristiaeth Cymru nodi hefyd:

*"... we do not believe that any visitor levy should be introduced where the Welsh Government's own research shows that it will result in a net loss of jobs even in the best case scenario."*<sup>120</sup>

**118.** Wrth ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"Professor Jones's report deals with a set of complex considerations. It has, inevitably, to make a series of assumptions and deal with a series of uncertainties. It assumes, for example, that all 22 local authorities have adopted the levy from day one. It assumes that all the costs are passed directly to the visitor, and we know that that won't be the case—some accommodation providers will make different choices. ... It's not a set of predictions. It's very clear, it's not—. It wasn't asked to do that, doesn't attempt to do that, and, within the report, there are three different scenarios. There is a scenario where there's a weak response by consumers to these changes, where there's a neutral response and where there's a strong response."*<sup>121</sup>

---

<sup>118</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB42 - Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru

<sup>119</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 89

<sup>120</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, VAB105 - Cynghair Twristiaeth Cymru

<sup>121</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 68

---

## Is-ddeddfwriaeth

**119.** Cafodd y Pwyllgor safbwyntiau cymysg ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth

**120.** Awgrymodd un ymatebydd i'r ymgynghoriad:

*"The balance leans too heavily towards subordinate legislation, leaving significant aspects, such as levy exemptions and premium caps, to future determination."<sup>122</sup>*

**121.** Dywedodd Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr fod y pwerau dirprwyedig yn rhoi cyfle enfawr i wneud newidiadau helaeth i'r Bil fel y mae ar hyn o bryd. Ychwanegodd:

*"It is appreciated that tweaks etc. will have to be made but in essence the whole design of the levy could be changed over time including the intention of the registration system turning in to a permissive licencing scheme a few years down the line at as yet undetermined costs to the businesses who are already facing severe financial challenges."<sup>123</sup>*

**122.** Nid oedd Cyngor Sir Powys yn cytuno, gan ddweud:

*"The circumstances why the powers to introduce subordinate legislation are necessary are outlined in detail in the bill and are considered to be appropriate."<sup>124</sup>*

**123.** Nododd y Sefydliad Siartredig Trethu a'i Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel eu barn y dylid cadw is-ddeddfwriaeth ar gyfer materion gweinyddol ac ar gyfer pennu ardrethi at ei gilydd. Gwnaethant ychwanegu:

*"The regulatory powers appear to fall within that latter category and therefore seem, in our view, to be generally appropriate. We note that the more rigorous draft affirmative procedure is required in cases where the regulatory power affects the defining components of the levy and exposure to penalties."<sup>125</sup>*

---

<sup>122</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB100 - Mike Gutteridge](#)

<sup>123</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB32 - Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr](#)

<sup>124</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB99 - Cyngor Sir Powys](#)

<sup>125</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB84 - Y Sefydliad Siartredig Trethu a'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel](#)

## Adolygiad ôl-weithredu

**124.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd yn "anodd ymrwymo i gynnal adolygiad ffurfiol ar ôl gweithredu" oherwydd natur ddewisol yr ardoll. Fodd bynnag, mae'n nodi y caiff effeithiolrwydd cynllun sy'n cael ei fabwysiadu gan awdurdodau lleol "ei fonitro a'i asesu dros amser ac mae'n debygol y bydd y ffordd y gwneir hyn yn datblygu wrth i'r cynllun ddatblygu ac wrth i dystiolaeth ddod i'r amlwg."<sup>126</sup>

**125.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ymhellach bod:

*"Bydd swyddogion yn datblygu canllawiau i awdurdodau lleol a fydd yn rhoi cyngor ac yn nodi arferion gorau ar gyfer monitro a gwerthuso effaith yr ardoll.*

*Caiff canlyniad y ddeddfwriaeth ei fonitro'n barhaus hefyd, gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau, gan gynnwys monitro economi Cymru a dangosyddion cyflenwad/galw."<sup>127</sup>*

**126.** Roedd y Sefydliad Siartredig Trethu yn cytuno â'r dull hwn:

*"We note and support the recognition that proportionate post-implementation review is required with a focus on assessing the administrative burdens on businesses and that comprehensive data is central to evaluating the effectiveness of the levy in achieving the objectives."<sup>128</sup>*

**127.** Awgrymodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

*"... data from early adopters of the visitor levy will need to be disseminated widely so that the WRA business model can adapt accordingly. In addition, it would be useful to include the costs for an associated communications campaign and any specific costs for change and training activities, as these will underpin delivery."<sup>129</sup>*

---

<sup>126</sup> Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, 25 Tachwedd 2024, paragraff 10.1

<sup>127</sup> Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, 25 Tachwedd 2024, paragraff 10.2 - 10.3

<sup>128</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB84 - Y Sefydliad Siartredig Trethu a'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel

<sup>129</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB95 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

---

**128.** Dywedodd Sanctuary Coalition Cymru wrthym y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y polisi'n cyflawni ei nodau heb danseilio ymdrechion lles cymdeithasol hanfodol drwy adolygu effeithiau ar ôl gweithredu.<sup>130</sup>

## **Barn y Pwyllgor**

**129.** Mae'r Pwyllgor wedi clywed amrywiaeth o safbwyntiau ac yn diolch i bawb a lywiodd y gwaith o graffu ar y Bil hwn.

**130.** Mae'n amlwg bod rhywfaint o amheuaeth o hyd o fewn diwydiant twristiaeth Cymru ynglŷn â manteision yr ardoll, gyda rhai tystion yn awgrymu y gallai'r ddeddfwriaeth fethu â chyflawni ei bwriad polisi ac y gallai gael effaith niweidiol ar y diwydiant. Nodwn hefyd y pryderon a fynegwyd i ni mewn perthynas ag effaith gronol polisiâu eraill y llywodraeth ar y sector twristiaeth. Mae hyn yn dangos bod gwaith i'w wneud i ennill ymddiriedaeth y diwydiant er mwyn i'r polisi a gynigir yn y Bil lwyddo.

**131.** Er gwaethaf y pryderon a fynegwyd am yr ardoll, mae'r mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor wedi cael eu darbwylio y gallai cyflwyno ardoll ymwelwyr wella seilwaith a gwasanaethau mewn ardaloedd lleol. Byddai gwelliannau o'r fath o fudd i dwristiaid a'r economi leol, pe bai enillion yr ardoll yn cael eu defnyddio'n strategol a thrwy gydweithio â phartneriaid lleol.

**132.** Rydym yn cydnabod barn cyfranwyr at ein gwaith bod gan yr ardoll y potensial i atal ymwelwyr a lleihau cystadleurwydd Cymru. Nodwn y pryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol y mae tystion yn awgrymu a allai godi o weithredu'r Bil, gan gynnwys newid o ymwelwyr dros nos i ymwelwyr dydd, problemau gyda diffyg cydymffurfiaeth a'r pwysau y gallai'r rhain eu rhoi ar wasanaethau lleol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol o'r dystiolaeth a gafwyd sy'n nodi bod ardollau ymwelwyr yn gysyniad cyfarwydd ledled y byd sy'n arwain at fanteision diriaethol. O ystyried natur gymedrol y cynigion yn y Bil hwn, nid yw'r Pwyllgor yn credu y bydd ei gyflwyno yn datgymell ymwelwyr.

**133.** Mae'r Pwyllgor yn nodi canfyddiadau'r Athro Calvin Jones o Ysgol Fusnes Caerdydd a'r ystod o golledion cysylltiedig â gwariant yn allbwn economaidd Cymru o dan senarios optimistaidd a phesimistaidd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod, fel yr amlygwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet, fod canfyddiadau'r Athro Jones yn seiliedig ar gyfres o ragdybiaethau ac yn ymdrin â phob math o ffactorau ansicr.

---

<sup>130</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB113 - Sanctuary Coalition Cymru](#)

**134.** Fel y trafodir ymhellach ym Mhennod 5, roedd cytundeb eang o fewn y dystiolaeth a gawsom am yr angen am gofrestr ac, yn benodol, ynghylch ei photensial i wella'r data sydd ar gael ar ddarparwyr llety ymwelwyr. Credwn y bydd sefydlu cofrestr yn cyfoethogi'r data sydd ar gael yn y maes hwn ac yn helpu i lywio datblygiad polisi yn y dyfodol yng nghyd-destun twristiaeth Cymru.

**135.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai rhai agweddau ar y polisi a gynigir yn y Bil yn elwa ar gael eu mireinio yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein hystyriaeth o bob un o'r darpariaethau yn y Bil a'n hargymhellion dilynol, sy'n ceisio gwneud y gwelliannau y credwn sydd eu hangen i gryfhau'r ddeddfwriaeth hon.

**136.** Mae'r rhan fwyaf o'r Pwyllgor yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Nid yw Sam Rowlands AS yn cefnogi'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd, gan ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). Nid yw Sam Rowlands AS yn cefnogi'r argymhelliad hwn.

**137.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau o ran pennu amserlen ffurfiol ar gyfer adolygiad ôl-weithredu a drafodir yn y Memorandwm Esboniadol. Fodd bynnag, bydd deall effaith cofrestru gorfodol ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr ac effeithiolrwydd unrhyw gynlluniau ardoll ymwelwyr a fabwysiadir yn gynnar a weithredir gan brif gynghorau yn hanfodol i lwyddiant hirdymor y polisi. Gallai hefyd gyfrannu'n gadarnhaol at effeithiolrwydd penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan brif gynghorau sy'n ystyried a ddylid cyflwyno'r ardoll yn eu hardaloedd. Felly, hoffai'r Pwyllgor weld ymrwymiad mwy ffurfiol i adolygiad ôl-weithredu wedi'i nodi ar wyneb y Bil, ac i hyn ddigwydd heb fod yn hwyrach na phedair blynedd ar ôl i Ran 2 o'r Ddeddf ddod i rym sydd, yn ein barn ni, yn ddigon o amser i asesu cymhwysiad ymarferol y Bil.

**138.** Ar wahân i hyn, mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysau polisiâu ehangach y llywodraeth ar y sector twristiaeth. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro ac asesu effaith y polisiâu hyn, ynghyd â'r ardoll, fel rhan o unrhyw adolygiad ôl-weithredu.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i ymrwymo i gynnal a chyhoeddi adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf gyfan heb fod yn hwyrach na phedair blynedd ar ôl i Ran 2 o'r Ddeddf ddod i rym.

## 4. Diffiniad o lety ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr

**139.** Mae adran 2 yn diffinio “llety ymwelwyr” ar gyfer y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr a’r ardoll ymwelwyr. Mae’n manylu ar beth yw llety ymwelwyr, ynghyd â’r eithriadau. Mae hefyd yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau er mwyn i Weinidogion Cymru ddiwygio’r rhestr o lety ymwelwyr.

**140.** Mae adran 2(1) yn diffinio llety ymwelwyr at ddibenion y Bil. Mae’n cynnwys:

- gwestai, tai llety, llety gwely a brechwast, neu lety tebyg arall;
- hosteli ieuencid, byncdai, neu lety tebyg arall;
- llain neu ardal ar gyfer gwerysilla, neu ar gyfer cartref symudol nad yw wedi ei lleoli’n barhaol neu’n lled-barhaol ar safle neu mewn un lle;
- llety mewn safleoedd gwerysilla, safleoedd carafannau, parciau gwyliau, canolfannau gwyliau neu mewn lleoedd eraill tebyg;
- cartrefi symudol neu lestrau neu gerbydau eraill sydd wedi eu lleoli’n barhaol neu led-barhaol mewn un lle ac sydd wedi eu rhoi ar gael, ar sail tymor byr, ar gyfer teithio busnes neu deithio hamdden neu deithiau addysgol;
- llety hunanddarpar sydd wedi ei roi ar gael, ar sail tymor byr, ar gyfer teithio busnes neu deithio hamdden neu deithiau addysgol;
- unrhyw fath arall o lety sydd wedi ei roi ar gael, ar sail tymor byr, ar gyfer teithio busnes neu deithio hamdden neu deithiau addysgol.

**141.** Mae adran 2(2) o’r Bil yn eithrio mathau penodol o lety rhag cael eu hystyried yn llety ymwelwyr os yw:

- ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
- mewn cartrefi symudol neu lestrau nad ydynt wedi eu lleoli’n barhaol neu’n lled-barhaol mewn un lle.

**142.** Mae adran 2(3) yn darparu, at ddibenion y Bil, bod llety ar gael ar sail tymor byr os yw ar gael ar gyfer arosiadau o 31 o nosweithiau neu lai na hynny. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru, wrth

benderfynu ar y trothwy o 31 diwrnod, wedi dibynnu ar ddiffiniadau sydd eisoes yn hysbys ac sy'n cael eu defnyddio'n ymarferol.<sup>131</sup>

**143.** Mae adran 3 yn datgan bod person yn ddarparwr llety ymwelwyr at ddibenion y Bil os yw'r person hwnnw, yng nghwrs masnach neu fusnes, yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru sy'n caniatáu i un neu ragor o bobl aros yn y llety am o leiaf un noson, a'i fod yn feddiannydd ar y fangre.

**144.** Cododd nifer o glybiau mynydda, unigolion, Cyngor Mynydda Prydain, a ScoutsCymru bryderon ynghylch y diffiniad o ddarparwyr llety. Gwnaethant nodi:

*"... ambiguities within the definition of 'visitor accommodation' make it unclear whether the bill is targeted at non-commercial providers, causing confusion and unintended consequences. ... It is still unclear to those seeking to understand the potential impact of the bill what constitutes operating "in the course of trade or business." For example, would a scout hut charging a nominal fee to cover maintenance costs qualify as a business? This distinction needs clearer guidance to avoid unintended inclusion, and ambiguity could lead to inconsistent applications of the levy."<sup>132</sup>*

**145.** Dywedodd ScoutsCymru:

*"In our view the bill does not accurately reflect the diversity and unique needs of all of the varying types of accommodation providers in Wales, nor does it appropriately consider the capacity of all of them to deliver revenue via the visitor levy."<sup>133</sup>*

**146.** Aethant ymlaen i alw am i gyfleusterau nad darparu llety yw eu prif ddiben, er enghraifft, neuaddau a chytiau Sgowtiaid, neuaddau eglwys a chymunedol pan gânt eu defnyddio ar gyfer arosiadau dros nos a gwersylla, gael eu heithrio o'r Bil.<sup>134</sup>

---

<sup>131</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 36

<sup>132</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB72 – Unigolyn; VAB92 – Chamois Mountaineering Club Ltd; VAB94 – Unigolyn; VAB96 – Joanne Miles; VAB100 – Mike Gutteridge; VAB108 – Richard Smith; VAB110 – Shrewsbury Mountaineering Club; VAB118 – ScoutsCymru; VAB125 – Cyngor Mynydda Prydain; VAB129 – Clwb Mynyddau Oread; VAB133 – Robert Townsend

<sup>133</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB118 – ScoutsCymru

<sup>134</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB118 – ScoutsCymru

---

**147.** Awgrymodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai llawer o ganllawiau, ond nododd y byddai neuaddau eglwys yn annhebygol o gael eu cipio gan ddarpariaethau'r ardoll, gan ychwanegu:

*"... if there's not an exchange of consideration, there's no regularity of trade, they're not advertising to other members of the public and things like that."<sup>135</sup>*

## **Barn y Pwyllgor**

**148.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r diffiniadau o lety ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr sydd wedi'u cynnwys yn y Bil. Nodwn hefyd, o dan adran 9 o'r Bil, y cynhelir arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr at ddibenion yr ardoll ar gyfer arosiadau dan gontract o 31 o nosweithiau neu lai.

**149.** Mae'r Pwyllgor wedi clywed pryderon a godwyd gan sefydliadau mynydda, Scouts Cymru ac eraill mewn perthynas â'r diffiniad o lety ymwelwyr. Rydym yn cydnabod bod y Bil wedi creu rhywfaint o ansicrwydd ac y gallai'r rhwymedigaethau hyn greu cymhlethdodau i sefydliadau sy'n ceisio pennu a fyddai darpariaethau'r Bil yn gymwys i'w trefniadau penodol. Nodwn hefyd fod rhai sefydliadau'n cael eu rhedeg yn bennaf gan wirfoddolwyr nad ydynt o bosibl yn gallu cael gafael ar gymorth proffesiynol sylweddol.

**150.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r sicrwydd a roddwyd gan swyddog gydag Ysgrifennydd y Cabinet y bydd canllawiau'n cael eu darparu i ddarparwyr llety ymwelwyr ac y byddai'n annhebygol y bydd cyfleusterau megis neuaddau eglwys yn cael eu cipio gan ddarpariaethau'r ardoll.

**151.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd canllawiau clir yn hanfodol i helpu'r rhai yn y sector gwirfoddol i ddeall eu cyfrifoldebau, ac i leihau'r baich gweinyddol a roddir arnynt. Bydd hyn yn golygu gweithio'n agos gydag Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wrth i'r gofrestr a'r ardoll gael eu gweithredu.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y canllawiau ar gyfer Darparwyr Llety Ymwelwyr a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru neu Awdurdod Cyllid Cymru:

- wedi'u targedu'n briodol at ddefnyddwyr proffesiynol a'r rhai nad ydynt yn broffesiynol; ac

---

<sup>135</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 124



- yn egluro cymhwysedd y gofynion cofrestru a'r cynigion ardoll i'r amgylchiadau unigol a hysbyswyd i'r Pwyllgor gan gyfranwyr at ein gwaith craffu ar y Bil.

## 5. Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr

### Dyletswydd mewn perthynas â chofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr

**152.** Mae adran 4(1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gadw cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Mae adran 4(2) yn datgan bod rhaid i'r gofrestr gynnwys y canlynol:

- enw'r darparwr llety ymwelwyr;
- unrhyw enw masnachu a ddefnyddir gan y darparwr llety ymwelwyr;
- cyfeiriad priodol y darparwr llety ymwelwyr;
- datganiad ynghylch a yw'r darparwr llety ymwelwyr yn unigolyn, yn bartneriaeth, yn gorff corfforedig neu'n gorff anghorfforedig;
- y math o lety a ddarperir;
- enw, cyfeiriad ac ardal prif gyngor y fangre lle y darperir y llety ymwelwyr hwnnw.

**153.** Mewn perthynas â'r gofrestr, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

*"Mae cofrestru pob darparwr llety ymwelwyr drwy gynllun cofrestru statudol o fudd i'r ardoll ymwelwyr. Y rheswm dros hyn yw y gellir gwneud amcangyfrifon mwy effeithiol o'r sylfaen dreth i lywio penderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch defnyddio ardoll. Ar ben hynny, bydd yn darparu gwybodaeth werthfawr mewn perthynas â gwneud penderfyniadau parhaus a datblygu polisi ar gyfer yr ardoll."<sup>136</sup>*

**154.** Mae adran 4(5) hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w galluogi i ychwanegu, amrywio neu ddileu disgrifiad o'r wybodaeth i'w chynnwys yn y gofrestr.

**155.** Mae adran 5(1) yn datgan bod rhaid i ddarparwyr llety ymwelwyr (fel y'u diffinnir yn adran 3) fod yn gofrestredig ar y gofrestr mewn cysylltiad â phob mangre yng Nghymru lle y mae'r darparwr llety ymwelwyr yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr.

---

<sup>136</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025

**156.** Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i esemptio disgrifiadau penodol o ddarparwr llety ymwelwyr drwy gyfeirio at:

- y math o lety ymwelwyr a ddarperir;
- natur neu gynnwys y contractau y darperir y llety odanynt;
- natur neu statws y darparwr llety ymwelwyr neu unrhyw nodwedd benodol arno;
- natur neu statws y bobl y mae'r darparwr llety ymwelwyr yn darparu llety iddynt, neu unrhyw nodwedd benodol ar y bobl hynny; neu
- unrhyw fater arall.

**157.** Mae adran 6 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi, mewn unrhyw fodd y maent yn ystyried ei fod yn briodol, unrhyw wybodaeth sy'n deillio o'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: enwau a chyfeiriadau mangreoedd llety ymwelwyr yng Nghymru, y math o lety a ddarperir, a manylion personau cofrestredig os ydynt wedi eu cofrestru fel darparwyr llety ymwelwyr.

**158.** Mae adran 7 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth atodol ynghylch y gofrestr a gofynion cofrestru. Gall hyn gynnwys:

- darpariaethau ar gyfer partneriaethau a chyrrff anghorfforedig;
- y weithdrefn gofrestru, (gan gynnwys amrywio a chanslo cofrestriad);
- rhannu data; a
- mesurau gorfodi, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer troseddau am beidio â chydymffurfio, a naill ai adolygiadau neu apelau neu'r ddau.

**159.** Mewn gohebiaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*“Bydd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) hefyd yn datblygu canllawiau gweithredol i drethdalwyr, a system ganolog ar gyfer casglu a rheoli. Byddwn yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd i sicrhau rhwyddineb wrth ddefnyddio a deall y gofrestr a'r ardoll wrth ddylunio'r gwasanaeth...”<sup>137</sup>*

---

<sup>137</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025

**160.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn “bwriadu ei gwneud yn glir drwy welliant yng Nghyfnod 2 mai ACC fydd ceidwad y gofrestr”.<sup>138</sup>

**161.** Clywsom gefnogaeth eang i'r cynnig i gyflwyno cynllun cofrestru ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr, er bod rhai tystion yn cwestiynu amseriad ei weithredu, gan awgrymu y dylid casglu data o gofrestr i alluogi awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno ardoll ymwelwyr.

**Blwch 4 Enghreifftiau o safbwyntiau ar y cynnig i gyflwyno cynllun cofrestru<sup>139</sup>**

“I feel the registration of operators is a good idea and a small fee to support the cost of administration of the register is a good idea. However the compilation of a register, may infer recourse to the regulator for compliance breaches if the register is not maintained.” (Lucas Boissevain, VAB9)

“A register of Businesses providing accommodation will ensure a level playing field for Hospitality businesses. The register needs to be cheap and simple to use and comprehensive in its scope.” (Cymdeithas Lletygarwch Llandudno, VAB49)

“The inclusion of registration within the Bill is good, but ideally it should have been in place and implemented well before the start of any thoughts of an accommodation levy, not at the same time.” (North Wales Holiday Cottages, VAB83)

“... we strongly welcome the proposal to introduce a registration scheme for visitor accommodation providers (VAPs). A simple, light-touch registration scheme would ensure that there is a single set of clear rules and an implementation timeline that would apply to all VAPs in Wales.” (Airbnb, VAB101)

**162.** Nododd Cyngor Sir Powys fanteision cofrestr o safbwynt prif gyngor:

*“Establishing a register of visitor accommodation in Wales will be beneficial in establishing a level playing field for all operators. From the perspective of the Local Authority, a comprehensive, regularly updated list of all visitor accommodation provides us with better intelligence about the*

---

<sup>138</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025

<sup>139</sup> Mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar [dudalen we yr ymgynghoriad](#).

*sector and ensures we can reach all providers with key messages.*<sup>140</sup>

**163.** Dywedodd UK Hospitality Cymru fod y gofrestr yn gyfle enfawr, ac ychwanegodd mai hanfod y peth yw bod angen annog pobl i gymryd rhan mor gyflym ac mor syml â phosibl.<sup>141</sup>

**164.** Roedd Awdurdod Cyllid Cymru ('ACC') yn cytuno bod y gofrestr yn gyfle, a nododd:

*"... actually having those data available of who's here, registered already, in terms of then being able to make sure that the correct tax is being paid is really helpful. So, to some degree, it's kind of work that we would need to make sure is happening anyway."*<sup>142</sup>

**165.** Ychwanegodd:

*"... having the visitor levy registration together should create a much, much simpler experience for accommodation providers, and it will make the visitor levy very simple, because all of the information required for the return is effectively within the registration."*<sup>143</sup>

**166.** Er i Airbnb fynegi cefnogaeth i'r gofrestr, nododd mai dim ond ychydig iawn o fanylion y mae'r bil yn eu rhoi am sut y bydd y system yn gweithio, a'i fod yn rhoi pwerau eang i weinidogion benderfynu pa wybodaeth ychwanegol y dylai fod ei hangen gan ddarparwyr llety ymwelwyr er mwyn cofrestru.<sup>144</sup>

**167.** Galwodd Cyngor Sir Ynys Môn hefyd am fanylion pellach:

*"There is an expectancy that the register will require considerable monitoring and potential additional burden on our public protection team. Clarity on this would benefit our ability to make a fully informed decision."*<sup>145</sup>

**168.** Nododd Airbnb:

---

<sup>140</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB99 - Cyngor Sir Powys

<sup>141</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 114

<sup>142</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 33

<sup>143</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 33

<sup>144</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB101 - Airbnb

<sup>145</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB136 - Cyngor Sir Ynys Môn

*“The legislation allows for a local authority to introduce a levy even prior to the registration scheme being launched. This is despite the fact that information in the register will be crucial to local authorities when deciding whether to introduce a levy. Given the Welsh Government’s view that the registration scheme is an important component of the levy, it is a significant omission that there is no requirement to utilise the evidence base provided by the register in any consideration of whether there should be a visitor levy.”<sup>146</sup>*

**169.** Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

*“Visitor Registration and Licensing Scheme (VR&LS) should have been implemented in advance of a VAL and not in parallel.”<sup>147</sup>*

**170.** Soniodd BH&HPA er bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr llety gael ei gofrestru, mae pryder sylweddol o hyd y bydd gweryslyoedd dros dro a darparwyr didrwydded yn parhau i weithredu y tu allan i awdurdodaeth y Bil. Awgrymodd:

*“The Welsh Government must ensure that temporary ‘pop-up’ camp sites, overnight motorhome stopover sites and unlicensed providers are included within the legislation for Welsh Government to meet their objectives for sustainable tourism. Guidance for local authorities to assist with registration of temporary campsites may help achieve this objective.”<sup>148</sup>*

**171.** Gofynnodd Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru beth sy'n digwydd pan fo'r galw'n cynyddu, gan nodi:

*“When there’s a surge in demand, you have something happen, which is called ‘pop-up accommodation’. ... If you go in to a big event in Cardiff, you can see people on their phones finding accommodation anywhere, and people literally letting out their properties just for one night, and there are thousands of instances like that. Take that back to the Urdd, for instance, there is a historic pattern there of people letting their houses*

---

<sup>146</sup> Airbnb, [tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol](#)

<sup>147</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [VAB79 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#)

<sup>148</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB119 – Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain](#)

*out. There doesn't seem to be any mechanism for dealing with that.*"<sup>149</sup>

**172.** Soniodd y Clwb Carafannau a Chartrefi Modur hefyd am yr angen i gipio safleoedd gwerysyla dros dro, gan ddweud:

*"There does however need to be a system for capturing those who currently fall outside of these requirements and are subsequently not captured in any analysis, such as pop-up campsites which are operational under permitted development rights."*<sup>150</sup>

**173.** Nododd Cynghair Twristiaeth Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi gohirio'r polisi o chwynnu darparwyr heb eu rheoleiddio sy'n bachu ar y cyfle i weithredu yn y farchnad hunanddarpar, sy'n rhywbeth yr oedd angen ei gyflawni cyn gofyn i fusnesau hunanddarpar proffesiynol godi a chasglu ardoll. Ychwanegodd:

*"Without this, the self-catering section of the levy register will be both incomplete (as it is easy for the more unscrupulous to avoid) and no guarantee of safe and legal operators."*<sup>151</sup>

**174.** O ran amseru, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

*"Ni wnaed unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch yr amserlenni ar gyfer eu cyflwyno i ardal pob prif gyngor, ond y bwriad yw cofrestru pob darparwr llety ymwelwyr erbyn 2028."*<sup>152</sup>

**175.** Cadarnhaodd yn ddiweddarach:

*"Our commitment is to undertake the practical work of registration first in those areas most likely to take up the levy. So, by the time local authorities further down the pipeline make their decision, they will have the data."*<sup>153</sup>

**176.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y pryderon ynghylch darparwyr heb eu rheoleiddio:

---

<sup>149</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 139](#)

<sup>150</sup> [Y Clwb Carafannau a Chartrefi Modur, tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol](#)

<sup>151</sup> [Tystiolaeth ysgrifenedig, VAB105 – Cynghair Twristiaeth Cymru](#)

<sup>152</sup> [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025](#)

<sup>153</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 64](#)

*“The nature of some accommodation is helpful. A pop-up campsite or caravan site is visible, isn’t it? It’s there for anyone to see. And a lot of the work that we have been doing as a Government in this whole area is about trying to make sure that we support legitimate businesses who do all the right things, pay all the things you expect them to, and, if you don’t have proper regulation and oversight, can then get undercut by people who don’t do the right things. So, I would expect legitimate businesses to be alerting the system to the fact that there are, very clearly, people operating in a way that’s outside the new law. It is more complicated, I agree, when people just let out a room in the house a few times in the year, but the law will still require them to register and to pay.”<sup>154</sup>*

## Gorfodi

**177.** Soniodd Cymdeithas Asiantaethau Cymru am y potensial i ddarparwyr osgoi cofrestru eu busnes. Dywedodd:

*“I think it is highly likely that many operators, especially those who offer accommodation for just a few days or weeks a year do not have this certification, will not be aware of the need to register, and will continue to operate under the radar, avoid registration and then going forward could avoid contributing their levy.”<sup>155</sup>*

**178.** Ychwanegodd:

*“How can we be certain that everyone offering overnight accommodation will be registered? I don’t think either Visit Wales or individual local authorities have any true knowledge of the accommodation providers in their administration.”<sup>156</sup>*

**179.** Awgrymodd Snowdonia Hospitality and Leisure:

*“Enforcement will be patchy at best, poor at worst with only responsible businesses registering. These business are likely to*

---

<sup>154</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 101.

<sup>155</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB146 – Cymdeithas Asiantaethau Cymru.

<sup>156</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB146 – Cymdeithas Asiantaethau Cymru.



*be already registered for business rates and VAT and therefore registration is just another tier of cost and administration.”<sup>157</sup>*

**180.** Pan ofynnwyd i CLILC am orfodi, dywedodd:

*“I certainly think there’s more detail to be worked through, not least in the expectation that the enforcement duty falls on regulatory services within councils. The same people are responsible for food hygiene checks, noise pollution et cetera. It’s a Cardiff-operated shared service with the Vale of Glamorgan and Bridgend.”<sup>158</sup>*

**181.** Ychwanegodd:

*“It’s a very effective, well-run service, but also a very busy one, so there would certainly need to be capacity building done within that organisation, and that would come at a cost. So, I think you’re correct to identify it as a point of detail that we’ll need to be looking at over the next two years.”<sup>159</sup>*

**182.** Cododd Bluestone bryderon ynghylch yr adnoddau a gynigir ar gyfer cydymffurfio a gorfodi:

*“The collection, the compliance, the remittance, the refunds, the enforcement, is an enormous area, and I read somewhere that they were proposing that two and a half full-time equivalents were going to manage this in a year. Well, I mean, it’s going to take an army of people, a mass of hardware, and an incredibly sophisticated software package to actually regulate this.”<sup>160</sup>*

**183.** Adleisiodd Cynghair Twristiaeth Cymru y pryderon hyn, gan ddweud:

*“Well, they’re [WRA] saying they need two and a half FTEs to cover collection, compliance, remittance and enforcement. Well, even at the low end of 16,000 units here, that’s an awful lot of work to get through for two and a half people, I would suggest.”<sup>161</sup>*

---

<sup>157</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB20 - Snowdonia Hospitality & Leisure

<sup>158</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 283

<sup>159</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 283

<sup>160</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 640

<sup>161</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 110

**184.** Ychwanegodd:

*“... I know when I was chair of Mid Wales Tourism, I think them and north Wales, they’ve got about four people running the Visit Wales helpline, so you’re already in a position where that isn’t right, so there’s an extra cost, or there could potentially be extra cost there.”<sup>162</sup>*

**185.** Gofynnodd Twristiaeth Canolbarth Cymru am fwy o eglurder ynghylch trefniadau gorfodi:

*“... one thing I would like to see in the policy is that enforcement, more details about that. Whose actual responsibility is it for the registration? Is it the WRA? Is it the local authorities?”<sup>163</sup>*

**186.** Awgrymodd Cymdeithas Asiantaethau Cymru y gellid cysylltu cofrestru â marchnata:

*“... in the process of registration, you end up with a number, which has to be displayed for all marketing—in other words, you can’t do any marketing, you can’t offer yourself, until you’ve got a registration number.”<sup>164</sup>*

**187.** Awgrymodd Awdurdod Cyllid Cymru y byddai’r ffaith y byddai’r gofrestr yn cael ei chyhoeddi yn helpu gyda phroblemau diffyg cydymffurfiaeth:

*“... so it will be very clear who, in each local authority area, has signed up and potentially who hasn’t. We also have good relationships with local authorities and we’ll look to build on them and use their local knowledge and expertise to help us in that non-compliance.”<sup>165</sup>*

**188.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod dull Awdurdod Cyllid Cymru o orfodi yn cael ei ddatblygu. Ychwanegodd:

*“I expect the WRA to take the same approach that we are familiar with from other public services who have an enforcement role.”<sup>166</sup>*

---

<sup>162</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 110

<sup>163</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 328

<sup>164</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 392

<sup>165</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 77

<sup>166</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 105

**189.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*“... education and engagement before you get to enforcement, and that will be the basic approach that I would expect the WRA to take with a new tax where everybody is having to get used to new things. They will not take a heavy-handed approach to enforcement. The first thing is just to make sure that people have understood and know what the right thing is. There comes a point at which, if you know that people are persistently and knowingly evading the responsibilities that they have, enforcement action will be required. But that’s the approach I expect the WRA to take, particularly in the early stages of something that’s new.”<sup>167</sup>*

## **Cosbau yn ymwneud â chofrestru (gwelliannau dangosol Llywodraeth Cymru yng Nghyfnod 2)**

**190.** Ar 26 Tachwedd 2024, ddiwrnod ar ôl cyflwyno'r Bil, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor gan amgáu datganiad o fwriad polisi, ynghyd â darpariaethau cofrestru dangosol y mae'r llythyr yn nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet ymhellach fod y dogfennau hyn yn cael eu darparu “i helpu â gwaith y Pwyllgor o graffu ar y Bil”.<sup>168</sup>

**191.** Mae'r darpariaethau ychwanegol sydd wedi'u cyflenwi gan Lywodraeth Cymru yn cynnig sefydlu system o gosbau i ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad i gofrestru neu sy'n methu â darparu gwybodaeth i gywiro camgymeriadau yn y gofrestr.<sup>169</sup>

**192.** Mae'r darpariaethau hefyd yn cynnwys hawliau i apelio i dribiwnlys ar benderfyniadau ar gosbau a phwerau gwneud rheoliadau pellach i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch symiau cosbau ac asesu.<sup>170</sup>

**193.** Awgrymodd Cyngor Sir Powys fod y cosbau arfaethedig wedi'u nodi'n glir ac yn gymesur.<sup>171</sup>

---

<sup>167</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 107](#)

<sup>168</sup> [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg; Gwelliannau dangosol Cyfnod 2](#), 26 November 2024

<sup>169</sup> [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg; Gwelliannau dangosol Cyfnod 2](#), 26 November 2024

<sup>170</sup> [Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg; Gwelliannau dangosol Cyfnod 2](#), 26 November 2024

<sup>171</sup> [Tystiolaeth ysgrifenedig, VAB99 – Cyngor Sir Powys](#)

**194.** Nododd Airbnb fod y gosb arfaethedig o £300 wedi'i luosi gyda nifer y mangreoedd ar gyfer y rhai sydd wedi methu â chofrestru fel darparwr llety ymwelwyr, neu'r gosb o £300 am fethu â darparu gwybodaeth i gywiro camgymeriadau ar y gofrestr, yn cyd-fynd yn fras â chosbau am fethu â chydymffurfio â chynlluniau tebyg yn rhyngwladol, er ei bod ar ben uchaf y raddfa.<sup>172</sup>

**195.** Anogodd Airbnb Lywodraeth Cymru i edrych ar raddfa symudol o gosbau sy'n gymesur ag unrhyw drosedd, gyda symiau is pan fo unrhyw dramgwydd yn un gweinyddol, neu o ganlyniad i gamgymeriad gonest.<sup>173</sup>

**196.** Nododd West Wales Holiday Cottages hefyd, ar gyfer adran 7D, ei bod yn hanfodol diffinio beth yw 'amgylchiadau arbennig' a rhoi manylion ar sut y bydd y broses apelio yn gweithredu er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder.<sup>174</sup>

**197.** Adleisiodd Airbnb hyn drwy ddweud bod angen i Lywodraeth Cymru gyhoeddi maes o law restr nad yw'n gynhwysfawr o senarios a fyddai'n bodloni'r diffiniad o "amgylchiadau arbennig" yn adran 7D ac "esgus rhesymol" yn adran 7C.<sup>175</sup>

**198.** Dywedodd UKHospitality Cymru y dylid ystyried:

*"...a light touch and educational approach in the first instance rather than immediate enforcement and penalty action in the case of genuine errors or lack of awareness".<sup>176</sup>*

**199.** Mynegodd ScoutsCymru bryder am y darpariaethau ychwanegol:

*"The additional provisions for registration and enforcement, particularly the number and severity of the penalties suggested, are very concerning and do not consider the administrative burden the Bill places on small, non-profit, low cost, volunteer managed accommodations."<sup>177</sup>*

**200.** Roedd Cytûn yn rhannu'r pryder, gan nodi yn eu tystiolaeth ysgrifenedig:

---

<sup>172</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB101 - Airbnb](#)

<sup>173</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB101 - Airbnb](#)

<sup>174</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB93 - West Wales Holiday Cottages](#)

<sup>175</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB101 - Airbnb](#)

<sup>176</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB97 - UKHospitality Cymru](#)

<sup>177</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB118 - ScoutsCymru](#)

---

*“Gresynwn nad oedd rhain yn rhan o'r Bil a gyflwynwyd. Gofidiwn am y bygythiad o gosbau sylweddol ar elusennau a busnesau bach am lithriadau gweinyddol.”<sup>178</sup>*

**201.** Dywedodd Sanctuary Coalition Cymru:

*“The inclusion of a “reasonable excuse” clause is a positive step, but clearer guidance is needed to ensure charities understand their obligations and can comply consistently.”<sup>179</sup>*

## **Dull arfaethedig Llywodraeth Cymru o rannu data**

**202.** Ar 5 Rhagfyr 2024, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn rhagweld cyflwyno gwelliannau Cyfnod 2 yn ymwneud â rhannu data.<sup>180</sup>

**203.** Mewn gohebiaeth ddilynol, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet nodau polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, gan nodi:

*“Erbyn diwedd Cyfnod 2 bydd y Bil yn rhoi eglurder ynghylch beth fydd pwerau ACC mewn perthynas â'r gofrestr, a fydd, yn ogystal â'r uchod, yn cynnwys pŵer i gasglu gwybodaeth arall y mae ACC o'r farn ei bod yn briodol. Gallai'r pŵer hwn gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â data am gapasiti neu ddata o natur dymhorol gan y bydd hyn yn cefnogi datblygu ystadegau defnyddio cywir ac amcangyfrifon o symiau ardolladwy y gellid eu casglu. Rydym hefyd yn archwilio pa wybodaeth arall y gall y gofrestr ei chadw yn y dyfodol, er enghraifft gwybodaeth drwyddedu.”<sup>181</sup>*

## **Barn y Pwyllgor**

**204.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gefnogaeth yn y dystiolaeth drwyddi draw ar gyfer cyflwyno cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, ac rydym yn cytuno y bydd o fudd i weithredu'r ardoll ymwelwyr ac yn llywio penderfyniadau a datblygiad polisi parhaus ynghylch ei ddefnydd.

**205.** Pwysleisiodd llawer o dystion fod gan y gofrestr y potensial i sicrhau mwy o chwarae teg ymhlith darparwyr llety, gan awgrymu yn benodol y dylai gynnwys manylion am sut y mae darparwyr yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol.

---

<sup>178</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB3 - Cytûn - Eglwysi ynghyd yng Nghymru

<sup>179</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB113 - Sanctuary Coalition Cymru (Cynghrair Ffoaduriaid Cymru gynt)

<sup>180</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 148

<sup>181</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025

Nodwn fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno Bil ar wahân ar drwyddedu yn ystod tymor yr hydref, ac rydym yn rhagweld y gallai hwn fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan dystion.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell, cyn y ddadl Cyfnod 1, y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o fanylion i'r Senedd ar ei bwriadau polisi ar gyfer y Bil trwyddedu statudol sydd ar ddod, ynghyd ag arwydd o'r amserlenni ar gyfer gweithredu pe bai'r Senedd yn pasio Bil o'r fath.

**206.** Mae'n glir y bydd y gofrestr yn cynyddu'r data sydd ar gael yn ymwneud â darparwyr llety. Bydd hyn yn cefnogi'r ardoll ac yn darparu ffynhonnell fwy cadarn o ddata am dirwedd llety ymwelwyr yng Nghymru. Yn ei dro, cred y Pwyllgor y bydd hyn yn cyfrannu at angen a nodwyd i ddeall yn well y sector yn ei gyfanrwydd. Credwn fod hyn o fudd allweddol i'r Bil ac y dylid dadansoddi data o'r gofrestr o bryd i'w gilydd a'i adrodd i'r Senedd.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i ymrwymo i gyhoeddi adroddiadau cyfnodol yn dadansoddi data a gasglwyd o'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Dylai adroddiad o'r fath gynnwys dadansoddiad o dueddiadau yn y nifer a'r mathau o ddarparwyr a llety ar draws awdurdodau lleol flwyddyn ar ôl blwyddyn.

**207.** Mae'r Pwyllgor yn nodi esboniad Awdurdod Cyllid Cymru o'i ddull gweithredu arfaethedig o ran gorfodi ac mae'n cydnabod bod y glo mân i'w ddatblygu o hyd. Rydym yn cydnabod profiad Awdurdod Cyllid Cymru o weinyddu trethi datganoledig hyd yma, ond bydd gweithredu'r Bil hwn yn gofyn am ryngweithio ag ystod ehangach o randdeiliaid, gyda'r angen i ystyried anghenion y rhanddeiliaid hynny. Nodwyd y potensial ar gyfer canlyniadau anfwriadol yn gynharach yn yr adroddiad mewn cysylltiad â diffyg cydymffurfiaeth a darparwyr llety heb eu rheoleiddio. Bydd cydymffurfiaeth effeithiol a dull gorfodi clir a chymesur yn allweddol er mwyn ennyn hyder y diwydiant a sicrhau bod yr ardoll yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd angen monitro'r gofrestr yn ofalus er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru a rhanddeiliaid perthnasol, yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r Senedd ar ddatblygu dull Awdurdod Cyllid Cymru o gydymffurfio a gorfodi o dan y Bil, gan gynnwys unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi yn gymesur â natur a maint y darparwr llety ymwelwyr.

## **Cosbau sy'n ymwneud â chofrestru**

---

**208.** Er y byddai'n well gan y Pwyllgor weld y darpariaethau cofrestru dangosol (ac unrhyw fwriadau polisi hysbys eraill) yn cael eu hymgorffori yn y Bil cyn ei gyflwyno ac yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad effaith a'r amcangyfrifon cost, mae'n ddiolchgar i Ysgrifennydd y Cabinet am roi manylion y cynigion fel bod modd eu hystyried. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y cosbau arfaethedig mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â'r gofynion cofrestru yn Rhan 2 o'r Bil yn rhesymol.

## 6. Ardoll ymwelwyr: cymhwyso a gweithredu'r ardoll a chyfraddau'r ardoll

### Pŵer y prif gyngor i gyflwyno ardoll ymwelwyr yn ei ardal

**209.** Mae adran 8 yn nodi y caiff prif gyngor godi ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn ei ardal. Mae'r ardoll i'w chasglu a'i rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru ar ran prif gyngor. Rhaid i ACC gasglu a rheoli'r ardoll yn unol â darpariaethau'r Bil a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ('Deddf 2016').

### Cymhwyso a gweithredu'r ardoll

**210.** Mae adran 9(1) yn diffinio arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr at ddibenion gwneud ardoll yn daladwy ac mae'n cynnwys eithriadau i'r amgylchiadau lle bernir bod arhosiad dros nos yn digwydd. Mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd pan fydd unigolion yn preswyllo am un neu ragor o nosweithiau o dan gontract, pan fydd y llety wedi ei ddarparu yng nghwrs masnach neu fusnes, a phan nad y llety yw prif breswylfa'r unigolion hynny. Mae'r eithriadau yn cynnwys arosiadau sy'n hwy nag 31 o nosweithiau, a llety sydd wedi ei drefnu o dan y ddeddfwriaeth benodol a restrir sy'n ymwneud â mewnfudo, lloches, mechnïaeth neu brawf.

**211.** Mae adran 9(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddiwygio'r disgrifiadau o amgylchiadau pryd y mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd neu pryd nad yw arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd.

**212.** Awgrymodd Airbnb y dylai'r ddeddfwriaeth gynnwys rhestr o sefyllfaoedd na ellir eu diwygio gan weinidogion, gan ddweud:

*"... this should include clarifying that local authorities can not apply seasonal or geographical variation to the levy (i.e., only apply the levy at certain times of the year, or only apply the levy in certain places within their boundaries).<sup>182</sup>*

**213.** Mae adran 10 yn nodi mai'r person sy'n atebol am dalu'r ardoll yw'r darparwr llety i ymwelwyr. Yr adeg pan fydd yr atebolrwydd am dalu'r ardoll yn codi yw pan fydd person yn cychwyn ei arhosiad yn y llety.

**214.** Nododd Airbnb ei farn:

---

<sup>182</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [VAB101 - Airbnb](#)



*“... it may be helpful to change the point at which the liability for the levy arises. At the moment, it's tied to the time of entering the property rather than the time of payment. Now, tying it to the time of payment is generally easier for operators because it's easier to implement, it's easier to track any alterations to the booking, and it allows remittance of the tax in the same accounting period that it is collected from a guest.”<sup>183</sup>*

**215.** Mae adran 11 yn nodi'r dull ar gyfer cyfrifo swm yr ardoll sydd i'w godi mewn cysylltiad ag arhosiad. Cyfrifir swm yr ardoll drwy, yn gyntaf, ganfod nifer y personau sydd â hawlogaeth i aros a lluosî'r rhif hwnnw â chyfanswm nifer y nosweithiau y mae ganddynt hawlogaeth i aros. Yna, caiff y rhif hwnnw ei luosi â'r gyfradd briodol.

### **Rheol 31 diwrnod**

---

**216.** Soniodd Ffederasiwn y Busnesau Bach am y rheol “31 diwrnod” ar gyfer pennu a oes arhosiad dros nos yn digwydd ac felly bod yr ardoll yn daladwy, gan ddweud bod hyn yn uchel iawn. Nododd:

*“One would expect that the longer a tourist's stay the more benefits and spend accrues and so the higher the 'value' locally. As such, one would expect that after a few nights there are diminishing returns here and one would want to encourage longer stays, not disincentivise them, especially for larger families.”<sup>184</sup>*

**217.** Awgrymodd, gydag ACC yn casglu'n ganolog, y byddai gallu hawlio'r ardoll yn ôl yn ei chyfanrwydd pe bai ymwelydd yn aros am 10 noson neu fwy yn olynol yng Nghymru yn ymddangos yn gam rhesymol, a gallai ACC geisio gweinyddu hyn gyda derbynebaw yn unol â hynny, gan ddweud:

*“This may provide an incentive for more value to be put into the community spend. This step should be explored.”<sup>185</sup>*

**218.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru eisïau gwahaniaethu rhwng pobl nad oeddent wir yn ymwelwyr yn ystyr y Bil. Ychwanegodd:

---

<sup>183</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 408

<sup>184</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB139 - Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB Cymru)

<sup>185</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB139 - Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB Cymru)

---

*“... 31 days we thought was a reasonable break point to demarcate people who are using accommodation for work reasons.”<sup>186</sup>*

## **Baich gweinyddol ychwanegol**

---

**219.** Thema gyffredin o'r dystiolaeth oedd y potensial i'r Bil osod baich gweinyddol ychwanegol ar ddarparwyr llety sy'n casglu ac yn talu'r ardoll.

**220.** Soniodd Cymdeithas Asiantaethau Cymru am gostau ychwanegol ar gyfer prynu meddalwedd gyfrifiadurol newydd ar gyfer systemau archebu i ystyried yr ardoll, gyda'r posibilrwydd y bydd cymhwyso taliadau ardoll gwahanol ar draws ardaloedd y prif gyngor yn ychwanegu cymhlethdodau gweinyddol pellach.<sup>187</sup>

**221.** Tynnodd Bluestone sylw hefyd at yr angen i wneud newidiadau costus i'n gwefan, platform archebu, meddalwedd cyfrifyddu, a dull gweithredu i godi'r ardoll arfaethedig. Ychwanegodd:

*“Where changes are made to our software and processes, we would also need to invest in the training of our staff to facilitate these changes.”<sup>188</sup>*

**222.** Gwnaed sylwadau am broffil darparwyr llety yn y sector. Nododd PASC UK fod y mwyafrif o weithgarwch hunanddarpar yn cynnwys microfusnesau bach, gan ddweud:

*“The administrative burden that the levy will impose on these small businesses is significant, and the age demographic indicates a need for additional support during both the registration process and the collection of the levy.”<sup>189</sup>*

**223.** Dywedodd MWT Cymru hefyd fod dros 90 y cant o ddarparwyr llety yng Nghymru yn ficrofusnesau bach. Nododd:

*“These businesses often operate with manual systems and minimal staff, making the additional workload of calculating, collecting, and submitting the levy unmanageable.”<sup>190</sup>*

---

<sup>186</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 219

<sup>187</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB146 - Cymdeithas Asiantaethau Cymru

<sup>188</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: Bluestone

<sup>189</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB102 - Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU

<sup>190</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB135 - Twristiaeth Canolbarth Cymru / MWT Cymru

---

**224.** Nododd Safle Gwersylla Cwmdu heriau penodol i'r diwydiant gweryslla:

*"It requires all tourism businesses to have electronic records of their guests - this is absolutely not the norm in the camping industry where things are often still done in paper diaries and bookings taken over the phone. The Welsh government should consider giving businesses two years once this levy is confirmed, to digitize their booking systems."*<sup>191</sup>

**225.** Dywedodd Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

*"Rydym wedi cynllunio'r ardoll ymwelwyr i fod mor syml a didrafferth â phosibl i'w defnyddio ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr ac ymwelwyr. Mae ACC wedi mynd ati i ymgysylltu â defnyddwyr a gwneud gwaith darganfod a bydd yn parhau i ymgysylltu â'r sector i sicrhau bod pethau'n rhedeg yn esmwyth. Bydd uno'r system gofrestru a system yr ardoll yn sicrhau baich gweinyddol llai i ddarparwyr."*<sup>192</sup>

**226.** Ychwanegodd:

*"Bydd darparwyr llai sy'n casglu llai na £1000 o ardoll ymwelwyr y flwyddyn yn gallu dewis ffeilio ffurflenni a gwneud taliadau yn flynyddol. Mae hyn yn cyfyngu unrhyw faich gweinyddol ychwanegol ar ein darparwyr llai."*<sup>193</sup>

## Cyfraddau'r ardoll

### Cyfraddau'r ardoll

---

**227.** Mae adran 12(1) yn nodi tair cyfradd yr ardoll: y gyfradd is yw £0.75; y gyfradd uwch yw £1.25; a'r gyfradd o ddim. Mae adran 12(2) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r gyfradd is, y gyfradd uwch, neu'r ddwy gyfradd, drwy reoliadau.

**228.** Mae adran 13 yn diffinio pa fathau o lety ymwelwyr sy'n ddarostyngedig i gyfradd is, cyfradd uwch, neu gyfradd o ddim yr ardoll. Mae'r gyfradd is yn gymwys i arosiadau mewn hosteli ac mewn pebyll ar safleoedd gweryslla. Mae'r gyfradd uwch yn gymwys i bob math arall o lety ymwelwyr oni bai bod y gyfradd o ddim yn gymwys.

---

<sup>191</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB68 - Safle Gwersylla Cwmdu

<sup>192</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025

<sup>193</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025

**229.** Mae adran 13(3) hefyd yn cymhwyso cyfradd o ddim i arosiadau dros nos sydd wedi'u darparu neu eu trefnu gan awdurdod tai lleol mewn llety ymwelwyr ar gyfer y rhai sy'n ddigartref.

**230.** Mae adran 13(4)-(5) yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i ychwanegu mathau newydd o lety ymwelwyr y mae pob cyfradd yn gymwys iddynt, neu ddiwygio neu ddileu'r mathau presennol; a nodi gofynion tystiolaeth y mae rhaid eu bodloni cyn y gall darparwr gymhwyso'r gyfradd o ddim neu'r gyfradd is; a gwneud trefniadau ar gyfer dyroddi talebau at ddiben profi bod y gyfradd o ddim yn gymwys i arhosiad dros nos penodol mewn llety ymwelwyr, ac mewn perthynas â dyroddi talebau o'r fath.

**231.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod y cyfraddau wedi'u dewis am resymau symlrwydd a thegwch. Ychwanegodd:

*"It's to try to recognise the fact that people with fewer resources at their disposal tend to use the cheaper accommodation when they go on holiday. The essential distinction we've used is where people are going to shared accommodation rather than sole-use accommodation, self-contained accommodation. So, campsites and hostels, by their nature, tend to have shared cooking facilities, shared showering facilities, and so on—those we'll charge at the lower rate. Because on the whole—it's a broad generalisation, I know—but on the whole, people with fewer resources at their disposal tend to use those sorts of accommodations. So, we keep two rates for those issues of fairness, only two because of simplicity and to keep the rate as low as possible."<sup>194</sup>*

### **Effaith anghymesur yr ardoll**

**232.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth a oedd yn awgrymu y byddai'r ardoll yn cael effaith anghymesur ar ddarparwyr sy'n cynnig gwahanol fathau o lety ac ymwelwyr. Oherwydd bod y ddeddfwriaeth yn cymhwyso ardoll cyfradd sefydlog, nododd tystion y byddai hyn yn cael mwy o effaith ar ddarparwyr sy'n cynnig llety rhatach.

**233.** Tynnodd PASC UK sylw at y cynnydd anghymesur mewn prisiau ar gyfer gwahanol fathau o lety, gan ddweud:

---

<sup>194</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 169

*“We have a most amazing range of very low-cost, very good quality, clean accommodation in Wales, and they will be having to charge a disproportionately high amount of tax. So, if you book a very expensive hotel in Cardiff as a businessman, you’ll be paying about 1 per cent, but if you’re a low-income family going to a lodge in mid Wales in the autumn half term, you’ll be paying about 17 per cent, and that is why we find it really, really threatening to our small businesses that offer that kind of accommodation, and the impact on those families on low incomes.”<sup>195</sup>*

**234.** Roedd tystiolaeth gan Fwthyn Velvet a Jasmine yn cefnogi’r farn hon, gan awgrymu y bydd y Bil yn effeithio’n anghymesur ar fusnesau llai. Ychwanegodd:

*“I can see how that it is simple for the Welsh government to implement, far less paperwork than a proportional rate. For an expensive hotel in Cardiff, it’s a negligible amount too. However, for a North Wales holiday cottage sleeping 4 and charging £65/night in Winter, it’s a 10% tax, on top of all the other costs.”<sup>196</sup>*

**235.** Rhoddodd Emma McQuillan o’r Clwb Carafannau a Chartrefi Modur enghraifft hefyd. Dywedodd:

*“If I could just give you a specific example: a £30 pitch for one night with two adults and two children, plus the VAT that would be charged on the levy, equates to a 12 per cent visitor levy.”<sup>197</sup>*

**236.** Ychwanegodd:

*“Now, if you compare that to a single businessman in accommodation, it’s less than 1 per cent of what he’s paying—a businessman or woman—it’s less than 1 per cent of what they’re paying, for the visitor levy. So, we’re trying to make sure that our members are fairly represented and that the low-cost economy option of a holiday is not diminished.”<sup>198</sup>*

**237.** Roedd Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid o’r farn y dylid rhoi ystyriaeth bellach i eithrio’r marchnadoedd hostelau neu lety rhatach, neu ddarparu

---

<sup>195</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 333

<sup>196</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB59 – Bwthyn Velvet a Jasmine

<sup>197</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 737

<sup>198</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 737

---

mesurau diogelu digonol i sicrhau nad yw unrhyw ardoll yn effeithio'n anghymesur ar gyfleoedd ymweld i'r rhai ar incwm is. Ychwanegodd:

*"Based on outline detail provided, YHA estimates that the levy will result in a cost of accommodation increase of around 5% per overnight. We would need to pass on the additional levy to our customers. This will deter budget travellers."*<sup>199</sup>

**238.** Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

*"Proposed 2 tier charging system divides the sector in an unfair way. Glamping sites can easily cost far more than a B&B or small Hotel. Some hotels charge many times the rate charged by smaller hotels. If a campsite or hostel pays less, why should a £70 per night B&B pay the same as a £700 per night hotel? The level of the Levy needs further discussion."*<sup>200</sup>

## **Ychwanegu premiwm at gyfradd yr ardoll**

---

**239.** Mae adran 14 yn galluogi prif gyngor i ychwanegu swm ychwanegol o ardoll (sef premiwm) at gyfradd is a/neu gyfradd uwch yr ardoll a fydd yn gymwys yn ei ardal, ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu uchafswm y premiwm y gall prif gyngor ei godi.

**240.** Mynegodd tystion bryder am faint o wybodaeth sydd ar gael am y premiwm, ac awgrymodd rhai mai'r Bil oedd y tro cyntaf i'r syniad o breimiwm gael ei gyflwyno. Dywedodd North Wales Holiday Cottages wrth y Pwyllgor:

*"In all consultation prior to publication of the Bill there has never been any mention of the possibility for an authority to apply a premium to the levy."*<sup>201</sup>

**241.** Ychwanegodd:

*"It is of considerable concern that such a clause can be introduced against all guidance offered by the industry during consultation meetings. To now see the possibility of some areas charging even more than the basic levy is galling when it has never been put to consultation groups."*<sup>202</sup>

---

<sup>199</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB144 - Cymdeithas yr Hostelau Ieuentid](#)

<sup>200</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB79 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#)

<sup>201</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB83 - North Wales Holiday Cottages Ltd](#)

<sup>202</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB83 - North Wales Holiday Cottages Ltd](#)

---

**242.** Roedd tystiolaeth arall yn tynnu sylw at ddiffyg manylder yn y Bil mewn perthynas â'r premiwm. Dywedodd Visit Pembrokeshire mai'r pryder cychwynnol oedd na chafodd ei grybwyll yn yr ymgynghoriad cychwynnol. Aeth ymlaen i nodi'r canlynol:

*"... if that were to be introduced, I think there needs to be more detail in terms of what the business case would need to be from a local authority to introduce a premium—you know, what are the criteria?—so, more detail to give broad stakeholders the confidence that that would be really well informed and it would be needed, and also that there would be some robust consultation on that."*<sup>203</sup>

**243.** Dywedodd y Clwb Carafannau a Chartrefi Modur:

*"As an element of the legislation which was not apparent during earlier discussions or consultations, the industry should receive clear guidance about how any premium could be introduced and what the cost increases are likely to be, as well as how it will be administered as part of, or separate to the levy."*<sup>204</sup>

**244.** Roedd CLILC yn teimlo bod awdurdodau lleol angen mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y premiwm, gan ddweud bod rhaid iddynt fod yn gwbl siŵr ynglŷn â sut y byddant yn dehongli adran 14 [Ychwanegu premiwm at gyfradd yr ardoll]. Ychwanegodd:

*"There is no reference there, as far as I can see, to the approach to charging the levy, as you heard earlier, nor a need for the Minister to consult with the local authorities on the scale of any premium. So, there is more work to be done here."*<sup>205</sup>

**245.** Nododd Cynghrair Twristiaeth Cymru fod y premiwm yn ychwanegu lefel o gymhlethdod nad yw'n cael ei drafod yn unrhyw le yn y Memorandwm Esboniadol nac yn unrhyw un o'r Aseidiadau Effaith. Awgrymodd y byddai cyflwyno premiwm posibl yn cael yr effeithiau canlynol:

- Mae'n cyflwyno cymhlethdod ac ansicrwydd diangen i'r hyn yr honnir ei fod yn gynllun syml.

---

<sup>203</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 290

<sup>204</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB128 – Y Clwb Carafannau a Chartrefi Modur.

<sup>205</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 188

- Nid yw'n ymddangos ei fod wedi'i gynnwys o fewn cwmpas dyluniad a gweithrediad y rhaglen.
- Mae ganddo'r potensial i wneud yr ardoll yn fwy annheg, er bod Llywodraeth Cymru wastad wedi dweud ei bod am i'r ardoll fod yn deg.<sup>206</sup>

**246.** Cytunodd Airbnb y byddai premiwm yn ychwanegu cymhlethdod, a fyddai'n cynyddu costau gweinyddol i ddarparwyr llety sy'n rhedeg nifer o unedau llety ar draws gwahanol awdurdodau lleol. Argymhellodd y dylid dileu'r pŵer i gymhwyso premiwm o'r Bil.<sup>207</sup>

**247.** Roedd PASC UK hefyd yn teimlo y byddai cymhwyso premiwm yn achosi dryswch i ddarparwyr llety a thwristiaid, yn ogystal â chynyddu costau gweinyddol, gan ddweud:

*"Accommodation providers with properties in multiple locations may face the added complexity of implementing different pricing structures depending on local policies, further increasing administrative costs."<sup>208</sup>*

**248.** Awgrymodd CLILC y gallai premiwm fod yn briodol o dan rai amgylchiadau, gan gynnwys yn ystod digwyddiadau mawr.<sup>209</sup> Pan ofynnwyd iddi a hoffai weld hyblygrwydd o fewn y ddeddfwriaeth i ganiatáu i'r premiwm dargedu ardal benodol neu fath penodol o eiddo, dywedodd CLILC wrth y Pwyllgor:

*"I guess what we are saying is, as currently drafted, we probably haven't got the clarity yet in terms of whether we would have the scale of flexibilities that you've just described there. But we would be arguing the case that that's what we need, as well as a permissive approach from the Government that the power to apply a premium or not apply a premium and the geography, et cetera, rests with the local council, rather than something that has to be gone to the Government for on a case-by-case basis."<sup>210</sup>*

---

<sup>206</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, VAB105 – Cynghrair Twristiaeth Cymru

<sup>207</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, VAB101 – Airbnb

<sup>208</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, VAB102 – Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU

<sup>209</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 180

<sup>210</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 183



**249.** Pan ofynnwyd iddo pa fodelu yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effeithiau posibl awdurdodau lleol yn cymhwyso premiwm, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

*“There’s not a great deal of modelling because we don’t have the granular detail available to make that assessment. I do not expect councils to use this power in the early days of the levy. If there were to be signs of the power being used in a non-reasonable way, the Bill provides Welsh Ministers with the power to set the premium.”<sup>211</sup>*

**250.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ddiweddarach:

*“I am giving some thought with officials in advance of Stage 2 as to whether the Bill needs to provide for a stronger framework for how premiums could be introduced and when they could be introduced.”<sup>212</sup>*

**251.** O ran strwythur premiwm, ac a ddylid ei gymhwyso ar wahanol adegau neu mewn gwahanol leoliadau mewn sir, nododd Ysgrifennydd y Cabinet ei bryder am gymhlethdod rhwyddineb a dealltwriaeth. Ychwanegodd:

*“If you are an accommodation provider and you’re operating within one county, and a different part of the county has a different premium— This is certainly going to add to the administrative burden that’s on the provider.”<sup>213</sup>*

## **Cais am ad-dalu swm sy’n gyfwerth â’r ardoll**

---

**252.** Mae adran 15 yn amlinellu’r broses ar gyfer gwneud cais am ad-daliad o swm sy’n gyfwerth â’r ardoll sy’n daladwy am arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr.

**253.** Mae adran 15(1) yn nodi y caiff person wneud cais i ACC am ad-daliad os darparodd y person hwnnw gydnabyddiaeth am arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr os:

- arhosodd y person yn y llety oherwydd nad oedd yn gallu preswyllo yn ei unig breswylfa neu yn ei brif breswylfa oherwydd risg i’w iechyd, i’w ddiogelwch, neu i’w les;

---

<sup>211</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 177

<sup>212</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 159

<sup>213</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 160

- darparwyd y llety i berson a oedd, ar adeg yr arhosiad, yn ddigartref (o fewn ystyr adran 55 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014); neu
- roedd y person a arhosodd dros nos yn cael budd-dal anabledd ac roedd person arall wedi mynd gyda'r person hwnnw ar yr arhosiad dros nos.

**254.** Mae adran 15(2) yn ei gwneud yn ofynnol i wneud y cais am ad-daliad o swm sy'n gyfwerth â'r ardoll o fewn 30 o ddiwrnodau i'r diwrnod olaf yr oedd gan y person hawlogaeth i aros yn y llety.

**255.** Mae adran 15(5) yn diffinio'r budd-daliadau y byddai'n ofynnol i unigolyn yr oedd person arall wedi mynd gydag ef ar yr arhosiad dros nos eu cael er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am ad-daliad.

**256.** Mae adran 15(6) hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ychwanegu, dileu neu newid disgrifiadau o amgylchiadau ar gyfer gwneud cais, neu i ddiwygio'r diffiniad o 'budd-dal anabledd'.

**257.** Awgrymodd y Sefydliad Siartredig Trethu fod y gofyniad 30 diwrnod yn ymddangos yn fyr iawn, gan ychwanegu:

*"We are concerned that the requirement to make a repayment application within 30 days of the end of the stay seems very short particularly in view of the likely circumstances of those people eligible to make a claim. Those who have stayed in visitor accommodation due to homelessness for example, may simply not be in a position to make a digital repayment claim online within 30 days, or to incur postage costs that outweigh the benefit of making a claim."<sup>214</sup>*

**258.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod yn ystyried bod 30 diwrnod yn ddigon o amser. Esboniodd:

*"I think it's important to remember, in a number of these refunds, that it is very likely that the individual—because the refund is there because the person is vulnerable in some way—will be getting support from some organisation."<sup>215</sup>*

---

<sup>214</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB84 - Y Sefydliad Siartredig Trethu a'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel](#)

<sup>215</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 212](#)

## Esemptiadau

**259.** Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd gan dystion yn cynnig amrywiaeth o esemptiadau i ystyried eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth, gan gynnwys elusennau, teithiau addysgol, a phlant a phobl ifanc.

**260.** Dywedodd ScoutsCymru wrthym:

*“The Bill’s current framework lacks sufficient detail regarding exemptions and considerations for non-profit, volunteer-led accommodation providers where overnight stays are not their primary purpose.”<sup>216</sup>*

**261.** Wrth ymateb i awgrym o esemptiadau yn ehangach, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

*“We’re back to one of those basic trade-offs and bargains. I said to you at the very beginning that this is a broad-based tax with a low charge, at the lower end of what you would find anywhere else. If you narrow the base, the only way that you can sustain the take from the tax is to put the charge up.”<sup>217</sup>*

## Plant a phobl ifanc

---

**262.** Roedd nifer fawr o dystion yn cytuno y dylai plant a phobl ifanc gael eu heithrio rhag gorfod talu’r ardoll.

**263.** Tynnodd West Wales Holiday Cottages sylw at y baich ariannol sylweddol y mae teuluoedd yn ei wynebu o ystyried bod plant wedi’u cynnwys yn yr ardoll. Pwysleisiodd y dylai plant fod yn esempt rhag gorfod talu’r ardoll hefyd.<sup>218</sup>

**264.** Nododd Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid fod sawl enghraifft hysbys o ‘drethi twristiaeth’ mewn gwledydd eraill gydag esemptiadau i bobl ifanc.<sup>219</sup>

**265.** Nododd BH&HPA fod y syniad y dylid trethu plant bach am eu hymweliad yn ddull digydymdeimlad gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod plant ifanc yn aml yn rhannu ystafelloedd gyda gwarcheidwaid ac na ddylent gael eu trethu. Dywedodd:

---

<sup>216</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB118 – ScoutsCymru](#)

<sup>217</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 179](#)

<sup>218</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB93 – West Wales Holiday Cottages](#)

<sup>219</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB144 – Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid](#)

---

*“The majority of European visitor levies apply a discount or exempt children, with most countries discounting under 18s and a few countries exempting under 12s. For the Welsh Government to tax children, or not even apply a discount, would fall outside normal European practices for visitor levies. BH&HPA firmly believe that children should be exempt from the legislation.”<sup>220</sup>*

**266.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet yr alwad i blant a phobl ifanc gael eu hesemptio rhag gorfod talu'r ardoll, ond nododd yr effaith y gallai hyn ei chael ar y swm cyffredinol a godir:

*“I think that our figures show that if you took all of those under 16, of compulsory school age and below, out of the levy, the £33.3 million that our modelling suggests that you would collect goes down to £21.3 million.”<sup>221</sup>*

**267.** Awgrymodd swyddog Llywodraeth Cymru pe bai pobl ifanc o dan 16 yn esempt rhag gorfod talu'r ardoll, efallai y bydd angen gosod cyfraddau'r ardoll ar tua £1 ar y gyfradd is a £2 ar y gyfradd uwch.<sup>222</sup>

## **Teithiau a sefydliadau addysgol**

---

**268.** Galwodd Plant yng Nghymru am i deithiau ysgol addysgol gael eu hesemptio'n llawn o unrhyw ardoll ymwelwyr a gyflwynir gan awdurdodau lleol. Dywedodd:

*“Learners engaging in organised residential school trips in support of their education are not ‘tourists’ or ‘holidaymakers’ and should not be classified as such.”<sup>223</sup>*

**269.** Nododd Comisiynydd Plant Cymru fod “llawer o blant yng Nghymru eisoes yn wynebu rhwystrau i fynd ar deithiau preswyl/addysgol” a galwodd am i “bob taith breswyl/addysgol gael eu heithrio o'r ardoll”.<sup>224</sup>

**270.** Adleisiodd Urdd Gobaith Cymru yr alwad hon, gan awgrymu y dylid gwella'r Bil i gynnwys “eithriad i gyfnodau preswyl addysgiadol a llesiant i blant a phobl

---

<sup>220</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB119 – Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain](#)

<sup>221</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 180](#)

<sup>222</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 193](#)

<sup>223</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB88 – Plant yng Nghymru](#)

<sup>224</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB112 – Comisiynydd Plant Cymru](#)

---

ifanc (0-25 oed) sydd yn teithio annibynnol heb rieni / gwarchodwyr teulu".  
Ychwanegodd:

*"Pryderwn gall godi'r ardoll cael effaith negyddol i blant a phobl ifanc o beidio derbyn eu profiad preswyl, oherwydd gall llai o grwpiau o blant a phobl ifanc o ysgolion a sefydliadau ieuencid ymweld â'r gweryslyoedd."*<sup>225</sup>

**271.** Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y ddadl dros eithrio lleoliadau addysgol neu ymweliadau addysgol yn un deilwng, ond ailadroddodd:

*"Every time you take a group of people out of the levy, you erode the base, and that has an impact on the amounts of money that will be raised, and that has an impact on the amount of money that those who are left paying the levy are charged."*<sup>226</sup>

## **Statws elusennol**

---

**272.** Roedd Cymdeithas yr Hostelaau Ieuencid yn teimlo y dylai cyrff anfasnachol megis sefydliadau nid-er-elw, addysgol neu fenter gymdeithasol fod yn esempt hefyd. Dywedodd:

*"I guess you might consider more broadly if a charitable organisation exists, what current exemptions it has in relation to financial burdens. For us as an organisation, we don't pay business rates. We have rate relief of about 99 per cent, I think, of business rates. For us, that's a cost of around £1,000 a year within Wales."*<sup>227</sup>

**273.** Dadleuodd Comisiynydd Plant Cymru y dylai arosiadau dros dro mewn argyfwng a drefnir gan sefydliadau elusennol mewn llety ymwelwyr i ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael eu heithrio, "ac y dylid amddiffyn sefydliadau elusennol rhag y baich gweinyddol o geisio ad-daliadau."<sup>228</sup>

**274.** Adleisiwyd hyn gan Sanctuary Coalition Cymru, a ddywedodd:

*"Temporary accommodation used by homelessness charities should be explicitly exempt from the levy."*<sup>229</sup>

---

<sup>225</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB103 – Urdd Gobaith Cymru

<sup>226</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 207

<sup>227</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 595

<sup>228</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB112 – Comisiynydd Plant Cymru

<sup>229</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB113 – Sanctuary Coalition Cymru (Cynghair Ffoaduriaid Cymru gynt)

---

**275.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod yr un dadleuon ag a nodwyd eisoes mewn perthynas ag esemptiadau yn gymwys, ond nododd:

*“... charities—it’s a catch-all term for a very, very diverse sector with different legal bases and so on. It can sound straightforward and it can become very complicated when you actually have to, in legal terms, define who you mean.”<sup>230</sup>*

## **Lleiniau**

---

**276.** Dadleuodd Emma McQuillan o’r Clwb Carafannau a Chartrefi Modur o blaid esemptio lleiniau gan fod aelodau’n dod â’u llety gyda nhw. Esboniodd:

*“So, the definition of a pitch as visitor accommodation is quite tenuous, to compare it with the likes of fixed accommodation.”<sup>231</sup>*

**277.** Ychwanegodd:

*“In Edinburgh, the original draft of their scheme exempted pitches, albeit they have been put back in. Their original rationale for that exemption was because it stemmed when a fixed rate was envisaged for the levy, rather than a percentage, and the low-cost nature of campsites meant there would be an unfair imbalance in terms of proportionality of the overall cost. This would be the case in Wales with the proposal as it stands.”<sup>232</sup>*

## **Barn y Pwyllgor**

### **Y rheol 31 diwrnod**

---

**278.** Mae’r Pwyllgor yn nodi rhesymeg Ysgrifennydd y Cabinet dros ddewis 31 o nosweithiau fel y nifer fwyaf o nosweithiau y mae arhosiad dan gontract yn cael ei drin fel ymweliad, ac felly’n ddarostyngedig i’r ardoll. Fodd bynnag, mae’r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o’r angen i osgoi datgymell arosiadau hwy mewn llety ymwelwyr yng Nghymru ac mae’n galw ar Lywodraeth Cymru i fyfyrion ar y dull yn y Bil.

---

<sup>230</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 214

<sup>231</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 737

<sup>232</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 737

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet, cyn y ddadl Cyfnod 1 ac yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ynghylch a yw'n parhau o'r farn mai 31 diwrnod yw'r cyfnod uchaf priodol y dylai aros mewn llety ymwelwyr yng Nghymru fod yn ddarostyngedig i'r ardoll.

### **Baich gweinyddol ychwanegol**

---

**279.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r effaith weinyddol ac ariannol ar ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n deillio o'r Bil ac mae'n cydnabod yn benodol y gallai nifer o'r darparwyr hyn fod yn ficrofusnesau sy'n aml yn ymdopi heb gymorth gweinyddol penodol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y sicrwydd a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet bod y Bil yn creu system ar gyfer gweithredu'r ardoll sy'n gymesur ac wedi'i dylunio i gyfyngu ar unrhyw faich gweinyddol ychwanegol ar ddarparwyr llai. Serch hynny, o ystyried y teimlad cryf a fynegwyd gan ddarparwyr llety ymwelwyr ar y mater hwn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol o'r cymorth a'r canllawiau sydd ar gael iddynt, unwaith y daw'r Bil i rym.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cymryd camau rhagweithiol i ddarparu cymorth priodol i ddarparwyr llety ymwelwyr llai unwaith y daw'r Bil i rym.

### **Cyfraddau'r ardoll**

---

**280.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod rhesymeg Ysgrifennydd y Cabinet wrth gymhwyso egwyddorion symlrwydd a thegwch wrth ddewis cyfraddau sefydlog ar gyfer yr ardoll, nodwn hefyd bryderon ystod o dystion bod gan y cyfraddau y potensial i effeithio'n anghymesur ar fathau penodol o lety, yn enwedig y darparwyr hynny sy'n cynnig llety rhatach. Mae'r Pwyllgor yn nodi tystiolaeth gan dystion a awgrymodd y byddai'r dull hwn yn gyfystyr ag ardoll o 10-12 y cant ar lety cost is a safleoedd gwersylla, a fyddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i deuluoedd mawr neu deuluoedd incwm is, ac a allai gael yr effaith anfwriadol o atal ymwelwyr rhag dod.

**281.** Er bod y Pwyllgor yn nodi bod gwledydd eraill wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ganran o osod ardoll ymwelwyr, mae'r mwyafrif o'r Pwyllgor yn cydnabod barn Ysgrifennydd y Cabinet bod cyfradd sefydlog yn cyd-fynd â nodau polisi Llywodraeth Cymru o ran symlrwydd a thegwch.

## **Cymhwyso premiwm**

---

**282.** Mae cyflwyno'r cysyniad o bremiwm yn y Bil wedi achosi rhywfaint o bryder o fewn y diwydiant. Clywodd y Pwyllgor bryderon hefyd am ddiffyg ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector twristiaeth ar y cynnig penodol hwn. Er ein bod yn derbyn y gallai premiwm ddarparu ffordd ychwanegol i awdurdodau lleol gynhyrchu arian i gefnogi blaenoriaethau lleol, nodwn hefyd fod ganddo'r potensial i greu gwahaniaeth ar draws ardaloedd prif gynghorau, ac mae'n ymddangos yn groes i'r bwriad o ddylunio ardoll gyda symrlwydd mewn golwg. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o'r Pwyllgor yn argyhoeddedig y dylai elfen premiwm y Bil aros, yn enwedig o ystyried mai prif gynghorau fyddai'n penderfynu a ddylid cyflwyno premiwm ai peidio.

**283.** Rydym yn croesawu parodrwydd Ysgrifennydd y Cabinet i ystyried newidiadau yng Nghyfnod 2 gyda'r nod o ddarparu fframwaith cryfach ar gyfer sut y gellid cyflwyno premiymau.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl Cyfnod 1, roi rhagor o fanylion am ei chynigion i gryfhau darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â chyflwyno premiwm.

**284.** Clywodd y Pwyllgor rywfaint o gefnogaeth i ddefnyddio premiwm am amser cyfyngedig, er enghraifft, i gefnogi digwyddiadau penodol yn ardal prif gyngor. Er bod y Pwyllgor yn cytuno â'r dull o ymdrin â phremiymau yn y Bil hwn, mae'n ystyried bod hwn yn faes polisi y dylid ei adolygu a'i ystyried fel rhan o asesiad Llywodraeth Cymru o weithrediad ac effaith y Ddeddf, yn unol â'n hail argymhelliad ar adolygiad ôl-weithredu.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ystyried dulliau amgen o godi premiymau yng nghyd-destun yr ardoll ymwelwyr fel rhan o unrhyw asesiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf yn y dyfodol.

## **Esemptiadau**

---

**285.** Cafwyd cefnogaeth ar draws y dystiolaeth a gafwyd i esemptiadau penodol gael eu gwneud i'r rhai a oedd yn ddarostyngedig i'r ardoll, gyda'r mwyafrif yn canolbwyntio ar esemptiadau i blant a phobl ifanc, ymweliadau addysgol a sefydliadau elusennol.

**286.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr effaith ar refeniw a fyddai'n digwydd pe bai esemptiadau i'r ardoll yn cael eu cymhwyso, a nodwn hefyd sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet am yr heriau sy'n codi o ran diffinio lleoliadau addysgol ac



elusennau ar wyneb y Bil. Gallai gwneud hynny arwain at ganlyniadau anfwriadol a chreu ansicrwydd i ddarparwyr llety.

**287.** Fodd bynnag, yn achos plant dan 16 oed, gallai esemptiad fod yn fwy syml i'w weinyddu, a byddai esemptiad o'r fath hefyd yn cael effaith naturiol ar gyfran o ymweliadau a lleoliadau addysgol. Rydym yn croesawu'r gwaith a wnaed eisoes gan Lywodraeth Cymru i ddeall goblygiadau ariannol cymhwyso esemptiad o'r fath ac yn galw am gyhoeddi manylion o'r fath cyn y ddadl Cyfnod 1.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn dadl Cyfnod 1, roi crynodeb i'r Senedd o unrhyw ddadansoddiad a gynhaliwyd ynghylch yr esemptiad posibl o'r ardoll mewn perthynas â'r canlynol:

- pobl ifanc o dan 16 oed,
- teithiau addysgol, a
- chyrrff sydd â statws elusennol.

## 7. Ardoll ymwelwyr: rhoi cyfrif am yr ardoll a'i thalu

**288.** Mae Pennod 2 o Ran 3 o'r Bil yn ymdrin â'r gofynion sy'n ymwneud â ffurflenni a thalu'r ardoll, a chasglu a rheoli'r ardoll gan ACC.

**289.** Mae adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr llety ymwelwyr gyflwyno ffurflen i ACC ar gyfer pob cyfnod cyfrifyddu y mae'n gweithredu busnes llety ymwelwyr (p'un a oes unrhyw arosiadau dros nos wedi digwydd yn y cyfnod hwnnw ai peidio).

**290.** Mae adran 16(3) yn datgan bod rhaid i'r ffurflen gynnwys asesiad o swm yr ardoll sy'n daladwy am y cyfnod cyfrifyddu, a hefyd naill ai ddatganiad gan y darparwr fod yr wybodaeth ar y ffurflen yn gywir neu ardystiad gan asiant y darparwr fod y darparwr wedi gwneud datganiad o'r fath i'r perwyl hwnnw.

**291.** Mae adran 16(4) yn nodi bod rhaid i'r darparwr llety ymwelwyr gwblhau ffurflen a'i hanfon i ACC erbyn y dyddiad ffeilio ar gyfer y ffurflen. Mae'r dyddiad ffeilio'n dibynnu ar a oes rhaid i'r darparwr llety ymwelwyr anfon ffurflenni blynyddol neu chwarterol (gweler adran 17 isod).

**292.** Mae adran 16(5) yn pennu dyddiadau ffeilio ar gyfer ffurflenni blynyddol. Y dyddiad ffeilio yw 30 Ebrill yn y flwyddyn ariannol yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Ar gyfer ffurflenni chwarterol, y dyddiad ffeilio yw'r diwrnod olaf o'r mis yn dilyn diwedd y cyfnod cyfrifyddu.

**293.** O dan adran 17, caiff darparwyr llety ymwelwyr ddewis cyflwyno ffurflenni blynyddol neu ffurflenni chwarterol ar gyfer blwyddyn ariannol os nad yw swm disgwylidig yr ardoll y maent yn atebol am ei dalu yn fwy na £1,000. Os disgwylir y bydd swm yr ardoll y mae darparwr yn atebol am ei dalu yn fwy na £1,000 ar gyfer y flwyddyn honno, neu os oedd yn fwy na £1,000 yn y flwyddyn flaenorol, rhaid iddo gyflwyno ffurflenni chwarterol.

**294.** Mae adran 17(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddiwygio swm y trothwy ar gyfer ffeilio yn flynyddol neu'n chwarterol a phennu'r wybodaeth y mae'n rhaid i ddarparwr llety ymwelwyr ei darparu i ACC os yw'n dymuno cyflwyno ffurflenni blynyddol.

**295.** Nododd Clwb Mynydda De Cymru bryder ynghylch yr amserlenni ar gyfer ffeilio ffurflenni:

*“We are particularly concerned about the requirement to file returns within 30 days of a financial year, and the prospect of quarterly reporting. This will create a deplorable impact on volunteers. We note for comparison that Charity Commission returns have a 10-month period for those required to report.”<sup>233</sup>*

**296.** Cytunodd Chamois Mountaineering Club Ltd y bydd llety sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr megis cytiau sgowtiaid a bythynnod a chytiau mynydd yn ei chael hi'n anodd bodloni terfynau amser 30 diwrnod ar gyfer cyflwyno ffurflenni a thalu.<sup>234</sup>

**297.** Awgrymodd ScoutsCymru:

*“The proposed 30-day window for returns and payments, demonstrates a clear lack of understanding of volunteer-run organisations' operational realities.”<sup>235</sup>*

**298.** Nododd Sykes Cottages yr heriau a gyflwynir gan y terfyn amser 30 diwrnod ar gyfer cyflwyno ffurflenni:

*“If we do returns for operators and we suspect we'll have to, we've only got 30 days each quarter to create returns, send it to each owner, get an affirmative declaration from every operator in a levy area with their agreement that the info in return is correct, for us to report back.”<sup>236</sup>*

**299.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod y terfyn amser o 30 diwrnod ar gyfer cyflwyno ffurflenni “yn gyson â'r system dreth ehangach”. Ychwanegodd:

*“Mae hyn yn darparu cysondeb ar gyfer y rhai sy'n ffeilio yn flynyddol ac yn chwarterol, a bydd darparwyr llety ymwelwyr yn gweithio tuag at un terfyn amser ar gyfer talu a ffeilio. Mae hyn hefyd yn lleihau nifer y terfynau amser y bydd angen i ddarparwyr llety ymwelwyr gadw golwg arnynt. Bydd y broses ddychwelyd yn ddiraffferth gan fod yr ardoll yn dreth syml. Bydd ACC yn gweithio'n agos gyda darparwyr llety ymwelwyr ar bob cam i hyrwyddo cydymffurfiad drwy ddull addysgol yn unol*

---

<sup>233</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB91 - Clwb Mynydda De Cymru](#)

<sup>234</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB92 - The Chamois Mountaineering Club Ltd](#)

<sup>235</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB118 - ScoutsCymru](#)

<sup>236</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB122 - Sykes Holiday Cottages](#)

---

*ag 'Ein Dull', ffordd Gymreig o wneud treth gan Awdurdod Cyllid Cymru.*<sup>237</sup>

**300.** Mae adran 18 yn diffinio'r cyfnod cyfrifyddu ar gyfer ffurflenni blynyddol fel y flwyddyn ariannol ac mae'n diffinio'r cyfnod cyfrifyddu ymhellach o dan amgylchiadau penodol pan fo person yn cychwyn neu'n rhoi'r gorau i weithrediadau ardolladwy yn ystod blwyddyn ariannol.

**301.** Mae adran 19 yn diffinio'r cyfnod cyfrifyddu ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr sy'n cyflwyno ffurflenni chwarterol drwy gyfeirio at chwarter calendr. Yn unol ag is-adran (4), mae hyn yn golygu cyfnod o dri mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi neu 31 Rhagfyr.

**302.** Mae adran 19(3) yn nodi os yw darparwr yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy yn ystod chwarter calendr, mae'r cyfnod cyfrifyddu cyntaf yn dechrau ar ddyddiad dechrau'r gweithrediadau ac yn dod i ben ar ddyddiad chwarter nesaf y calendr.

**303.** Mae adran 20 yn nodi'r rheolau o ran darparwyr llety ymwelwyr yn talu'r ardoll ymwelwyr i ACC. Rhaid i ddarparwyr llety ymwelwyr dalu swm yr ardoll a bennir yn eu ffurflen erbyn y dyddiad ffeilio.

**304.** Mae'r adran hefyd yn cyfeirio at ddarpariaethau ychwanegol yn Neddf 2016 sy'n mynd i'r afael â thaliadau'r ardoll y mae'n ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr eu gwneud mewn sefyllfaoedd eraill, megis cywiriadau i ffurflen dreth, diwygiadau a wneir i ffurflen dreth yn ystod ymholiad neu ar ôl cwblhau ymholiad, a dyfarniadau ac asesiadau ACC.

**305.** Dywedodd swyddog Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor am ACC:

*"... they have already done quite a lot of discovery work with the sector, including designing some prototypes of what the returns will look like, making sure that they've talked that through with visitor accommodation providers, so that they understand how they can adapt the returns to make sure that they suit the visitor accommodation providers, and to understand a little bit more about the sector, so that they are making it as easy to use as possible."*<sup>238</sup>

---

<sup>237</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025

<sup>238</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 91

---

## Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu ac yn rheoli'r ardoll

**306.** Mae adran 21 yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Bil, sy'n cynnwys diwygiadau i Ddeddf 2016. Mae Deddf 2016 yn sefydlu fframwaith ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru gan ACC, a ddaeth yn weithredol yn 2018. Mae'r darpariaethau yn Atodlen 1 i'r Bil yn ymestyn swyddogaethau ACC fel bod ei gylch gwaith hefyd yn cynnwys casglu a rheoli'r ardoll ac yn gwneud diwygiadau amrywiol eraill i'r Ddeddf honno.

**307.** Mae paragraff 2 o'r Atodlen yn diwygio Deddf 2016 i ganiatáu i ACC reoli a chasglu'r ardoll.

**308.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

*"I think the WRA has been a success story, and I think it is the right moment for the WRA itself to be able to step into some new responsibilities and to demonstrate that the success it's had elsewhere can be replicated in this new area."<sup>239</sup>*

**309.** Cadarnhaodd ACC ei fod wedi bod yn ymgysylltu'n helaeth ag awdurdodau lleol mewn cydweithrediad â Thrysorlys Cymru. Dywedodd:

*"We are developing a service level agreement that will be in place, so that the local authorities understand what our obligations are in running the tax, and we're working with them to develop that SLA, because, obviously, we don't want to develop that in isolation. We're also developing a stakeholder team, and their role is to go out and engage with local authorities, support them in the consultation and provide information about what the tax means for them, what it means for accommodation providers, what it means for visitors, so that we can provide a single point of clarity, really, as to what each local authority is sort of obliging themselves to if they opt in to the visitors levy."*

**310.** Ychwanegodd:

*"... during the administration of the levy, we'll be sharing information about the accommodation providers in their area"*

---

<sup>239</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 228

*as well. Also, they'll have access to the register as well, so they'll have an understanding of what's going on in their area."*<sup>240</sup>

**311.** Mae paragraff 5 yn cynnwys datgelu a ganiateir newydd o "wybodaeth warchoddedig am drethdalwr" at ddibenion swyddogaethau ACC.

**312.** Cadarnhaodd ACC:

*"... we would only ever disclose PTI when there's a real need to do so and there's no other way. We take that protection of taxpayer information very seriously."*<sup>241</sup>

**313.** Ychwanegodd yn ddiweddarach:

*"... we have to balance not putting protected taxpayer information on a publicly available register with providing enough information that the register is not just a useless document for people, so there is that that we are working through carefully."*<sup>242</sup>

**314.** Mae paragraff 17 yn dileu'r gofyniad i ACC geisio cymeradwyaeth y tribiwnlys cyn dyroddi hysbysiad i drethdalwr yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth neu gynhyrchu dogfennau. Bydd y rheol newydd hon yn gymwys i'r ardoll ymwelwyr a'r trethi datganoledig.

**315.** Dywedodd ACC wrth y Pwyllgor mai effaith dileu'r angen i ACC fynd i'r tribiwnlys fydd effeithlonrwydd gweinyddol. Ychwanegodd:

*"So, you remove that burden, it speeds up an enquiry and it allows us to move to a formal information notice, should the need arise. We hope it still wouldn't arise—we'd still try to work collaboratively and co-operatively to get information that we required. So, yes, it would just be administrative efficiency, basically; it wouldn't change our approach at all. Where there is a formal information notice, then there's a formal right of appeal against that information notice by the taxpayer, which would then be referred to the tribunal, if they felt that we were asking for information that we shouldn't be."*<sup>243</sup>

---

<sup>240</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 27-28

<sup>241</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 88

<sup>242</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 92

<sup>243</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 96

**316.** Mae paragraff 23 yn cyflwyno trefn pwyntiau cosb am ffeilio ffurflenni ardoll ymwelwyr yn hwyr.

**317.** Mae paragraff 25 yn cyflwyno rheolau ar gyfer cosbau ariannol pan fydd darparwr llety ymwelwyr yn methu â thalu'r ardoll ymwelwyr i ACC erbyn y dyddiad dyledus.

## **Barn y Pwyllgor**

**318.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cynnig i ACC fod yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r ardoll a chredwn mai ACC yw'r corff priodol i ymgymryd â'r rôl honno. Rydym hefyd yn croesawu'r newidiadau gweinyddol synhwyrol a gynigir gan y Bil mewn perthynas â dyletswyddau casglu a rheoli presennol ACC.

**319.** Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan dystion mewn perthynas â'r amserlenni ar gyfer ffeilio ffurflenni. Er ein bod yn cydnabod barn Ysgrifennydd y Cabinet bod 30 diwrnod yn gyson â'r system dreth ehangach, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn ymhellach, yn enwedig o ystyried y bydd yr ardoll yn ffurf newydd o drethiant lleol yng Nghymru.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl Cyfnod 1, adolygu ei hymagwedd at y terfyn amser o 30 diwrnod ar gyfer ffeilio ffurflenni, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ynghylch a yw'n parhau i fod o'r farn bod yr amserlen arfaethedig yn briodol.

**320.** Er ein bod yn croesawu rôl ragweithiol arfaethedig ACC wrth gefnogi cynghorau ac yn cydnabod y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma, rydym wedi nodi pryderon mewn manau eraill yn yr adroddiad am yr amcangyfrifon cost sy'n ymwneud ag ACC a chapasiti ACC i gyflawni'r rôl a ddisgwyllir ganddynt.

**321.** Er mwyn sicrhau llwyddiant yr ardoll, bydd hefyd yn hanfodol i ACC ymgysylltu'n rhagweithiol â darparwyr llety ymwelwyr.

## 8. Ardoll ymwelwyr: defnydd prif gyngorau o enillion yr ardoll

**322.** Mae adrannau 22 i 24 yn nodi gofynion mewn perthynas â'r defnydd o enillion yr ardoll.

**323.** Mae adran 22 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr gael cyfrif ar wahân ar gyfer enillion net yr ardoll honno a dalwyd iddo gan ACC.

**324.** Mae adran 23 yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif gyngor ddefnyddio'r refeniw a gynhyrchir gan yr ardoll at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ei ardal. Mae hefyd yn darparu rhestr, nad yw'n gynhwysfawr, o'r mathau o wariant gan y prif gyngor a fydd yn bodloni'r gofyniad am wariant ar reoli a gwella cyrchfannau, sy'n cynnwys:

- lliniaru effaith ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo neu gefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau sydd i'w defnyddio gan ymwelwyr (pa un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol hefyd ai peidio).

**325.** Mae adran 24 yn gosod cyfrifoldeb ar brif gyngor i gyhoeddi adroddiad ar enillion yr ardoll ar gyfer pob blwyddyn ariannol y mae'r ardoll yn cael effaith ynddi yn ei ardal. Rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am swm yr ardoll a gasglwyd ac enillion yr ardoll (ar ôl i ACC ddidynnu costau casglu'r ardoll) a sut y mae'r enillion wedi cael eu gwario ar reoli a gwella cyrchfannau.

**326.** Mae adran 24 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi gofynion drwy reoliadau ar gyfer adroddiadau'r prif gyngor, ac i newid nifer yr adroddiadau y mae rhaid eu cyhoeddi ar gyfer blwyddyn ariannol, pa mor aml y'u cyhoeddir, a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyhoeddi.

**327.** Mynegodd tystion bryderon ynghylch y meysydd gwariant a amlinellir yn y Bil, ac a fyddai refeniw'r ardoll yn creu ychwanegedd i'r sector twristiaeth, sydd wedi'u crynhoi isod.



## Gwario'r ardoll

**328.** Roedd nifer o dystion yn poeni am ehangder y meysydd gwariant a nodir yn adran 23 o'r Bil. Roedd Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru yn teimlo bod y meysydd yn rhy eang, gan ddweud:

*"... we feel it will lead to local authorities using the funds for expenditure that does not directly support local tourism businesses. Instead, we have concerns that levy funds will invariably be used to cover the costs of facilities and infrastructure that are primarily for local residents rather than the tourist economy and the businesses that operate within it."*<sup>244</sup>

**329.** Dywedodd Ffederasiwn y Busnesau Bach nad oes unrhyw beth i'w ddweud yn erbyn egwyddorion y dyletswyddau hynny, ond eu bod yn eang iawn, iawn, iawn.<sup>245</sup>

**330.** Roedd UKHospitality Cymru yn cytuno, gan ddweud:

*"It is our view that the classifications are very broad and do not specify assistance to tourism and services relating to tourism. For instance, while being fully supportive of all efforts to defend and support the Welsh language, we strongly disagree that this levy should be used for those purposes."*<sup>246</sup>

**331.** Ychwanegodd y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cymalau penodol sy'n cyfyngu gwariant awdurdodau lleol i feysydd y gellir gweld eu bod o fudd uniongyrchol i'r sector twristiaeth.<sup>247</sup>

**332.** Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

*"... the current scope for spending the income raised from the Levy is very broad and could result in funds being absorbed by general local authority spending (roads infrastructure etc.) as opposed to improving the visitor and community infrastructure."*<sup>248</sup>

---

<sup>244</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB149 – Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru (WPBA)

<sup>245</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 545

<sup>246</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB97 - UKHospitality Cymru

<sup>247</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB97 - UKHospitality Cymru

<sup>248</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, VAB79 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**333.** Fodd bynnag, croesawodd Visit Pembrokeshire yr hyblygrwydd yn y meysydd a nodir yn adran 23, gan ddweud:

*"I think it's important to have that flexibility, because every destination is different, and this levy can respond to the particular challenges in that local destination. So, it's important that it has that flexibility of interpretation, but where you've got the safeguards is that governance and influencing model in terms of how it's spent."*<sup>249</sup>

**334.** Roedd Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru yn teimlo pa bynnag fecanwaith a ddefnyddir i ddyrannu gwariant arian yr ardoll, mae angen atebolrwydd, cynrychiolaeth a thryloywder.<sup>250</sup>

**335.** Awgrymodd un tyst fod angen i bob awdurdod ddatblygu cynlluniau clir ar gyfer twristiaeth i brofi'r angen am refeniw ychwanegol ar gyfer y maes hwn.<sup>251</sup>

**336.** Tynnodd Dr Linda Osti sylw at bwysigrwydd bod y diwydiant yn ymwybodol o unrhyw werth ychwanegol:

*"We have noticed that when the industry can see the added value of the tax on top of what was done before, then it's much more accepted than otherwise. So, it's also the way that the revenues from the tax are spent and the way that there is accountability, explanation and reporting. That helps the acceptance by stakeholders."*<sup>252</sup>

**337.** Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet y meysydd gwariant fel y'u nodir yn adran 23 fel math o ragdybiaeth feddal. Nododd:

*"I think circumstances differ between one local authority and another, and the right thing to spend it on in one place to support the tourism industry will be different in another local authority."*<sup>253</sup>

---

<sup>249</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 248

<sup>250</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 548

<sup>251</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB45 – Berin Jones

<sup>252</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 213

<sup>253</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 230

## Ychwanegedd refeniw'r ardoll

**338.** Cododd llawer o dystion bryderon y byddai refeniw o'r ardoll yn disodli cyllid awdurdodau lleol sydd eisoes wedi'i dargedu at y sector twristiaeth.

**339.** Awgrymodd Cadwch Gymru'n Daclus:

*"The Bill lacks any provisions for the levy revenue to be an "additionality" to existing local authority budgets designated to tourism purposes. This raises concerns that it will end up replacing existing funding and result in the tourism sector and development of sustainable tourism being no better off than before the levy."<sup>254</sup>*

**340.** Nid oedd PASC UK yn credu bod y Bil yn sicrhau yn ddigonol y bydd arian yr ardoll yn darparu cymorth ychwanegol i dwristiaeth yn hytrach na chael ei ddargyfeirio at wariant cyffredinol llywodraeth leol. Dywedodd:

*"Although the funds are intended for destination management and improvement, we believe they will likely replace existing spending in these areas, freeing up resources to be used for unrelated purposes."<sup>255</sup>*

**341.** Adleisiwyd hyn gan West Wales Holiday Cottages a oedd yn poeni am dryloywder ac atebolrwydd sut y bydd yr arian a gesglir yn cael ei ddefnyddio. Ychwanegodd:

*"Without clear assurances that the money will be reinvested directly into tourism-related infrastructure and services, there is scepticism about whether the levy will benefit the industry or simply add further burden on both visitors and local businesses."<sup>256</sup>*

**342.** Dywedodd BH&HPA fod pryder sylweddol yn y diwydiant ynghylch y meysydd gwariant arfaethedig ar gyfer enillion yr ardoll. Nododd:

*"The Welsh Government must ensure that proceeds add to the tourism offering of an area, create net additionality and do not*

---

<sup>254</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB73 - Cadwch Gymru'n Daclus](#)

<sup>255</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB102 - Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU](#)

<sup>256</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB93 - West Wales Holiday Cottages](#)

---

*just supplement existing local authority spending obligations.”<sup>257</sup>*

**343.** Argymhellodd fod angen rhagor o wybodaeth ar wyneb y Bil i ddwyn awdurdodau lleol i gyfrif ar glustnodi a bod gwariant ystyrlon yn darparu ychwanegedd.

**344.** Dywedodd Chamois Mountaineering Club Ltd:

*“We are concerned about the ring-fencing of revenue – clear mechanisms are needed to ensure that revenue is reinvested transparently into services that benefit both visitors and local communities.”<sup>258</sup>*

**345.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

*“Rydym yn disgwyl y byddai elw o'r ardoll yn gyllid ychwanegol na fyddai'n disodli cronfeydd presennol. Mae'r Bil yn adran 25 yn nodi bod rhaid i brif gynghorau ymgynghori cyn cyflwyno ardoll, ac rydym yn disgwyl y dylai unrhyw ymgynghoriad o'r fath gynnwys ystyried y defnydd o'r refeniw.”<sup>259</sup>*

**346.** Ychwanegodd:

*“Mae gennym berthynas â lefel uchel o ymddiriedaeth gyda'r awdurdodau lleol. Yn y pen draw, rhaid i swyddogion a etholwyd yn lleol wneud penderfyniadau gwario a rhoi cyfrif am y penderfyniadau gwario hynny.*

*Bydd yr adroddiad blynyddol ardoll ymwelwyr ynghyd â'u datganiad o gyfrifon a ddarperir gan yr awdurdodau lleol yn rhoi digon o fanylion am effaith yr ardoll ymwelwyr.”<sup>260</sup>*

## **Ymgysylltu â'r sector twristiaeth**

**347.** Roedd tystion yn teimlo y gellid cryfhau'r Bil i sicrhau cyfranogiad y sector twristiaeth wrth bennu sut y caiff refeniw'r ardoll ei wario. Gofynnodd Ffederasiwn y Busnesau Bach am eglurder ar sut y byddai rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn

---

<sup>257</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB119 – Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain

<sup>258</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB92 – The Chamois Mountaineering Club Ltd

<sup>259</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025

<sup>260</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025

y broses ddyrannu, gyda Dr Llyr ap Gareth yn sôn am fforwm sydd wedi'i gynnwys yn neddfwriaeth yr Alban. Nododd:

*“And I think it’s important to note in the Scottish Bill ... that there needs to be a visitor levy forum that represents businesses in the sector and communities. Now, we would like for there to be something that allows that participation and also decision making for the tourism providers to decide where that money goes, because that brings people into the system, that you’re looking into where the tourism development is happening.”<sup>261</sup>*

**348.** Ychwanegodd:

*“I think, at the moment, the danger is that, if it’s local authorities deciding what destination management means, that could create a level of distrust between—. You know, ‘Is this money actually going towards things that benefit our sector?’<sup>262</sup>*

**349.** Awgrymodd Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr fod bwrdd ar y cyd o swyddogion y cyngor a’r gymuned fusnes yn cael ei ffurfio ym mhob ardal sy’n dewis cyflwyno’r ardoll.<sup>263</sup>

**350.** Dadleuodd Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol y dylent fod yn rhan o drafodaethau ynghylch gwario’r ardoll. Nododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

*“We ask that National Park Authorities [NPAs] are key partners in the decision to implement a levy and are involved in decisions around how the funds will be spent, as well as ensuring NPAs receive a proportion of the income from levy.”<sup>264</sup>*

**351.** Cyfeiriodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri at sefydlu ‘Partneriaeth Economi Ymwelwyr’ yn ei ardal:

*“In Eryri, we are working towards the possibility of the Visitor Levy having established a Visitor Economy Partnership (under the Gwynedd and Eryri Sustainable Visitor Economy Plan) which includes key representatives from the sector and community alongside Cyngor Gwynedd and Conwy. As a*

---

<sup>261</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 522

<sup>262</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 522

<sup>263</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB32 – Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr

<sup>264</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB95 – Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

*Partnership, we believe this is a strong and capable vehicle for delivery of the investment from a Visitor Levy. This Partnership addresses the concerns which we hear regularly from those in the Tourism Sector that they feel disempowered to decide or ensure that the proceeds from the Levy will be invested back into the local Visitor Economy, Support for structures such as this from Welsh Government would be welcome as the delivery of the Levy develops.”<sup>265</sup>*

**352.** Awgrymodd PLANED:

*“Funds raised from any Levy that is applied, whilst set in theory by the local authority applicable, should see the funds be allocated and agreed by a panel of interested parties and community based organisations, as it is the communities who supply the labour, skills, supplies, and general welcome for those tourism businesses and organisations, which in turn support our communities through the foundational and circular economy model.”<sup>266</sup>*

**353.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fodolaeth fforwm economi ymwelwyr, fforymau rhanbarthol a fforymau lleol fel enghreifftiau o ble mae'r diwydiant twristiaeth eisoes yn dod at ei gilydd, a chwestiynodd y budd o greu fforwm newydd yn ychwanegol at y strwythurau presennol hyn. Awgrymodd:

*“... it'll be the same people in the room now having another meeting to get into their diaries, whereas adding this to an agenda of an existing meeting would be a more straightforward, more cost-effective in terms of people's time way of making sure that the voice of the industry is heard.”<sup>267</sup>*

**354.** Fodd bynnag, ychwanegodd:

*“I would certainly want to make sure that the voice of the industry continues to be heard, not just on the decision itself, but on how money that is collected is then deployed for the purposes set out in the Bill.”<sup>268</sup>*

---

<sup>265</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB140 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri](#)

<sup>266</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [VAB37 - PLANED](#)

<sup>267</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 42](#)

<sup>268</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 44](#)

## Barn y Pwyllgor

**355.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ystod o safbwyntiau a fynegwyd ynghylch y meysydd a restrir o dan adran 23 sy'n nodi'r mathau o wariant gan brif gynghorau a fyddai'n bodloni'r gofyniad i wario ar reoli a gwella cyrchfannau. Nodwn hefyd farn Ysgrifennydd y Cabinet bod y ddarpariaeth yn fath o ragdybiaeth feddal. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynghylch ehangder y meysydd a gynhwysir, deawn i'r casgliad bod y dull gweithredu yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i gyflawni'r bwriad polisi.

**356.** Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, bydd ennyn ymddiriedaeth y diwydiant twristiaeth a phartneriaid lleol yn ganolog i lwyddiant neu fethiant gweithredu'r ardoll. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a godwyd gan dystion y gallai'r ardoll ddisodli'r cyllid presennol gan awdurdodau lleol. Rydym yn croesawu cadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet mai bwriad enillion yr ardoll yw darparu cyllid ychwanegol, nid disodli'r cronfeydd presennol, a bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau ymgynghori ar y defnydd o refeniw cyn cyflwyno'r ardoll.

**357.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â thystion y byddai dwyn ynghyd cynrychiolwyr y diwydiant lleol a'r prif gyngor i drafod y defnydd o enillion yr ardoll yn yr ardal leol yn ffordd gadarnhaol o gryfhau ymddiriedaeth, gwella cefnogaeth a magu hyder yn yr hyn y byddai prif gyngor yn mynd ati i'w gyflawni drwy weithredu'r ardoll. Nodwn y dystiolaeth a gafwyd a oedd yn cyfeirio at y dull a ddefnyddiwyd yn yr Alban a sefydlu fforwm ardoll ymwelwyr gorfodol sy'n cynrychioli busnesau yn y sector a chymunedau. Credwn fod rhinweddau gan fabwysiadu'r dull hwn yng Nghymru ei rinweddau. Gallai cydweithio o'r fath helpu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch rhagdybiaethau a chaniatáu dull adeiladol o gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwario'r ardoll mewn ardal leol yn seiliedig ar ddealltwriaeth well gan y prif gyngor o anghenion lleol.

**358.** Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai mabwysiadu gofyniad ffurfiol ar gyfer fforwm ardoll ymwelwyr yn:

- cryfhau'r berthynas rhwng prif gynghorau a'u rhanddeiliaid;
- sicrhau llais i gyrff lleol perthnasol yn y broses o benderfynu ar ddyraniad enillion yr ardoll ymwelwyr;
- mynd i'r afael â phryderon a fynegwyd gan y diwydiant ynghylch yr angen i gymryd rhan yn y broses; a

- thaflu goleuni ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan brif gynghorau i helpu i sicrhau bod enillion yr ardoll yn cynrychioli buddsoddiad ychwanegol mewn blaenoriaethau lleol sydd o fudd i'r sector twristiaeth neu'r ardal.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau sy'n dymuno cyflwyno'r ardoll sefydlu Fforwm Ymwelwyr yn unol â'r dull a fabwysiadwyd yn Neddf Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban) 2024, ac:

- y dylai aelodaeth y fforwm gynnwys busnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth, sefydliadau twristiaeth yn ardal y prif gyngor a chyrrff lleol perthnasol eraill; a
- bod rhaid i brif gynghorau roi sylw i unrhyw argymhellion a wneir gan y Fforwm Ymwelwyr wrth benderfynu ar y defnydd o enillion yr ardoll.



## 9. Materion eraill

### Ardoll ymwelwyr: cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll

**359.** Mae adran 25 yn darparu'r camau y mae rhaid i brif gyngor eu cymryd cyn iddo gyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll, neu unrhyw breimiwm, yn ei ardal.

**360.** Mae adran 25(3) yn nodi bod rhaid i'r prif gyngor hysbysu ACC am ei fwriadau mewn cysylltiad â'r ardoll a chyhoeddi adroddiad sy'n nodi'r cynigion perthnasol a'u goblygiadau ariannol disgwylidig. Rhaid i'r prif gyngor hefyd anfon ei adroddiad i ACC.

**361.** Yn unol ag adran 25(3), rhaid i'r prif gyngor ymgynghori â chyfres o ymgynghoreion gorfodol, neu bersonau priodol eraill, ar ei adroddiad a'i gynigion mewn cysylltiad â'r ardoll. Mae'r ymgynghoreion hynny'n cynnwys:

- pobl leol;
- cyngorau tref a chymuned;
- y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardal y prif gyngor;
- prif gynghorau ar gyfer ardal gyffiniol;
- awdurdodau parciau cenedlaethol perthnasol;
- cyd-bwyllgorau corfforedig y mae'r prif gyngor yn aelod ohonynt; a
- sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sy'n gweithio ym maes twristiaeth, neu sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth neu sy'n hyrwyddo twristiaeth yn ardal y prif gyngor.

**362.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

*"Rydym yn rhag-weld y bydd ymgynghoriadau ar gyfer yr ardoll ymwelwyr yn cael eu cyhoeddi ac y byddant yn hygyrch i'r rhai sy'n dymuno ymateb i ymgynghoriad awdurdod lleol nad ydynt yn byw, yn gweithio neu'n astudio yn ardal y cyngor.*

*Rhaid i'r awdurdodau lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy ac efallai y byddant am ofyn am farn ymwelwyr fel rhan o'u hymgyngoriad, ond nid oes angen*

*gwneud hyn.*<sup>269</sup>

**363.** Mynegodd Cadwch Gymru'n Daclus bryder ynghylch y potensial ar gyfer cyfradd ymateb anghymesur gan fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a allai ragfarnu canlyniadau lleol ynghylch a ddylid cyflwyno ardoll ym mhob awdurdod lleol. Gwnaethant awgrymu:

*"We would recommend that the Bill or accompanying guidance for local authorities considers this and provides advice on a consistent weighting of responses to ensure a fair approach across different stakeholders. We would suggest that this can be taken further by providing a local consultation template to local authorities (which could be modified to fit local circumstances) to ensure fairness and transparency for all views, to avoid questions that could promote one-sided narratives and to include questions that highlight the benefits of a levy to ensure more local buy-in."*<sup>270</sup>

**364.** Yn dilyn yr ymgynghoriad, rhaid i'r prif gyngor ystyried ei gynnig gan roi sylw i'r ymatebion a dderbyniwyd. Mae adran 25(6) yn nodi bod rhaid i'r prif gyngor wedyn hysbysu ACC a yw'n bwriadu bwrw ymlaen â'i gynigion mewn perthynas â'r ardoll, cyhoeddi adroddiad terfynol yn cadarnhau a fydd yn bwrw ymlaen â'r cynigion (neu'r cynigion diwygiedig), ac anfon yr adroddiad hwnnw i ACC. Rhaid i'r adroddiad terfynol hefyd gynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**365.** Mae adran 26 yn amlinellu'r broses pan fydd prif gyngor yn penderfynu cyflwyno, newid, neu ddiddymu'r ardoll ymwelwyr (neu'r premiwm) ar ôl cydymffurfio â gofynion adran 25.

**366.** Mae adran 27 yn darparu ar gyfer effaith cyflwyno'r ardoll neu newid yr ardoll ar arosiadau dros nos presennol, gan gynnwys nad yw'r ardoll honno'n gymwys os gwnaed y contract perthnasol ar gyfer yr arhosiad dros nos cyn y dyddiad y penderfynodd y prif gyngor gyflwyno'r ardoll.

## **Darpariaeth amrywiol sy'n ymwneud â'r ardoll**

**367.** Mae adran 36 yn caniatáu i ddarparwyr llety ymwelwyr wneud trefniadau i un neu ragor o bersonau gasglu'r ardoll a'i thalu i ACC neu gyflwyno ffurflenni ardoll

---

<sup>269</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025

<sup>270</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB73 - Cadwch Gymru'n Daclus

ymwelwyr ar eu rhan (gall hyn gynnwys, er enghraifft, asiantau teithio neu gyfrifyddion ar-lein).

**368.** Mae'r adran hefyd yn cadarnhau y gellir gwneud trefniadau i drydydd parti gasglu symiau, ffeilio ffurflenni ardoll ymwelwyr a dyroddi ad-daliadau o dan yr amgylchiadau hynny.

**369.** Dywedodd swyddog Llywodraeth Cymru wrthym:

*"We've had quite a lot of engagement with Airbnb and the other online booking platforms. The nice thing is there are opportunities to learn from places all around the world. So, their feedback, actually, was really useful also to understand how it's worked in other places. They are so familiar with tourism taxes and visitor levies, which is very helpful. So, for those visitor accommodation providers, they can choose to use Airbnb, if they use that platform, to help them to make the payments to the WRA, but the liability still— The levy is due from the visitor accommodation provider, but they can work with these online booking platforms to help them with their payments."*<sup>271</sup>

**370.** Mae adran 37 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn gosod gofynion ar ddarparwyr llety ymwelwyr mewn perthynas ag anfonebu am arhosiad yr ymwelwyr, a darparu gwybodaeth mewn perthynas â bodolaeth, natur a swm yr ardoll.

**371.** Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, hefyd osod sancsiynau sifil, gan gynnwys cosbau ariannol, gofynion disgresiwn, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi ar y darparwyr llety ymwelwyr hynny sy'n methu â chydymffurfio â'r gofynion a nodir mewn unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon, a chânt hefyd wneud darpariaethau ar gyfer apelau yn erbyn sancsiynau sifil o'r fath.

**372.** Awgrymodd Airbnb:

*"... it is unclear what steps VAPs may be required to take, how such an obligation could be met, what the statutory process would be for ministers to utilise this power, and how onerous any measures might be."*<sup>272</sup>

---

<sup>271</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 285

<sup>272</sup> Airbnb, tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol

**373.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

*“Mae pŵer gwneud rheoliadau wedi'i gynnwys yn adran 37 y gellir ei ddefnyddio i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr i eitemeiddio'r ardoll ar fil ymwelydd.*

*Arfer dda gan ddarparwyr llety ymwelwyr fyddai eitemeiddio'r ardoll ymwelwyr lle caiff y tâl ei drosglwyddo i ymwelwyr, ond fel isafswm byddem yn disgwyl i'r tâl gael ei nodi drwy unrhyw broses archebu, hysbyseb neu gael ei arddangos o fewn y safle. Nid yw'r rhain yn ofynion yn y Bil a mater i ddarparwyr llety ymwelwyr fydd penderfynu ar y ffordd orau o arddangos neu hysbysu bod ardoll ymwelwyr yn gymwys.”<sup>273</sup>*

**374.** Mewn gohebiaeth ar wahân i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, nododd Ysgrifennydd y Cabinet:

*“Rydym wedi cynnwys y pŵer hwn i wneud rheoliadau pe bai unrhyw ddryswch, camwybodaeth neu anghywirdebau yn digwydd pan fydd darparwyr yn codi'r ardoll i ymwelwyr. Nid oes gennym unrhyw fwriad ar hyn o bryd i arfer y pŵer hwn, ond efallai y bydd yn angenrheidiol yn y dyfodol.”<sup>274</sup>*

## **Darpariaethau amrywiol a chyffredinol**

### **Canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru**

---

**375.** Mae adran 39 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch y Ddeddf ac unrhyw reoliadau a wneir odani. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu cyhoeddi canllawiau, mae'r adran hon hefyd yn gosod dyletswydd arnynt i ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

**376.** Rhaid i brif gyngor roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon wrth ystyried a ddylid arfer swyddogaeth sy'n gysylltiedig â'i ardoll, neu wrth arfer swyddogaeth o'r fath.

---

<sup>273</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 7 Ionawr 2025

<sup>274</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2025

---

## Pŵer i estyn y Ddeddf i ddocfeydd ac angorfeydd

---

**377.** Mae adran 40 yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r Bil hwn (os caiff ei ddeddfu) a Deddf 2016 i estyn yr ardoll (neu ofynion cofrestru) i ddocfeydd ac angorfeydd a ddarperir ar gyfer llestrau. Byddai rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**378.** Awgrymodd Cynghrair Twristiaeth Cymru fod cynnwys y pŵer hwn yn creu ansicrwydd diangen a fydd yn cael effeithiau negyddol ar y diwydiant.<sup>275</sup>

**379.** Awgrymodd British Marine Cymru y gallai'r Bil arwain at ganlyniadau niweidiol ar gychod hamdden:

*"Unless the meaning of 'Visitor Accommodation' is tightened (Part 1, 2) and the Bill makes clear that berths and moorings used by recreational craft will be exempt from any future extension of the Act (Section 40) the legislation will unfairly damage the leisure marine industry which is distinct from the visitor accommodation sector."*<sup>276</sup>

**380.** Esboniodd:

*"Unlike land-based visitors travelling and staying overnight in Wales, people participating in recreational boating - which is a sport and leisure activity - have little impact on the services and infrastructure that the Visitor Levy is designed to help fund, i.e. local authority roads, car parks, public conveniences etc."*<sup>277</sup>

**381.** Roedd y Royal Yachting Association Cymru Wales yn cytuno â British Marine Wales, gan ddweud:

*"... it will inadvertently draw sport into a fundamentally different policy area with cause undue concern for the Welsh recreational boaters and undermine the role this sector can play in nurturing sustainable tourism."*<sup>278</sup>

**382.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

*"... in any Bill, you come to a point where you haven't been able to work your way through all the policy implications of a*

---

<sup>275</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB105 - Cynghrair Twristiaeth Cymru

<sup>276</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB142 - British Marine Cymru

<sup>277</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB142 - British Marine Cymru

<sup>278</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB123 - Royal Yachting Association Cymru Wales

*particular course of action, which is why this Bill doesn't propose, at this point, extending the levy to those forms of activity, but provides Welsh Ministers with the power to do so in the future, should Ministers decide to do so, when more policy work has been concluded and further conversations with the industry have been carried out."*<sup>279</sup>

**383.** Ychwanegodd:

*"We will do that and if Welsh Ministers are in a position to bring forward sensible regulation to capture the people we think, in a fairness sense, should be captured without unintended consequences, then the Bill allows Ministers to do that. ... But the principle, I definitely do not concede the principle that it is wrong in principle that this sort of activity shouldn't be captured."*<sup>280</sup>

## **Barn y Pwyllgor**

**384.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pŵer i estyn yr ardoll (neu ofynion cofrestru) i ddocfeydd ac angorfeydd a ddarperir ar gyfer llestrau. Nodwn y pryderon a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r darpariaethau hyn a chydabyddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet bod angen rhagor o waith yn y maes hwn. At hynny, nodwn y byddai unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 40 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, gan sicrhau eu bod yn destun gwaith craffu yn y Senedd ac, yn yr achos hwn, rydym o'r farn bod y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn briodol.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer gwaith pellach mewn perthynas ag adran 40 a dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am drafodaethau dilynol.

---

<sup>279</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 228-229

<sup>280</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 228-229

## 10. Goblygiadau ariannol

**385.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi crynodeb o'r costau dros gyfnod gwerthuso o ddeng mlynedd, 2025-26 – 2034-35.<sup>281</sup> Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y Bil yw £313.9 miliwn i £576.6 miliwn. Mae'r Asesiad yn nodi nad oes unrhyw gostau ychwanegol i'r opsiwn "busnes fel arfer".<sup>282</sup>

Tabl 1. Costau sy'n gysylltiedig â Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)<sup>283</sup>

Disgrifiad o'r Gost	Cost (£ miliwn)
<b>Costau Gweinyddol</b>	
Costau Pontio	7.7 – 10.6
Costau Rheolaidd	22.9 – 32.0
<b>Cyfanswm y Costau</b>	<b>30.6 – 42.6</b>
<b>Costau Cydymffurfio</b>	
Costau Pontio	5.2 – 38.7
Costau Rheolaidd	278.1 – 495.3
<b>Cyfanswm y Costau</b>	<b>283.3 – 534.0</b>
<b>Cyfanswm Costau'r Bil</b>	<b>313.9 – 576.6</b>

**386.** Rhagwelir y bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil yn cael eu hysgwyddo gan y rhanddeiliaid a ganlyn:

- Llywodraeth Cymru;
- Darparwyr Llety Ymwelwyr;
- Ymwelwyr;
- Awdurdodau Lleol; ac
- Awdurdod Cyllid Cymru.

<sup>281</sup> Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 47.

<sup>282</sup> Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 54.

<sup>283</sup> Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 47.

**387.** Wrth esbonio pam mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys ystod sylweddol ar gyfer cyfanswm costau'r Bil, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod ystod eang o arbrisiant rhwng y ffigurau hynny, ond ei fod yno:

*"... because we cannot know at this point how many local authorities will decide to take up the permissive power that the Bill provides. When it could be one and it could be 22, the costs that are driven in those circumstances are very different. And not only is it different depending on the number of local authorities, but local authorities themselves vary hugely in terms of size, scale, the make-up of the visitor accommodation in their areas, and so on."*<sup>284</sup>

**388.** Ychwanegodd:

*"... we've provided the best range we can, acknowledging that it is a wide range, but they are the best estimates we have, using the data we have available, and given the unknown nature of take-up of the Bill"*<sup>285</sup>

## Llywodraeth Cymru

**389.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n mynd i gostau pontio ar gyfer:

- llunio canllawiau i awdurdodau lleol ar roi'r ardoll ymwelwyr ar waith;
- gweithgarwch cyfathrebu a marchnata ar gyfer cofrestru a'r ardoll ymwelwyr; a
- monitro a gwerthuso ar ôl gweithredu.<sup>286</sup>

**390.** Mae'r Asesiad yn nodi y gallai'r costau pontio i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â datblygu canllawiau, cynnal ymgyrch gyfathrebu a marchnata a chynnal gwerthusiad ar ôl gweithredu fod o fewn ystod o £94,000 i £154,000 yn 2025-2026, hyd at £50,000 yn 2026-27 a rhwng £20,000 a £70,000 y flwyddyn o

---

<sup>284</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 253

<sup>285</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 253

<sup>286</sup> Llywodraeth Cymru, Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 76

---



2027-2028 ymlaen. Mae'r costau cyfunol ar gyfer yr elfen hon fel a ganlyn: £254,000 i £764,000 dros gyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2025 a 2035.<sup>287</sup>

**391.** Amcangyfrifir y byddai ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus ar gyfer y cynllun cofrestru yn costio tua £50,000 - £100,000 yn seiliedig ar ymgyrchoedd eraill Llywodraeth Cymru ar yr un raddfa.<sup>288</sup>

**392.** Mae angen cyllideb o tua £30,000 - £50,000 i gefnogi gweithgarwch cyfathrebu ac ymgyrchoedd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gyhoeddus ar gyfer awdurdodau lleol sy'n dewis rhoi'r ardoll ar waith. Disgwylir y bydd cost flynyddol yr eir iddi o 2026-27 ymlaen.<sup>289</sup>

## **Darparwyr llety ymwelwyr**

**393.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y costau cyfanredol untro i ddarparwyr llety ymwelwyr presennol sy'n gysylltiedig â chofrestru yn amrywio rhwng £40,000 ac £815,000<sup>290</sup>. Amcangyfrifir costau parhaus o rhwng £3,000 a £163,000 y flwyddyn. Ar gyfer yr ardoll ymwelwyr, mae costau cyfanredol yn awgrymu y bydd uchafswm y gost ymlaen llaw i ddarparwyr llety ymwelwyr rhwng £5.1 miliwn a £37.9 miliwn ac y bydd costau parhaus blynyddol yn amrywio rhwng £1.76 miliwn a £28.8 miliwn.

**394.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi, gan fod y Bil yn cyflwyno pŵer disgrisiwn i weithredu ardoll ymwelwyr ar arosiadau dros nos ac mai dim ond rhai o awdurdodau lleol Cymru a gaiff gyflwyno ardoll ymwelwyr, bod y costau a gyflwynir "yn debygol o oramcangyfrif y gost wirioneddol".<sup>291</sup>

**395.** Roedd sylwadau yn ymwneud â'r costau ychwanegol a roddir ar ddarparwyr llety ymwelwyr yn ymddangos mewn nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad. Nododd Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid:

*"Initial estimates show that the bill as proposed would incur an additional financial liability of around £90,000 annually – a cost we cannot afford to absorb. It is also unclear whether the*

---

<sup>287</sup> [Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 48](#)

<sup>288</sup> [Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 76](#)

<sup>289</sup> [Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 77](#)

<sup>290</sup> [Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 49](#)

<sup>291</sup> [Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 60](#)

*legislation would allow for Local Authorities to impose further costs via Licensing or registration fees.”<sup>292</sup>*

**396.** Dywedodd PASC UK mewn perthynas â'r gofynion cofrestru:

*“Progressing the legislation in the absence of precise knowledge about the number of providers—given the Welsh Government’s own estimates range between 16,000 and 55,000—introduces significant uncertainties. When the estimated number of providers is not currently known within a factor of three, any extrapolation of the financial implications becomes highly unreliable and little more than guesswork.”<sup>293</sup>*

**397.** Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr ansicrwydd ynghylch y costau hyn, gyda'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

*“Mae'r union gostau yn ansicr iawn o ystyried diffyg unrhyw gymharydd uniongyrchol a'r ansicrwydd ynghylch union nifer y sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru.”<sup>294</sup>*

**398.** Mae'n ychwanegu mai mynd i'r afael a'r mater hwn yw “un o'r rhesymau dros gynnwys cofrestr o lety ymwelwyr yn y ddeddfwriaeth”.<sup>295</sup>

**399.** Ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet y pwynt hwn, gan ddweud wrth y Pwyllgor fod llunio'r Bil yn tynnu sylw at y diffyg data dibynadwy ac anwadalrwydd data, ond bod y Bil yn datrys y broblem honno:

*“... the Bill creates the register, and once the register is in place we will have accurate, comprehensive and up-to-date information, far, far better than we've had up until now.”<sup>296</sup>*

**400.** Pan ofynnwyd iddo sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cefnogi darparwyr llety ymwelwyr i ddelio â'r beichiau ariannol ychwanegol a grëwyd gan y Bil, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*“... we designed the system to make sure that the burden on the smallest providers is the least it can be. If you take in less than*

---

<sup>292</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB144 - Cymdeithas yr Hostelau Ieuentid](#)

<sup>293</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB102 - Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU](#)

<sup>294</sup> [Llywodraeth Cymru, Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 49](#)

<sup>295</sup> [Llywodraeth Cymru, Bil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 59](#)

<sup>296</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 60-62](#)

*£1,000 through the levy in a single year, you've only got to make one return in the year. You don't have to make that return yourself, you can do it through an agent or an accountant or however you manage your business normally.*<sup>297</sup>

**401.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod ACC wedi'i ddewis i gefnogi gweithredu'r Bil gan fod gan ACC fodel gweithredu penodol iawn a ddyluniwyd i helpu'r person sy'n defnyddio'r system i'w defnyddio'n iawn y tro cyntaf, gan ychwanegu:

*"We've introduced a points system ... which is designed to be proportionate, so people who make mistakes don't find themselves clobbered with punitive amounts of money, but are allowed the time they will need to get used to the new system. That's particularly with those microbusinesses in mind, to make sure that this is as easy and straightforward a system and a process that we can make."*<sup>298</sup>

## Ymwelwyr

**402.** Mae'r Bil yn deddfu ar gyfer cyfradd sefydlog sy'n seiliedig ar gyfradd y pen y noson o £0.75 y pen ar gyfer pebyll ar safleoedd gwerysyla a llety hostel a £1.25 y pen ar gyfer pob math arall o lety. Yn seiliedig ar ragdybiaethau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, pe bai'r ardoll yn cael ei gweithredu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, amcangyfrifir y gallai'r ardoll godi refeniw gwerth hyd at £33 miliwn y flwyddyn, a fyddai'n cael ei dalu gan ymwelwyr.<sup>299</sup>

**403.** Pan ofynnwyd iddo sut yr oedd Llywodraeth Cymru wedi cyfrifo'r £33 miliwn mewn refeniw y gallai'r ardoll ei gynhyrchu bob blwyddyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"... what we have done is used a three-year average, based on data provided up to 2019. We've tried to find a way round the fact that, in the post-COVID era, data has become more volatile, and, particularly, the lower level you go down, the more unreliable it becomes. So, we've used the data from the period when things were more stable, more reliable, and taken a three-year average, so we iron out any variability between years,*

---

<sup>297</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 84-88

<sup>298</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 84-88

<sup>299</sup> Llywodraeth Cymru, Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 82

*and we think that that is a more reliable way of providing information and that's how we got to the £33 million.”<sup>300</sup>*

**404.** Pan ofynnwyd iddo a oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw ddadansoddiad i ddeall yr effaith y gallai'r ardoll ei chael ar deuluoedd mwy yn benodol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*“... my view would be that a levy is no different at all here than any other component that a family would face, because a solo visitor going to the cafe buys one bag of chips, and a family of five has to find food for five people. So, everything that a family does will be scalable in terms of the costs that they incur, and the visitor levy is absolutely no different in that way ... It adds, but so does everything else you do if you're a family of that size. It will become just part of the way that you prepare.”<sup>301</sup>*

**405.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd:

*“There is some evidence that larger families tend to use the less expensive part of the accommodation, which is another reason why we have that differential, the 75p rate for campsites and so on. So, there is some recognition in the Bill that larger families mitigate the costs they face by using cheaper forms of tourism accommodation...”<sup>302</sup>*

## **Awdurdodau Lleol**

**406.** Mae'r Bil yn gosod gofyniad i awdurdodau lleol gynnal ymgynghoriad ac asesu effeithiau cyn gwneud penderfyniad i weithredu ardoll ymwelwyr, ac mae gofyniad am gyfnod hysbysu o 12 mis ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr ac ymwelwyr (y gellid ei fyrhau drwy gytundeb rhwng y prif awdurdod ac ACC).<sup>303</sup> Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

*“Amcangyfrifwyd costau i awdurdodau lleol drwy ymarfer ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol unigol, er mwyn nodi a chadarnhau ystod o amcangyfrifon cychwynnol*

---

<sup>300</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 255

<sup>301</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 257

<sup>302</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 257

<sup>303</sup> Llywodraeth Cymru, Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 79

*ar gyfer y costau gweinyddu a'r costau cydymffurfio tebygol sy'n gysylltiedig ag ardoll ymwelwyr.*<sup>304</sup>

**407.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi pe bai pob un o'r 22 awdurdod lleol yn ymgynghori ar yr ardoll ac yn ei gweithredu, y byddai'r costau gweinyddu ymlaen llaw yn amrywio rhwng £220,000 ac £880,000, ac y byddai cost barhaus flynyddol o rhwng £22,000 a £110,000. Mae hyn wedi'i bennu yn oramcangyfrif gan nad yw pob awdurdod lleol yn gweithredu'r ardoll.<sup>305</sup>

**408.** Y gost gyfunol ar gyfer yr elfen hon yw £396,000 i £1.76 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2025 a 2035, a rhagdybir y bydd costau untro yn 2025-26 a 2026-27 a chostau parhaus blynyddol o 2027-28 ymlaen.

**409.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch costau i awdurdodau lleol o ganlyniad i'r Bil, gan nodi:

*"Mae cost unrhyw ymarfer ymgynghori yn debygol o amrywio yn dibynnu ar fformat yr ymgynghoriad, nifer y cwestiynau a ofynnir, nifer yr ymatebion a geir, nifer yr ymgysylltiadau wyneb yn wyneb a gynhelir ac a gaiff yr ymgynghoriad ei gynnal yn fewnol neu ei osod ar gontract allanol i drydydd parti. Felly, mae rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'r costau a allai godi i awdurdod lleol penodol."*<sup>306</sup>

**410.** Mae'n ychwanegu:

*"Bydd y gofyniad i gynnal asesiadau effaith hefyd yn ychwanegu at y costau i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau."*<sup>307</sup>

**411.** Awgrymodd Cyngor Sir Ynys Môn fod angen eglurder pellach ynghylch y drefn ymgynghori ddisgwyliedig:

*"The information provided to date indicates that there will be one-off costs in relation to the introduction of the levy including consultation and engagement, reporting and governance."*

---

<sup>304</sup> Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 79

<sup>305</sup> Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 48

<sup>306</sup> Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 80

<sup>307</sup> Llywodraeth Cymru. Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 80

*Clarity on whether Welsh Government will financially support this set up cost would be beneficial.*<sup>308</sup>

**412.** Croesawodd CLILC y gydnabyddiaeth yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol y bydd rhai costau untro i gynghorau sy'n dewis cyflwyno'r ardoll a bod y meysydd hyn yn cynnwys:

*"... local consultation and engagement, and establishing the required governance, audit and reporting processes; and systems to manage how the revenue from the levy will be spent., including producing an annual report."*<sup>309</sup>

**413.** Fodd bynnag, roedd pryder y bydd angen ariannu'r costau ymlaen llaw hyn o fewn cyllidebau presennol cynghorau.<sup>310</sup>

**414.** Nododd CLILC ymhellach fod costau amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru i gyngor unigol sy'n dymuno cyflwyno'r ardoll yn ymddangos yn rhy isel a bod angen eu hystyried a'u mireinio ymhellach.<sup>311</sup> Ychwanegodd mewn gohebiaeth ddilynol:

*"It does not seem that the costs for a council to prepare, introduce and enforce the levy have been wholly factored in by the Welsh Government. Those councils that decide to introduce the levy will need additional resources..."*<sup>312</sup>

**415.** Daeth i'r casgliad nad oes modd meintioli'r costau gwirioneddol i gyngor ymgymryd â'r gweithgareddau hyn ar hyn o bryd.<sup>313</sup>

**416.** Mewn ymateb i dystiolaeth CLILC, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"I was mildly surprised by it because the figures that we have used in the production of the Bill are the figures that we have taken from local authorities."*<sup>314</sup>

---

<sup>308</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB136 - Cyngor Sir Ynys Môn](#)

<sup>309</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB150 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>310</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB150 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>311</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: [VAB150 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>312</sup> [Ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gwestiwn nas cyrhaeddwyd yn ystod sesiwn dystiolaeth ar Fil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\) - 6 Chwefror 2025](#)

<sup>313</sup> [Ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gwestiwn nas cyrhaeddwyd yn ystod sesiwn dystiolaeth ar Fil Llety Ymwelwyr \(Cofrestr ac Ardoll\) Etc. \(Cymru\) - 6 Chwefror 2025](#)

<sup>314</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 62](#)

**417.** Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr amrywiad eang mewn costau i awdurdodau lleol yn gwbl ddealladwy o ystyried bod ein hawdurdodau lleol yn wahanol iawn o ran maint, a'u bod yn dra gwahanol eu natur, a dywedodd hefyd:

*"What I'm happy to say today ... is that we will be producing an updated RIA as part of the Bill's process, we'll have further discussions with the WLGA on this point, and if they do have further, more detailed information about the additional costs, we'll make sure that those are reflected in the updated documentation."*<sup>315</sup>

**418.** O ran y costau untro i awdurdodau lleol sy'n dymuno cyflwyno'r ardoll, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"I don't think myself ... that it is unreasonable to ask local authorities to bear the cost of consultation on a measure that is going to lead to a new income stream for them."*<sup>316</sup>

**419.** Ychwanegodd:

*"... we are going to be providing significant sums of money from the Government through the WRA to help local authorities to make a good start on all of this."*<sup>317</sup>

## **Awdurdod Cyllid Cymru**

**420.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod cyfanswm y costau gweinyddu i ACC sy'n gysylltiedig â datblygu, casglu a rheoli'r ardoll dros gyfnod o ddeng mlynedd yn amrywio rhwng £17.123 miliwn a £22.670 miliwn. Mewn perthynas â chyflwyno cofrestr, mae'r Asesiad yn nodi:

*"Er y bwriedir i'r gofrestr fod yn un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y caiff ei dirprwyo i ACC, awgrymwyd y gallai cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu'r gofrestr dros gyfnod o 10 mlynedd amrywio rhwng £12.823m a £17.402m."*<sup>318</sup>

---

<sup>315</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 60-62

<sup>316</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 79

<sup>317</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 79

<sup>318</sup> Llywodraeth Cymru, Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 48

---

**421.** Felly, mae ystod y costau cyfunol ar gyfer casglu a rheoli'r ardoll ymwelwyr a gweithredu a chynnal a chadw'r gofrestr fel a ganlyn: £29.946 miliwn - £40.072 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2025 a 2035.<sup>319</sup>

**422.** Pan ofynnwyd iddo am yr effaith ariannol y byddai'r ardoll yn ei chael, dywedodd ACC wrth y Pwyllgor:

*"Take-up is quite a key element to how expensive it will be ... The more local authorities that opt in for the visitor levy, then the lower the cost for everything becomes."<sup>320</sup>*

**423.** Amrywioldeb arall oedd a allai ACC ddatblygu arbenigedd digidol mewnol i weithredu'r ardoll neu ddibynnu ar drydydd partion neu gyflenwyr TG i adeiladu'r systemau ond bod ychydig bach o risg yn gysylltiedig â hynny, yn yr ystyr efallai na fyddent yn gallu recriwtio'r holl sgiliau sydd eu hangen arnynt gan fod y farchnad ddigidol yn gystadleuol iawn.<sup>321</sup>

**424.** Ychwanegodd ACC:

*"there are some parts of the services where we still don't know how they might operate. For example, debt collection ... [and] things like refunds ... Again, we don't know how that's going to pan out over time, but the ambition is that we automate as much of that as possible to reduce the cost. But until we actually try to do it we don't know how much we can mitigate this cost."<sup>322</sup>*

**425.** Mynegodd CLILC byderon ynghylch costau gweithredu a rheoli'r gofrestr gan ACC, gan nodi eu bod yn uchel iawn a bod risg y bydd rhaid i Lywodraeth Cymru dalu costau os na fydd yr ardoll yn cael ei chyflwyno'n eang.<sup>323</sup>

**426.** Tynnodd CLILC sylw at y ffaith os bydd nifer o gynghorau'n dewis peidio â gweithredu'r ardoll, y bydd yn effeithio'n sylweddol ar y swm a godir, ond bydd angen talu costau parhaus gweithredu'r ardoll gan ACC o hyd. Aeth ymlaen i esbonio:

*"... unless we have greater clarity and greater certainty on how any administration costs to an implementing council would be*

---

<sup>319</sup> Llywodraeth Cymru, Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2024, tudalen 48

<sup>320</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 109

<sup>321</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 113

<sup>322</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 113

<sup>323</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig: VAB150 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru



*capped. You're not going to introduce a levy to raise £4 million if £3.5 million is retained centrally to cover the cost. So, yes, clarity around that, and I think WRA recognise this, that they would need to show value for money and demonstrate how they could manage down the costs of administration.*"<sup>324</sup>

**427.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Llywodraeth wedi ymrwymo i ariannu ACC ar gyfer y costau hynny yn y blynyddoedd cynnar ac:

*"In the early stages, in order to make sure local authorities don't end up with almost everything they raise being spent on the administration, the Government will step in. Over time, those costs will be shared more equally, and if every local authority in Wales were participating I would expect the whole of the costs to be reasonably enough accommodatable by local authorities."*<sup>325</sup>

## Barn y Pwyllgor

**428.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ystod eang o gostau a ddarperir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ogystal â'r rhesymau a amlinellwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet wrth esbonio pam y cyflwynwyd amcangyfrifon fel hyn. Credwn fod hwn yn ddull rhesymol o ystyried nad yw nifer yr awdurdodau lleol a fydd yn cyflwyno'r ardoll yn hysbys ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi nodi amcangyfrifon cost mewn perthynas â'r holl opsiynau a ystyrir o fewn yr Asesiad, yn unol â'i hargymhelliad ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)<sup>326</sup> a'i chanllawiau ei hun fel y'u nodir yn y Llawlyfr Deddfwriaeth.<sup>327</sup>

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

**429.** Fel y soniwyd mewn manau eraill yn yr adroddiad, mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch y diffygion yn y data sydd ar gael ar nifer y darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru a bod hyn wedi arwain at rywfaint o ansicrwydd ynghylch effaith ariannol gyfunol y Bil ar y darparwyr hynny. Er, fel y soniwyd ym Mhennod 5, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd cyflwyno cofrestr yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at fynd i'r afael â bylchau yn y maes hwn a bod y diffyg

---

<sup>324</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 239

<sup>325</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion

<sup>326</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau Ariannol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), Rhagfyr 2024, Argymhelliad 2

<sup>327</sup> Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Deddfwriaeth ar Ffiliau'r Senedd, Medi 2024, tudalen 47

data uniongyrchol yn siomedig, yn enwedig ei effaith ar y costau a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**430.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r effaith ariannol ar awdurdodau lleol sy'n deillio o'r Bil, o ran y costau untro a'r costau gweinyddol parhaus. Rydym hefyd yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd gan CLILC sy'n nodi bod y costau amcangyfrifedig i gyngor unigol sy'n dymuno cyflwyno'r ardoll yn ymddangos yn rhy isel a bod angen eu hystyried a'u mireinio ymhellach.

**431.** Mae'r Pwyllgor wedi'i galonogi gan y camau cyflym a gymerwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet i geisio deall a mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod trafodaethau ar y materion hyn yn parhau ac yn gofyn i ganlyniad y rhain gael eu hadlewyrchu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar gostau parhaus ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r ardoll ymwelwyr a bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2.

**432.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r costau ar ACC sy'n deillio o'r Bil a nifer y newidynnau sy'n effeithio ar yr amcangyfrifon hyn, ac yn benodol a all ACC ddatblygu arbenigedd mewnol neu a fydd yn dibynnu ar drydydd partïon i adeiladu systemau sy'n cefnogi gweinyddu'r ardoll ac a fydd y rhain yn awtomataidd ai peidio. Nodwn hefyd gyda phryder fod gweithrediad rhai o wasanaethau ACC i gefnogi gweinyddu'r Bil yn parhau i fod yn aneglur, ac rydym yn gofyn am eglurder pellach ynghylch a oes gan ACC ddigon o gapasiti i ddelio â'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n deillio o'r Bil.

**433.** Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon CLILC y bydd angen i Lywodraeth Cymru dalu costau gweithredu'r ardoll o hyd, hyd yn oed os nad yw'r symiau a godir mor uchel â'r disgwyl. Rydym wedi ein sicrhau gan ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i ariannu costau gweinyddu ACC yng nghyngorau cynnar gweithredu'r ardoll, ond rydym yn galw am eglurder pellach ar sut y bydd y costau hyn yn cael eu rheoli yn y tymor canolig i'r tymor hir.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn gweithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i asesu:

- yr amrywiadau mewn perthynas â'r costau gweinyddol y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn eu hysgwyo wrth weithredu'r Bil, ac

- a oes gan Awdurdod Cyllid Cymru ddigon o gapasiti i ymdrin â'i gyfrifoldebau ychwanegol o dan y Bil,

ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda manylion y canfyddiadau hynny.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn esbonio'r model cyllido tymor canolig i dymor hir y bydd yn ei ddefnyddio i dalu'r costau gweinyddol ychwanegol sy'n disgyn ar Awdurdod Cyllid Cymru o ganlyniad i'r Bil a bod yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddiweddarau gyda'r manylion hyn ar ôl Cyfnod 2.

## Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
5 Rhagfyr 2024	<p><b>Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Emma Anderson, Cyfreithiwr, Tîm Addysg (Ysgolion), Diwylliant, y Cyfryngau, Chwaraeon a Thwristiaeth,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Nick Lambert, Uwch Gyfreithiwr, Tîm y Trysorlys a Chaffael, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol,</b> Llywodraeth Cymru</p>
23 Ionawr 2025	<p><b>Dr Linda Osti, Uwch-ddarlithydd mewn Rheoli Twristiaeth,</b> Ysgol Fusnes Bangor, Prifysgol Bangor</p> <p><b>Dr Rhys ap Iwan, Uwch-ddarlithydd mewn Economeg,</b> Ysgol Fusnes Bangor, Prifysgol Bangor</p> <p><b>Yr Athro Calvin Jones, Athro Economeg,</b> Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd</p>
30 Ionawr 2025	<p><b>Anthony Pritchard, Prif Swyddog Digidol,</b> Awdurdod Cyllid Cymru</p> <p><b>Dyfed Alsop, Prif Weithredwr,</b> Awdurdod Cyllid Cymru</p> <p><b>Rebecca Godfrey, Prif Swyddog Gweithredu,</b> Awdurdod Cyllid Cymru</p> <p><b>Huw Thomas, Llefarydd ar yr Economi Ymwelwyr ac Arweinydd Cyngor Caerdydd,</b> Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p> <p><b>R. Medwyn Hughes, Aelod Cabinet Economi a Chymuned,</b> Cyngor Gwynedd</p>

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	<p><b>Rob Stewart, Dirprwy Arweinydd, Llefarydd ar yr Economi ac Arweinydd Cyngor Abertawe,</b> Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p> <p><b>Roland Evans, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned,</b> Cyngor Gwynedd</p> <p><b>Alistair Handyside, Cadeirydd Gweithredol,</b> Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU</p> <p><b>Andrew Green, Rheolwr Polisi Gweithrediadau Tafarn,</b> Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru</p> <p><b>Barbara Griffiths,</b> North Wales Holiday Cottages, yn cynrychioli Cymdeithas Asiantaethau Cymru</p> <p><b>Carl Thomson, Rheolwr Polisi Cyhoeddus</b> Airbnb</p> <p><b>David Weston, Cadeirydd,</b> Y Gymdeithas Gwely a Brecwast (Y DU)</p> <p><b>Dr Llŷr ap Gareth, Pennaeth Polisi,</b> Ffederasiwn y Busnesau Bach.</p> <p><b>Emma McQuillan, Pennaeth Llywodraethu,</b> Clwb Carafannau a Chartrefi Modur</p> <p><b>Katherine Squires, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus,</b> Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain</p> <p><b>Lisa Stopher, Rheolwr Gyfarwyddwr</b> West Wales Holiday Cottages</p> <p><b>Matthew Teasdale, Rheolwr Gweithrediadau a Phartneriaethau: Cymru a Chaer,</b> Cymdeithas yr Hostelau Ieuentid</p> <p><b>William McNamara, Prif Swyddog Gweithredol,</b> Bluestone National Park Resort</p>
<p><b>5 Chwefror 2025</b></p>	<p><b>David Chapman,</b> UK Hospitality Cymru</p> <p><b>Emma Thornton, Prif Weithredwr,</b> Visit Pembrokeshire</p> <p><b>Iwan Thomas, Prif Weithredwr,</b> PLANED</p> <p><b>Jim Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr</b> Twristiaeth Gogledd Cymru</p> <p><b>Rowland Rees-Evans, Cadeirydd,</b> Cynghrair Twristiaeth Cymru</p>

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	<p><b>Roy Church, Cyd-gadeirydd,</b> Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru</p> <p><b>Zoë Hawkins, Prif Weithredwr</b> MWT Cymru</p>
<p><b>12 Chwefror 2025</b></p>	<p><b>Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Emma Anderson, Cyfreithiwr, Tîm Addysg (Ysgolion), Diwylliant, Cyfryngau, Chwaraeon a Thwristiaeth,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Nick Lambert, Uwch Gyfreithiwr, Tîm y Trysorlys a Chaffael, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>David Greenhough, Pennaeth yr Ardoll Ymwelwyr, yr Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol,</b> Llywodraeth Cymru</p>

## Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

Reference	Sefydliad
VAB1	Creu Cymru
VAB2	Unigolyn
VAB3	Cytûn - Eglwysi ynghyd yng Nghymru
VAB4	Spencer Jones
VAB5	David Jones
VAB6	Llety hunanddarpar The Anchorage, Aberporth
VAB7	Unigolyn
VAB8	Daniel Wilde
VAB9	Lucas Boissevain
VAB10	Canolfan Awyr Agored Arete
VAB11	Canolfan Addysg Awyr Agored Plas Dol y Moch
VAB12	Aled Edwards
VAB13	Adam Haynes
VAB14	Unigolyn
VAB15	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
VAB16	Unigolyn
VAB17	Unigolyn
VAB18	Tony Durham
VAB19	Mrs Evans
VAB20	Snowdonia Hospitality and Leisure Limited
VAB21	Littlepentrebarn
VAB22	Unigolyn

<b>Reference</b>	<b>Sefydliad</b>
<b>VAB23</b>	Perchennog llety gwyliau â dodrefn
<b>VAB24</b>	Bear Holiday Homes
<b>VAB25</b>	Unigolyn
<b>VAB26</b>	Neil Smith
<b>VAB27</b>	Unigolyn
<b>VAB28</b>	Ystad Cynghordy
<b>VAB29</b>	Roger Broome
<b>VAB30</b>	Unigolyn
<b>VAB31</b>	Unigolyn
<b>VAB32</b>	Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr
<b>VAB33</b>	Bala-Backpackers
<b>VAB34</b>	Gwesty
<b>VAB35</b>	Y Talbot
<b>VAB36</b>	Unigolyn
<b>VAB37</b>	PLANED
<b>VAB38</b>	Simon Billington
<b>VAB39</b>	Unigolyn
<b>VAB40</b>	Rheolwr Bwthyn Gwyliau
<b>VAB41</b>	Unigolyn
<b>VAB42</b>	Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru
<b>VAB43</b>	Ashford Price, Ogofâu Dan-yr-Ogof
<b>VAB44</b>	Gwesty Glan y Môr
<b>VAB45</b>	Berin Jones
<b>VAB46</b>	Gwely a Brecwast The Owls
<b>VAB47</b>	Unigolyn
<b>VAB48</b>	Maes Gwersylla a Charafannau Elan Oaks
<b>VAB49</b>	Cymdeithas Lletygarwch Llandudno
<b>VAB50</b>	Unigolyn
<b>VAB51</b>	Margaret Kinlay



<b>Reference</b>	<b>Sefydliad</b>
<b>VAB52</b>	Philip Ryan
<b>VAB53</b>	Penny Robinson
<b>VAB54</b>	Parc Cabanau Plas Panteidal
<b>VAB55</b>	Twristiaeth Gogledd Cymru
<b>VAB56</b>	Jacquie Hatfield
<b>VAB57</b>	Unigolyn
<b>VAB58</b>	Tai Hanesyddol Cymru
<b>VAB59</b>	Bwthyn Velvet a Jasmine
<b>VAB60</b>	Paul
<b>VAB61</b>	Unigolyn
<b>VAB62</b>	Bryn Elltyd
<b>VAB63</b>	Evans Hotel Ltd
<b>VAB64</b>	Unigolyn
<b>VAB65</b>	Unigolyn
<b>VAB66</b>	Chris Davies
<b>VAB67</b>	Unigolyn
<b>VAB68</b>	Safle Gwersylla Cwmdu
<b>VAB69</b>	Sygun View
<b>VAB70</b>	Robert Griffith Roberts
<b>VAB71</b>	Cyngor Sir y Fflint
<b>VAB72</b>	Unigolyn
<b>VAB73</b>	Cadwch Gymru'n Daclus
<b>VAB74</b>	Y Gymdeithas Gwely a Brecwast (Y DU)
<b>VAB75</b>	Rheolwr Digwyddiadau
<b>VAB76</b>	Adam James
<b>VAB77</b>	Unigolyn
<b>VAB78</b>	Unigolyn
<b>VAB79</b>	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
<b>VAB80</b>	Cynghrair y Trethdalwyr

<b>Reference</b>	<b>Sefydliad</b>
<b>VAB81</b>	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
<b>VAB82</b>	Fiona Buchan
<b>VAB83</b>	North Wales Holiday Cottages Ltd
<b>VAB84</b>	Y Sefydliad Siartredig Trethu a'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel
<b>VAB85</b>	Unigolyn
<b>VAB86</b>	Cyngor Castell-nedd Port Talbot
<b>VAB87</b>	Dunoon Hotels Ltd
<b>VAB88</b>	Plant yng Nghymru
<b>VAB89</b>	Unigolyn
<b>VAB90</b>	Gwesty'r Castell
<b>VAB91</b>	Clwb Mynydda De Cymru
<b>VAB92</b>	The Chamois Mountaineering Club Ltd
<b>VAB93</b>	West Wales Holiday Cottages
<b>VAB94</b>	Unigolyn
<b>VAB95</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
<b>VAB96</b>	Joanne Miles
<b>VAB97</b>	UK Hospitality Cymru
<b>VAB98</b>	Cyngor Dinas Casnewydd
<b>VAB99</b>	Cyngor Sir Powys
<b>VAB100</b>	Mike Gutteridge
<b>VAB101</b>	Airbnb
<b>VAB102</b>	Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU
<b>VAB103</b>	Urdd Gobaith Cymru
<b>VAB104</b>	Policy Wise (Y Brifysgol Agored)
<b>VAB105</b>	Cynghrair Twristiaeth Cymru
<b>VAB106</b>	Unigolyn
<b>VAB107</b>	Clwb Mynydda Swydd Gaerloyw
<b>VAB108</b>	Richard Smith
<b>VAB109</b>	Clwb Mynydda Clogwyn

<b>Reference</b>	<b>Sefydliad</b>
<b>VAB110</b>	Clwb Mynydda Amwythig
<b>VAB111</b>	Unigolyn
<b>VAB112</b>	Comisiynydd Plant Cymru
<b>VAB113</b>	Sanctuary Coalition Cymru (Cynghrair Ffoaduriaid Cymru gynt)
<b>VAB114</b>	STAA (Y Gymdeithas Llety Byrdymor)
<b>VAB115</b>	Y Cerddwyr
<b>VAB116</b>	Perchennog
<b>VAB117</b>	Expedia Group
<b>VAB118</b>	ScoutsCymru
<b>VAB119</b>	Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain
<b>VAB120</b>	Edward Dawson
<b>VAB121</b>	Tara-Jane Sutcliffe
<b>VAB122</b>	Sykes Holiday Cottages
<b>VAB123</b>	Royal Yachting Association Cymru Wales
<b>VAB124</b>	Cymdeithas yr Iaith
<b>VAB125</b>	Cyngor Mynydda Prydain
<b>VAB126</b>	Clwb Mynydda Llundain
<b>VAB127</b>	Perchennog - Gweithredwr
<b>VAB128</b>	Y Clwb Carafannau a Chartrefi Modur
<b>VAB129</b>	Clwb Mynydda Oread
<b>VAB130</b>	FOR Cardiff
<b>VAB131</b>	Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA Cymru)
<b>VAB132</b>	Clwb Dringo Mynydd
<b>VAB133</b>	Robert Townsend
<b>VAB134</b>	Barsby Associates
<b>VAB135</b>	Twristiaeth Canolbarth Cymru / MWT Cymru
<b>VAB136</b>	Cyngor Sir Ynys Môn
<b>VAB137</b>	Dark Sky Escapes
<b>VAB138</b>	Visit Pembrokeshire

Reference	Sefydliad
<b>VAB139</b>	Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB Cymru)
<b>VAB140</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>VAB141</b>	Age Cymru
<b>VAB142</b>	British Marine Cymru
<b>VAB143</b>	Gary a Jane Soltys
<b>VAB144</b>	Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid
<b>VAB145</b>	Dr Rhys ap Gwilym a Dr Linda Osti - Ysgol Fusnes Bangor, Prifysgol Bangor
<b>VAB146</b>	Cymdeithas Asiantaethau Cymru
<b>VAB147</b>	Expeditions Wales
<b>VAB148</b>	Cyngor Gwynedd
<b>VAB149</b>	Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru
<b>VAB150</b>	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Airbnb - tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol	Ionawr 2025
Bluestone - tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol	Ionawr 2025
Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain - tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol	Ionawr 2025
ScoutsCymru - tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol	Ionawr 2025
Y Clwb Carafannau a Chartrefi Modur - tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol	Ionawr 2025